Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru
Life Sciences Hub Wales

# Ein Heffaith 2022 - 2023



Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru
Life Sciences Hub Wales

# Adroddiad strategol

# Cynnwys (Adroddiad strategol)


**Crynodeb y Prif Weithredwr** 4

**Barn y Cadeirydd** 6

**Ni yw Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru** 9

Tirlun arloesi Cymru 10

**Uchafbwyntiau cyflwyno** 11

Dadansoddi'r rhifau:
Sut rydym wedi gwneud gwahaniaeth 12

Cynnull partneriaid ac EIDC 13

Cyd-drefnu'r system 14

Sbarduno cyfleoedd 18

Adeiladu ar gyfer y dyfodol 22

**Beth nesaf?** 24

**Sut beth yw gweithio i ni?** 26

**Sut rydym yn rheoli ein cyllid** 27

# Rhoi Cymru ar flaen y gad ym maes arloesi mewn iechyd a gofal cymdeithasol



Dyma beth oedd gan ein Prif Swyddog Gweithredol, Cari-Anne Quinn, i'w ddweud am y tirlun arloesi yng Nghymru a'n rôl ynddi dros y flwyddyn ddiwethaf.

Mae wedi bod yn flwyddyn werth chweil arall wrth y llyw gyda Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru. Croeso i'n Hadroddiad Blynyddol, sy'n tynnu sylw at sut rydyn ni'n cefnogi arloesi ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, gan ddod â budd i glinigwyr, gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a chleifion yn y pen draw.

Hoffwn ddechrau gyda diolch o waelod calon i bawb sy'n gweithio ar draws y GIG a gofal cymdeithasol. Rydyn ni wedi sylwi ar eich ymroddiad a'ch cymhelliant i wneud bywyd yn well i bobl ledled Cymru, ac mae pob un ohonom yn hynod ddiolchgar. Rydych i gyd yn gwneud hyn dan amgylchiadau heriol yn aml; ni ellir gorbwysleisio effaith cyfyngiadau ar adnoddau, y rhestr hir o bobl sydd angen cael gafael ar ofal hanfodol a'n poblogaeth sy'n heneiddio. Fodd bynnag, rwy'n gobeithio bod yr adroddiad hwn yn helpu i roi darlun o rai o'r ymdrechion anhygoel sy'n helpu i fynd i'r afael â'r pwysau enfawr hyn ar y system. Mae gan Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru ran hollbwysig yn hyn drwy sbarduno arloesedd i'r rheng flaen: helpu i wella canlyniadau cleifion, cyflawni arbedion effeithlonrwydd ac annog twf economaidd ac o ran swyddi.




“Rydym yn creu cyfleoedd i feithrin cydweithrediad hirdymor, rhwng arloeswyr iechyd a gofal cymdeithasol a darpar ddefnyddwyr, a hefyd rhwng ymchwilwyr, cyllidwyr a phartneriaid defnyddiol eraill, ar hyd y ffordd.”

Mae'r ecosystem fywiog a datblygol o ran arloesi yn y maes gwyddorau bywyd yng Nghymru yn cynnig cefndir gwych i'r gwaith hwn. Mae data'r Swyddfa Gwyddorau Bywyd a Llywodraeth Cymru yn tanlinellu hyn, gan ddangos cynnydd cryf mewn incwm a chyflogaeth ar gyfer busnesau gwyddorau bywyd yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys y trosiant enfawr o £2.62 biliwn sy'n cael ei greu gan y diwydiant gwyddorau bywyd yng Nghymru – cynnydd sylweddol o 12.1% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol – yn erbyn cynnydd o 9% yn y DU. Cynyddodd cyflogaeth yn y diwydiant yng Nghymru o 1.9%, gan barhau â'r duedd o dwf cyson mewn ffigurau cyflogaeth, a chadw'n wastad â'r ffigurau twf cyflogaeth a welwyd yng ngweddill y DU.

Rydym yn cynnull ac yn integreiddio'r partneriaid hyn yn ein gwaith drwy weithredu fel rhyngwyneb deinamig. Rydym yn creu cyfleoedd i feithrin cydweithrediad hirdymor, rhwng arloeswyr iechyd a gofal cymdeithasol a darpar ddefnyddwyr, a hefyd rhwng ymchwilwyr, cyllidwyr a phartneriaid defnyddiol eraill, ar hyd y ffordd.

Rydym yn cysoni ein gwaith ag anghenion iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn helpu i gael yr effaith fwyaf. Mae hyn yn cynnwys ysgogiad ar gyfer canfod a chael diagnosis o ganser yn gynt. Dyw'r ystadegau ddim cystal ag yr hoffem iddynt fod, ond fe allai sicrhau lle i arloesedd ar y rheng flaen ac annog cydweithio gwell ein helpu i fynd i'r afael â hyn. Rydyn ni wedi canolbwyntio'n benodol ar yr angen hollbwysig hwn nad yw'n cael ei ddiwallu, gan weithio'n agos gyda sefydliadau trydydd sector fel Menter Canser Moondance a chwarae rhan weithredol mewn gwerthusiadau cyffrous fel QuicDNA a allai gyflymu diagnosis o ganser yr ysgyfaint a lleihau amseroedd aros rhwystredig ar gyfer cleifion.

Rwy'n hynod falch o'r prosiectau rydym wedi'u cyflawni dros y flwyddyn. Rydym yn cymryd rhan mewn llawer o brosiectau tymor hir, lle nad yw'r canlyniadau'n cael eu cyflawni ar unwaith, ond sy'n dwyn ffrwyth dros amser. Mae hyn yn cynnwys Rhaglen Roboteg Genedlaethol Cymru Gyfan, lle mae wedi bod yn werth chweil gweld sut mae'n gwneud bywyd yn well i gleifion canser ac yn helpu i greu swyddi yng Nghymru. Fe wnaethom ddarparu cymorth ar y camau cynnar, gan gefnogi'r broses o ysgrifennu achosion cyfiawnhad busnes a helpu i sganio'r gorwel. Mae'r rhaglen bellach ar gam lle mae dros 100 o gleifion ym mhob cwr o Gymru wedi cael llawdriniaeth ganser sy'n creu archoll mor fach â phosibl ac sy'n fwy manwl: gan leihau'r amser sy'n cael ei dreulio yn yr ysbyty a'r amser cyffredinol ar gyfer adfer.



Mae arloesedd hefyd yn rhan annatod o bolisi Llywodraeth Cymru, ac fe wnaethant lansio eu strategaeth newydd eleni 'Cymru'n arloesi: creu Cymru gryfach, decach a gwyrddach' (2023). Rydym yn croesawu'r dull hwn, gan roi diwylliant cryf, cyson a chysylltiedig o arloesi ar flaen pob agwedd ar lywodraethu. Byddwn yn parhau i weithio ochr yn ochr â Llywodraeth Cymru i gefnogi cynlluniau cyflawni arloesedd ym maes iechyd a gofal cymdeithasol ac yn gwireddu'r uchelgais hon.

> **“Mae cyfoeth o gyfleoedd posibl ar gael i gydweithio sy'n gallu helpu i sicrhau gwerth economaidd cryf a manteision iechyd a gofal cymdeithasol i Gymru.”**

Y tu hwnt i ffiniau Cymru, mae'n hanfodol bod y gymuned arloesi gwyddorau bywyd yn cyfrannu'n sylweddol at y Weledigaeth Gwyddorau Bywyd a'r Cenadaethau Iechyd a arweinir gan Lywodraeth y DU. Mae cyfoeth o gyfleoedd posibl ar gael i gydweithio sy'n gallu helpu i sicrhau gwerth economaidd cryf a manteision iechyd a gofal cymdeithasol i Gymru. Eleni, rydym wedi cryfhau ein sefyllfa fel sefydliad sy'n integreiddio rhwng Cymru a'r DU. Roedd yn fraint fawr i gael ymuno â Chynhadledd Cyswllt y Trysorlys gyda Changhellor y Trysorlys a Phrif Swyddogion Gweithredol gwyddorau bywyd. Edrychwn ymlaen at barhau i eirioli dros Gymru ledled y DU a'r tu hwnt.

Hoffwn ddiolch i'n staff a'n partneriaid, gan gynnwys ein cydweithwyr yn Llywodraeth Cymru, sy'n parhau i gefnogi ein sefydliad a'r uchelgeisiau ehangach i sicrhau bod Cymru ar flaen y gad ar gyfer arloesi a buddsoddiad ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r adroddiad hwn yn brawf o waith caled ac ymroddiad pawb i helpu i sicrhau y defnyddir arloesi ysbrydoledig ym maes gwyddorau bywyd ar y rheng flaen yng Nghymru, ac edrychwn ymlaen yn arw i weld i ble mae'r flwyddyn nesaf yn mynd â ni.

**Ymunwch â ni ar y daith gyffrous hon.**

# Sylwadau gan ein Cadeirydd



Ein Cadeirydd, Chris Martin, sy'n sôn am bopeth yn y maes arloesi ac yn edrych yn ôl ar ein gwaith yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

## Sut fyddech yn crynhoi ein perfformiad yn ystod 2022/2023?

Effaith yw'r gair y byddwn yn defnyddio i ddisgrifio ein gwaith. Rydym yn parhau i weld awydd go iawn ymysg ein partneriaid i ddefnyddio arloesedd i wella canlyniadau i gleifion, gwneud ein gwasanaethau'n fwy effeithlon ac ysgogi twf economaidd. Rydym wedi cyflawni amrywiaeth o brosiectau pwysig ar draws y sector sydd ar wahanol gamau yn eu taith drwy'r ffrwd arloesedd, ac rydym yn gweld canlyniadau cadarnhaol gan bartneriaethau newydd a rhai mwy sefydledig.

Mae pethau bellach yn sicr wedi dychwelyd i'r arfer ac rydym yn mynd ati'n rhagweithiol i sbarduno trawsnewid ar draws y maes iechyd a gofal cymdeithasol. Rydym yn falch ein bod yn sbarduno newid; gan ddarparu rhyngwyneb hanfodol i'n partneriaid ar gyfer cydweithio ar draws sectorau a chynnig arweiniad ac adnoddau hanfodol i wthio arloesi i'r rheng flaen. Mae hyn yn cynnwys hwyluso nifer o ddigwyddiadau allweddol, gan gynnwys Fforwm Diwydiant Canser Cymru a sesiynau rhwydweithio rhyngwladol i ddod â chwmnïau gwyddorau bywyd o Gymru ac Iwerddon at ei gilydd.



Rwy'n hynod falch o waith ein tîm yn cefnogi'r GIG a sefydliadau gofal cymdeithasol ledled Cymru gyda'r heriau maent yn eu hwynebu, a gweithio'n agos gyda nhw i ddeall y ffordd orau i ni gefnogi eu hanghenion. Rydym hefyd yn gweithio'n agos gyda phartneriaid yn y diwydiant sy'n mynd ati'n ddyfal i greu atebion, sy'n sbarduno datblygiadau ac yn cael eu mabwysiadu yn y pen draw. Rydym wedi cefnogi dros 262 o sefydliadau ac wedi helpu gyda 105 o swyddi yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

> Nod ein gwaith yw cefnogi iechyd a gofal cymdeithasol yn y ffordd orau bosibl. Mae ein darpariaeth yn canolbwyntio ar ddau faes strategol lle gallwn gael yr effaith fwyaf.

## Beth oedd eich prif uchafbwyntiau yn ystod 2023?

Nod ein gwaith yw cefnogi iechyd a gofal cymdeithasol yn y ffordd orau bosibl. Mae ein darpariaeth yn canolbwyntio ar ddau faes strategol lle gallwn gael yr effaith fwyaf.

Mae'r cyntaf yn helpu i ddatgloi potensial cyffrous arloesi digidol, sy'n cynnwys data mawr, roboteg a deallusrwydd artiffisial. Mae hyn yn cynnwys monitro o bell, lle rydyn ni wedi cefnogi amrywiaeth o brosiectau sy'n dod â gofal yn nes at gartrefi'r cleifion, gan ryddhau amser gwerthfawr i staff clinigol.

Cafwyd canlyniadau cadarnhaol dros ben.

Mewn un bwrdd iechyd, mae bellach modd rhyddhau cleifion sydd â methiant y galon o'r ysbyty yn gynharach a defnyddio ap i reoli eu cyflwr; mewn un arall, mae technoleg sganio i reoli gofal clwyfau yn caniatáu i arbenigwyr gynghori ac asesu heb fod angen i'r claf ddod i mewn i gael archwiliad corfforol.

Rydym hefyd wedi gwneud rhywfaint o waith gwerthfawr yn cryfhau ein cyngor ar gyllid a chefnogaeth ac arweiniad, a nodwyd fel rhwystr i fabwysiadu arloesedd gan ein rhanddeiliaid. Y llynedd yn unig, cefnogodd ein tîm 37 o gynigion cyllido a oedd werth cyfanswm o £23,477,220, gan helpu'n fawr i brofi ein gwerth yn y maes gweithgarwch hollbwysig hwn.

Meddygaeth fanwl yw'r ail faes rydym yn canolbwyntio arno. Gwyddom fod angen gwella ffigurau canfod canser yng Nghymru, a chael diagnosis ohonno: gall arloesi ddarparu ffyrdd cyflymach a mwy cywir o drin cleifion. Mae'r prosiect QuicDNA wedi bod yn dipyn o uchafbwynt: fe wnaethom helpu i gynnull rhanddeiliaid allweddol i lansio a bwrw ymlaen â gwerthusiad gwasanaeth cenedlaethol o dechnoleg biopsi hylifol anfewnwthiol ar gyfer cleifion canser yr ysgyfaint. Defnyddir dadansoddiad genomig i greu triniaethau wedi'u targedu y gellir mynd ati'n gyflymach i benderfynu arnynt a'u rhoi, gan obeithio y gallwch o wella canlyniadau a chyfraddau goroesi cleifion. Rydym yn edrych ymlaen yn arw at weld sut bydd cleifion a staff canser yn elwa o hyn – mae ein hastudiaeth, sy'n cynnwys 1260 o gleifion ledled Cymru, yn parhau.




Mae wedi bod yn wych gweld ymroddiad, gwytnwch a chreadigrwydd ym maes gofal cymdeithasol mewn ymateb i'r heriau y maent yn eu hwynebu. Mae integreiddio â gofal iechyd wedi bod yn flaenoriaeth ers tro i Lywodraeth Cymru, gan uno'r ddau wasanaeth. Rydym yn falch o fod yn sbarduno hyn drwy gryfhau ein cysylltiadau ein hunain â'r sector. Mae hyn yn cynnwys noddi'r Gwobrau Gofal Cymdeithasol a roddir gan Gofal Cymdeithasol Cymru eleni. Tynnodd hyn sylw at rywfaint o'r gwaith gwych sy'n cael ei wneud gan unigolion a sefydliadau sy'n sefyll allan.

Rydym hefyd yn cefnogi'r gwaith o gyflwyno gwerthusiadau gwasanaeth allweddol o dechnoleg arloesol ym maes gofal cymdeithasol. Un ffordd y defnyddir deallusrwydd artiffisial yw drwy ddarparu asesiadau llinell sylfaen mwy cywir o'r boen a brofir gan bobl sydd â gallu cyfyngedig i gyfathrebu; un arall yw fel adnodd rheoli meddyginiaethau digidol sy'n helpu i wneud yn siŵr bod pobl yn cymryd eu meddyginiaeth ar yr amseroedd cywir. Mae'r adborth a'r canlyniadau rhagarweiniol wedi bod yn gadarnhaol iawn; credwn y bydd y ddau adnodd yn gwella ansawdd bywyd y rheini sy'n eu defnyddio, ac yn gwneud bywyd yn haws i staff clinigol a staff gofal cymdeithasol.

## Beth yw ein cynlluniau ar gyfer 2023/2024?

Y flwyddyn nesaf, byddwn ni'n rhoi ein Cynllun Tymor Llywodraethu ar waith. Fe'i datblygwyd ar ôl gwrando ar ein partneriaid ar draws y meysydd iechyd a gofal cymdeithasol, i fireinio a thargedu ein gweithgareddau ymhellach i'w hanghenion a helpu i sbarduno trawsnewid. Drwy hyn, gallwn barhau i greu economi llesiant, gan fanteisio ar gryfderau Cymru fel rhanbarth sydd â chysylltiadau da i sbarduno arloesedd a sicrhau manteision o ran iechyd a lles, gwerth cymdeithasol a chynyddu twf economaidd.

Byddwn yn canolbwyntio ar waith sy'n ymwneud ag atal a darparu gofal yn nes at adref. Gall modelau darparu newydd a dull system gyfan

helpu i sbarduno newid hirdymor ar draws y gwahanol sectorau. Prosiectau sy'n ymwneud â meddygaeth fanwl a digidol fydd yn dal i arwain ein strategaeth. Byddwn yn sbarduno hyn i gyd drwy fynd ati i gynnull, integreiddio, eirioli a chyflymu – gan greu gwell llesiant, twf a ffyniant i Gymru.

Mae angen newid systemig beiddgar er mwyn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd a chynnig budd i bob claf, felly mae ein cynlluniau'n blaenoriaethu rhaglenni cenedlaethol a gwaith sy'n sbarduno hyn, gan gefnogi timau cenedlaethol thematig yn GIG Cymru. Ein gobaith hefyd yw meithrin rhagor o waith cydlynol ledled Cymru a fydd yn cyflymu arloesi – rydym yn ymwneud â byrddau a grwpiau diddordeb fel Iechyd a Gofal Cymru, Technoleg Iechyd Cymru a phartïon a byrddau iechyd eraill sy'n gysylltiedig â GIG Cymru. Mae hyn yn ein helpu i gadw'n agos at yr hyn sy'n digwydd ar draws y cyd-destun iechyd a gofal cymdeithasol llawn.

Drwy ein tîm newydd, rydym hefyd yn datblygu ein hymrwymiad i sbarduno twf economaidd drwy gwmnïau gwyddorau bywyd yng Nghymru. Hoffwn groesawu ein Pennaeth Datblygu Economaidd newydd, Dr Gareth Healey, sydd wedi dechrau yn y swydd newydd hon ar ôl llwyddo i ddirwyn y rhaglen Cyflymu i ben. Bydd yn arwain ein swyddogaeth datblygu economaidd i annog twf pellach yn yr ecosystem gwyddorau bywyd yng Nghymru. Mae ein tîm cyllido yn ategu hyn i gyd, ac rydym yn gobeithio ehangu'r tîm hwn yn y flwyddyn i ddod, ar ôl iddynt ddarparu gwerth economaidd gwych i Gymru yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Rydym yn gobeithio y bydd y capasiti ychwanegol hwn yn mynd ymhellach fyth wrth i ni gefnogi ceisiadau





am gyllid ar y cyd ar gyfer arloesi ym maes iechyd, yn enwedig o ran cysoni'r diwydiant lleol â chyfleoedd gan Lywodraeth ganolog a'r Swyddfa Gwyddorau Bywyd sy'n gysylltiedig â Chenadaethau Iechyd. Byddwn hefyd yn diweddaru ein Bwrdd wrth i dymhorau rhai o'n Cyfarwyddwyr Anweithredol yn y swydd ddirwyn i ben. Hoffwn ddiolch yn fawr i'r Bwrdd llawn am eu dealltwriaeth a'u harweiniad strategol i'n helpu i siapio Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru i'r hyn ydyw heddiw.

### Beth yw ein huchelgeisiau tymor hwy?

Bob dydd, byddwn yn clywed am dechnolegau a allai drawsnewid iechyd a lles sydd wedi cyrraedd gwahanol gamau yn eu datblygiad. Mae'n faes prysur a chyffrous. Rhaid i ni barhau i fod yn ymwybodol o hyn, gan gysylltu arloesi â meysydd lle mae ei wir angen.

Rydym yn gwybod bod ein systemau iechyd a gofal cymdeithasol yn wynebu heriau sylweddol ac na fydd yr heriau hynny'n diflannu. Gall trawsnewid beiddgar helpu i fynd i'r afael â hyn. Drwy gryfhau'r cysylltiadau rhwng iechyd, gofal cymdeithasol, gwyddorau bywyd a'r tu hwnt, a mynd ati ar yr un pryd i hwyluso'r gwaith o fabwysiadu arloesedd sy'n darparu atebion, gallwn greu dyfodol cynaliadwy sy'n diwallu anghenion sy'n esblygu yn ein cenedl. Mae bwrw ymlaen ag agenda ataliol yn rhan fawr o hyn. Gall helpu pobl i arafu, rheoli neu hyd yn oed atal cyflyrau sy'n lleihau oes cleifion, gan leihau'r pwysau ar iechyd a gofal cymdeithasol.

# Ni yw Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru



## Pwy ydym ni

Rydym yn helpu gyrru'r gwaith o ddatblygu a defnyddio arloesedd gwyddorau bywyd ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Rydym yn gweithredu fel rhyngwyneb deinamig, gan gysylltu arloeswyr gwyddorau bywyd â phartneriaid ymchwil, cyfleoedd am gyllid ac, yn y pen draw, y gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol rheng flaen a'r defnyddwyr. Oherwydd ein bod yn cael deialog yn gyson gyda'r holl grwpiau hyn, rydym yn gallu sicrhau ein bod yn cael yr effaith fwyaf bosibl drwy gefnogi datblygiadau arloesol sy'n mynd i'r afael â'r anghenion mwyaf hanfodol.

Yn y pen draw, mae ein gwaith yn helpu gyda llesiant meddyliol a chorfforol pobl sy'n byw yng Nghymru ac yn rhoi hwb i ddefnydd arloesiadau newydd yn y brif ffrwd, yn ogystal â sbarduno twf, swyddi a ffyniant ledled ein gwlad.



## Beth rydym yn ei wneud

Ni yw'r cysylltwyr, yr hwyluswyr a'r gyrwyr. Rydym yn cefnogi sefydliadau diwydiant, iechyd a gofal cymdeithasol a sefydliadau academaidd sy'n rhannu ein nod: rheoli, arafu ac atal iechyd gwael, drwy syniadau newydd. Mae ein deialog agored â darparwyr rheng flaen yn golygu bod gennym ni ddealltwriaeth ddofn o'r heriau a'r blaenoriaethau pwysicaf sy'n wynebu'r sector. Felly, pan fydd arloeswyr yn cysylltu â ni, byddwn yn eu helpu i siapio eu syniadau i'w gwneud mor berthnasol â phosibl i'r defnyddiwr terfynol. Neu, byddwn yn mynd â'r anghenion a'r blaenoriaethau rheng flaen hynny at arloeswyr ar gyfer datblygiad penodol hefyd.

Y peth pwysig arall rydym yn ei wneud yw dod â'r holl grwpiau hyn at y bwrdd, i wrando, rhannu ac archwilio. Yn syml, rydym yn paru anghenion iechyd a gofal cymdeithasol ag arloesedd er mwyn sbarduno cynnydd, gyda'n gilydd.




## Ein gwasanaethau cymorth

- Rheoli prosiectau
- Adroddiadau ar y farchnad a sganiau cyflym
- Datblygu achosion busnes i'w mabwysiadu
- Cyngor ar gyllid
- Datblygu a hwyluso partneriaethau
- Digwyddiadau a rhwydweithio
- Cefnogaeth wrth gyfathrebu a helaethu
- Cyfeirio at wasanaethau mewn ardaloedd eraill

# Cyd-fynd â'r cyd-destun arloesi

Mae Cymru'n lleoliad delfrydol ar gyfer datblygu a rhoi arloesedd gwyddorau bywyd ar waith ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Mae ein poblogaeth o dair miliwn yn golygu y gall ein dull gweithredu fod yn ystwyth ond mae'n ein galluogi i ddangos canlyniadau cadarn yn gyflym, o'i gymharu â'r norm yn y diwydiant. Ac oherwydd y diwylliant blaengar o gefnogi arloesi – drwy sefydliadau academaidd hynod ymrwymedig, cyngor, seilwaith a chysylltiadau, a chyllid – mae Cymru'n lleoliad deniadol ar gyfer sefydliadau gwyddorau bywyd.



Rydym yn bodoli i fanteisio i'r eithaf ar y rhinweddau hyn rydym yn eu rhannu. Rydym yn helpu i ddatblygu a mabwysiadu arloesedd yn y gwyddorau bywyd sy'n canolbwyntio ar anghenion ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, er lles a ffyniant pobl Cymru.

Rydym yn gweithio gyda phartneriaid sy'n gweithio ar draws pob maes arloesi mewn iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys y saith bwrdd iechyd lleol a'r tair ymddiriedolaeth GIG yng Nghymru, Iechyd a Gofal Digidol Cymru, Gofal Cymdeithasol Cymru, TEC Cymru a Thechnoleg Iechyd Cymru. Rydym hefyd yn cefnogi'r cymysgedd amrywiol o fusnesau gwyddorau bywyd arloesol sy'n dewis gweithio yng Nghymru drwy sicrhau bod eu harloesedd yn cyrraedd y rheng flaen ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.

## Yn y DU

Mae sector gwyddorau bywyd y DU yn arwain y byd. Mae cryfder ein hymchwil a'n clystyrau o fusnesau bach a chanolig arloesol a sefydliadau rhyngwladol yn golygu ein bod yn chwarae rhan allweddol wrth ddefnyddio arloesedd gwyddorau bywyd i greu gwell yfory. Rydym yn helpu i chwifio'r faner hon dros arloesi yn y gwyddorau bywyd yng Nghymru ar draws y DU. Ar hyn o bryd, rydym yn cryfhau'r cysylltiadau â chydweithwyr yn San Steffan a sefydliadau fel y Rhwydweithiau Gwyddor Iechyd Academaidd a'r Academi Gwyddorau Meddygol. Mae helpu i feithrin perthynas barhaol yn agor drysau i well cydweithio a rhannu profiadau ac adnoddau.

## Llwybr mabwysiadu arloesedd



# Uchafbwyntiau Cyflawni: Beth rydym wedi'i wneud

Y llynedd, fe wnaethom yrru cymysgedd o brosiectau dylanwadol ymlaen i helpu arloesedd ym maes gwyddorau bywyd i gyrraedd iechyd a gofal cymdeithasol rheng flaen. Rydym wedi gwneud hyn ar y cyd â rhanddeiliaid blaenllaw sy'n gweithio yn ein dau faes blaenoriaeth.

## Deallusrwydd Artiffisial, Digidol a Roboteg

Fel cymaint o agweddau ar ein bywydau, mae dyfodol gofal iechyd yn ddigidol. Mae defnyddio technolegau fel dadansoddeg rhagfynegol, deallusrwydd artiffisial a data mawr ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yn annog darparwyr i ddarparu gwasanaethau y tu allan i ysbytai ac yn nes at adref, yn symleiddio gwaith, ac yn gallu gwneud triniaethau'n fwy effeithiol a chywir.

Rydym hefyd yn rhedeg rhaglen Ecosystem Iechyd Digidol Cymru mewn partneriaeth ag Iechyd a Gofal Digidol Cymru. Ecosystem Iechyd Digidol Cymru yw cangen rhwydweithio Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru sy'n canolbwyntio'n benodol ar y maes digidol, roboteg a deallusrwydd artiffisial: gan ddod â diwydiant, clinigwyr, llunwyr polisïau, academyddion, arloeswyr a chyllidwyr at ei gilydd i greu amgylchedd ffyniannus o arloesi digidol yng Nghymru.

EIDC
Ecosystem Iechyd Digidol Cymru



## Meddygaeth Fanwl

Mae gennym ddyheadau beiddgar i sicrhau bod technolegau meddygaeth fanwl yn cael eu rhoi ar waith ar draws GIG Cymru. Drwy wneud hyn, gallwn ddarparu dull personol o ofalu am gleifion mewn ffyrdd sy'n amhosibl ar hyn o bryd, gan wella canlyniadau'n sylweddol drwy wella cywirdeb. Mae ein cefnogaeth yma'n cynnwys arloesi therapi uwch, gan ganolbwyntio ar therapïau uwch, genomeg a diagnosteg, lle gallwn adfer gweithrediad arferol mewn celloedd drwy drwsio, disodli, adfywio ac ail-beiriannu genynnau, celloedd a meinweoedd.

> "Rydym yn helpu i ysgogi datblygiad a mabwysiadau arloesi gwyddor bywyd sy'n canolbwyntio ar anghenion ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, er lles a ffyniant pobl Cymru."



# Dadansoddi’r rhifau

## Rydym yn falch o fod wedi gwneud gwahaniaeth yn 2022/2023 drwy:

Cefnogi 262 o sefydliadau

Helpu gyda 105 o swyddi

Denu gwerth £13,196,348 o fuddsoddiad

Darparu gwerth ychwanegol gros uwch o £5,813,500

Helpu gyda 39 o gynigion cylllido sy’n barod i’w mabwysiadu

Helpu gyda 37 o gynigion cyllido

Sicrhau gwerth o £23,477,220 drwy gynigion cyllido

Sicrhau gwerth o £4,703,324

# Cynnull partneriaid

Rydym yn cysylltu iechyd, gofal cymdeithasol, diwydiant a'r byd academaidd i gydweithio'n bwrpasol. Gall hyn gynnwys cael y bobl iawn i eistedd o amgylch bwrdd i ddatblygu prosiectau, hwyluso digwyddiadau sy'n manteisio i'r eithaf ar bartneriaethau neu drefnu grwpiau diddordeb arbennig llai, pwrpasol sy'n mynd i'r afael â heriau iechyd a gofal cymdeithasol penodol. Mae mwy i arbenigedd a phrofiad ein rhanddeiliaid na'r rhannau sydd eisoes yn gryf, gan ganiatáu iddynt gyflymu gwaith sy'n gwella iechyd a gofal cymdeithasol ac sy'n sicrhau budd economaidd i Gymru.

## Meithrin cysylltiadau rhwng Iwerddon a Chymru

EIDC



Mae ein gwaith i hwyluso cydweithio rhwng Cymru ac Iwerddon yn parhau i fynd o nerth i nerth. Cynhaliwyd digwyddiad trafod ar draws y gwledydd gyda phobl allweddol o ddiwydiant gofal iechyd y ddwy wlad yn trafod gweithio gyda'i gilydd i wella gofal i gleifion. O ganlyniad uniongyrchol i'r cyfarfodydd hyn, mae cwmnïau o Gymru'n gweithio mewn partneriaeth â chymheiriaid yn Iwerddon i greu atebion technegol ar y cyd ar gyfer y farchnad gofal iechyd. Mae hyn yn cynnwys RWG Mobile a PMD o Iwerddon. Mae ganddynt bartneriaeth ffurfiol erbyn hyn ac maent wedi dechrau integreiddio atebion ei gilydd i greu gwasanaeth ward rhithwir ar gyfer monitro anadlu – gan annog twf economaidd i'r ddau gwmni.

Mae ysbrydoli cydweithio rhyngwladol fel hyn yn arwain at fanteision deublyg. Mae'n hwyluso twf pwysig mewn busnes a swyddi i gwmnïau yng Nghymru, ar yr un pryd â gwella canlyniadau iechyd a lles yng Nghymru oherwydd yr arloesi a ddatblygwyd.

## Grŵp Diddordeb Arbennig Deallusrwydd Artiffisial

EIDC



Rydym yn trefnu Grŵp Diddordeb Arbennig Deallusrwydd Artiffisial misol sy'n ceisio defnyddio deallusrwydd artiffisial diogel a moesegol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yn gyflymach ac yn fwy effeithiol. Mae dros 150 o uwch arweinwyr o'r byd academaidd ac o gefndiroedd clinigol yn cwrdd i rannu gwybodaeth, profiad, syniadau a phryderon. Mae croeso i ddiwydiant arddangos eu technolegau hefyd. Ymhlith y cwmnïau sy'n cyflwyno mae ThinkSono, dyfais uwchsain sy'n cael ei arwain gan ddeallusrwydd artiffisial lle gall gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ddysgu a chynnal archwiliadau uwchsain allweddol drwy fodiwlau hyfforddi seiliedig ar ap, a Novabioelectics, sy'n creu dyfeisiau sy'n rhyngwynebu â'r ymennydd a'r system nerfol.

Rydym yn darparu'r gofod unigryw hwn er mwyn i bartneriaid traws-sector o Gymru gael sgyrsiau hanfodol a chydweithio ar brosiectau na fyddai'n digwydd fel arall, gan helpu yn y pen draw i ddatblygu arloesedd a fydd o fudd i gleifion ac yn gwella effeithlonrwydd.

# Cyd-drefnu'r system

> Mae angen trawsnewid ar raddfa fawr er mwyn i ni gael effaith barhaol ar iechyd a lles economaidd Cymru. Mae ein tîm yn helpu i sbarduno'r newid hwn yn y system. Rydym yn cael partneriaid o bob cwr o'r wlad i weithio'n llyfn gyda'i gilydd ac osgoi cystadleuaeth fewnol gan ddefnyddio dull 'Cymru'n Un'

## Creu atebion i heriau meddygaeth fanwl



Gallai meddygaeth fanwl drawsnewid gofal iechyd yn llwyr. Gall triniaethau pwrpasol wedi'u teilwra i anghenion cleifion ein helpu i drin clefydau'n fwy cywir ac effeithlon. Ond ni fydd yn hawdd hwyluso'r broses o fabwysiadu technolegau arloesol o'r fath ar raddfa fawr mewn systemau gofal iechyd presennol. Buom yn gweithio i fynd i'r afael â hyn mewn cyfres o ddigwyddiadau herio meddygaeth fanwl.

Croesawom arbenigwyr blaenllaw o'r byd academaidd, gofal iechyd a diwydiant i nodi'r rhwystrau ym maes meddygaeth fanwl sydd angen sylw – gan gynnwys yr heriau yn y system gofal iechyd. Yna, cyflwynodd rhanddeiliaid o'r diwydiant gynigion herio i gefnogi'r blaenoriaethau hyn, gyda naw cais llwyddiannus. Yna, fe wnaethom gynnig cymorth gan gynnwys rheoli prosiectau, gwybodaeth am y sector neu gynnull partneriaethau. Diolch i'n cefnogaeth yma rydym wedi gallu dechrau meithrin cysylltiadau â chwmnïau fel Kiffik Biomed a ThinkSono, sydd â thechnolegau a allai fod o fudd i gleifion a staff fel ei gilydd.

## Cymorth i wneud cais

Yn aml, mae sicrhau cyllid yn gam hollbwysig wrth sbarduno arloesedd yn y rheng flaen ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Rydym yn helpu arloeswyr ar draws y maes iechyd, gofal cymdeithasol, busnes a'r byd academaidd i sicrhau cyllid grant cydweithredol. Mae hyn yn sbardun pwysig ar gyfer twf economaidd. Yn ystod 2022/3, cawsom 91 o ymholiadau. Roedd 71 o'r rhain yn gysylltiedig â galwadau cyllido perthnasol ac roedd 13 yn cyfeirio at fecanweithiau cymorth neu gyllid eraill. Rydym wedi parhau i ddatblygu ein gwybodaeth am benderfyniadau a dyfarniadau cyllido a wneir, ac rydym yn defnyddio hyn fel adnodd i hwyluso ceisiadau am grantiau. Roedd ein cymorth yn cynnwys, er enghraifft:

- **Catalydd Biofeddygol a Hyrwyddo Meddygaeth Fanwl**

Mae'r Catalydd Biofeddygol, sy'n cael ei ariannu gan Innovate UK, yn gystadleuaeth reolaidd sy'n darparu cyllid i fusnesau brofi a datblygu cynnyrch iechyd a gofal arloesol. Roedd y gystadleuaeth gyllido Hyrwyddo Meddygaeth Fanwl, sydd hefyd yn cael ei ariannu gan Innovate UK, yn agored i gefnogi'r gwaith o ddatblygu offer digidol ac offer sy'n defnyddio data, a dulliau aml-fodel. Fe wnaethom ddefnyddio ein gweithgareddau cyfathrebu marchnata i dynnu sylwa at negeseuon ac annog ceisiadau, a chefnogi ymgeiswyr gyda chyngor ar ysgrifennu ceisiadau, gan gynnwys adolygu ceisiadau

- **Cronfa Lansio**

Gwnaethom gais, gydag amryw o bartneriaid, am y cyfle i gyflwyno achos busnes llawn i Innovate UK am Gronfa Lansio gwerth £7.5 miliwn. Os bydd yn llwyddiannus, bydd yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu clwstwr arloesi busnes wedi'i dargedu mewn Technoleg Feddygol sy'n seiliedig ar ddata. Bydd hyn o fudd i ddiwydiant, y byd academaidd, gofal iechyd a gweithredwyr dinesig.

- **Cynllun Peilot Hwb Iechyd Digidol UKRI**

Mae annog gweithio mewn partneriaeth, rhannu gwybodaeth a sgiliau yn hanfodol er mwyn galluogi syniadau ymchwil newydd a datblygu technoleg ddigidol i ffynnu. Roedd cynllun Peilot Hwb Iechyd Digidol UKRI yn gronfa gyllido o hyd at £8,000,000 a oedd ar gael i brosiectau sy'n creu lleoedd i helpu gwneud i hyn ddigwydd. Fe wnaethom arwain a chefnogi Prifysgolion Caerdydd, Abertawe ac Aberystwyth, a oedd i gyd yn bartneriaid arweiniol mewn ceisiadau. Roedd y rhain werth cyfanswm o fwy na £7.5m. Roedd ein cymorth yn cynnwys adolygu dogfennau'r cais, rhannu gwybodaeth am randdeiliaid perthnasol, rheoli prosiectau prosesau ymgeisio'r cais, yn ogystal â chydlynu a darparu llythyrau cefnogi.

- **A nifer o alwadau mawr am gyllid**

Rydym wedi cynyddu negeseuon ynghylch amrywiaeth o benderfyniadau cyllid allweddol, gan gynnwys y rheini gyda'r Cyngor Ymchwil Meddygol, Moondance Cancer Initiative, Cystadlaethau Gofal Iechyd SBRI ac Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru. Mae ein tîm hefyd wedi cefnogi ymgeiswyr i gyflwyno ceisiadau ar gyfer y galwadau hyn, yn ogystal â llawer o rai eraill.

## Fforwm Diwydiant Canser Cymru




Mae Fforwm Diwydiant Canser Cymru yn rhyngwyneb cydweithredol sy'n mynd ati i ymwneud ag arweinwyr gofal iechyd mewn ymgais i gyflymu canlyniadau canser gwell yng Nghymru. Mae'n cefnogi deialog ystyrlon rhwng diwydiant a gofal iechyd. Mae cyfarfodydd wyneb yn wyneb yn caniatáu i randdeiliaid greu cysylltiadau pwrpasol, gan ddarparu lle ar gyfer cydweithio effeithiol.

Rhwydwaith Canser Cymru sy'n arwain y Fforwm, ac rydym wedi bod yn rhan o'r cyfarfodydd ers ei sefydlu. Mae'r Fforwm wedi ffurfio pedwar is-grŵp sy'n canolbwyntio ar y ffordd y gallwn drin canser yn fwy effeithiol: Data canser Cymru; diagnosis cynnar o ganser; ymchwil a datblygu yng Nghymru a modelau ymchwil clinigol; a genomeg, therapïau uwch a meddygaeth fanwl.

## Gwerthuso diagnosis anfewnwthiol arloesol o ganser

Canser yr ysgyfaint yw'r pedwerydd canser mwyaf cyffredin yng Nghymru a dyma'r prif achos dros farwolaethau o ganser. Drwy gynyddu'r defnydd o fiopsi hylif anfewnwthiol (sampl gwaed) yn gynharach yn y llwybr canser, gellir penderfynu ar driniaethau wedi'u targedu a'u rhoi'n gyflymach, gan wella canlyniadau i gleifion a chyfraddau goroesi.

Rydym yn cefnogi gwerthusiad o fanteision cael biopsi hylif mewn pobl lle mae amheuaeth bod ganddynt ganser yr ysgyfaint. Mae'r partneriaid yn cynnwys Gwasanaeth Genomeg Feddygol Cymru Gyfan (AWMGS), Technoleg Illumina, sefydliadau GIG Cymru a Llywodraeth Cymru. Mae ein gwaith yn y maes hwn wedi cynnwys cefnogi prosiectau a dod o hyd i bartneriaid sy'n gweithio ar draws nifer o sectorau. Cafodd ei lansio ym mis Ebrill 2023, ac mae disgwyl i'r canlyniadau esblygu dros y blynyddoedd nesaf. Y gobaith yw y bydd y gwerthusiad hwn yn arwain at lai o amseroedd aros ar gyfer cleifion canser a llwybr clinigol cyflymach yn gyffredinol.

Gwnaeth Craig Maxwell, sy'n cynrychioli cleifion grŵp llywio QuicDNA, y sylw canlynol ar y prosiect: *"Beth am wneud yn siŵr bod Cymru gyfan yn gallu defnyddio'r profion arloesol newydd hyn, ac y gall ein nyrsys a'n meddygon anhygoel ddefnyddio'r dechnoleg hon i'w helpu nhw i'n helpu ni."*

## Llwybr Cydweithrediad Rhanbarthol ar gyfer Iechyd

Fe wnaethom ddarparu cymorth rheoli prosiect i brosiect Cydweithrediad Rhanbarthol ar gyfer Iechyd (ARCH). Roedd hyn yn cynnwys helpu i sefydlu ffrydiau gwaith i gefnogi'r gwaith o ddatblygu Labordy Patholeg Gellog Rhanbarthol ARCH Canolbarth a De-orllewin Cymru, cyn i reolwr cyflenwi penodol ddechrau yn ei swydd ym mis Ebrill 2022.

## Cefnogaeth barhaus i Therapïau Uwch Cymru

Rydyn ni'n parhau i weithio'n agos gyda Therapïau Uwch Cymru yng ngham cwmpasu eu rhaglen, a fydd yn arwain at fwy o fuddsoddi mewn seilwaith a gwasanaethau. Rydym yn helpu i ddarparu ffrwd o ymgysylltu â'r diwydiant i helpu i gyflawni ac rydym wedi creu adroddiadau gwybodaeth am y sector, gan fapio a darparu cymorth gyda digwyddiadau. Rydym yn gobeithio y bydd canlyniadau hirdymor ein cymorth yn helpu Therapïau Uwch Cymru i symud tuag at eu nod strategol o ganfod a mynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n atal GIG Cymru rhag mabwysiadu gwaith therapiwtig uwch.

## Defnyddio mesurau ysgogi cleifion i rymuso pobl

Mae ysgogi cleifion yn disgrifio'r wybodaeth, y sgiliau a'r hyder sydd gan berson wrth reoli ei iechyd a'i ofal ei hun. Gallwn ddefnyddio'r wybodaeth hon i roi gwell cefnogaeth i bobl reoli eu cyflyrau, a fydd yn ei dro yn gwella eu profiad o ofal.

Rydym wedi ymgysylltu â'r Cydlynydd Cenedlaethol Traed Diabetig ar gyfer Cymru ac Arweinydd Clinigol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe sy'n gweithioar brosiect i ddefnyddio mesurau ysgogi cleifion i gefnogi cleifion sydd â chlefyd traed diabetig. Mae hyn yn cynnwys defnyddio llwyfan digidol sy'n cael ei ddarparu gan Phreesia. Rydym wedi cefnogi hyn drwy ymgysylltu â byrddau iechyd eraill a phobl sy'n gweithio ar draws y GIG drwy drefnu digwyddiad ar-lein a chyfarfod wyneb yn wyneb ag uwch arweinwyr.



## Defnyddio llawdriniaethau gyda chymorth roboteg i wella canlyniadau canser

Cyhoeddwyd Rhaglen Llawdriniaethau â Chymorth Roboteg Cymru Gyfan ym mis Mawrth 2022, a'i nod yw trawsnewid gofal a chanlyniadau i gleifion canser a staff clinigol ledled Cymru drwy gynyddu'r technolegau a'r technegau uwch sydd ar gael ar gyfer llawdriniaethau manwl.
Gyda chyllid o £4.2 miliwn gan Lywodraeth Cymru a £13.35 miliwn gan fyrddau iechyd, ffurfiodd GIG Cymru bartneriaeth â Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru a Moondance Cancer Initiative i lansio'r rhaglen.

Cafodd CMR Surgical ei ddewis yn fuan fel y partner diwydiant i roi eu system lawfeddygol Versius ar waith, ar draws dau fwrdd iechyd i ddechrau. Roedd gennym ran allweddol yn ystod camau cynnar y rhaglen hon. Mewn ymgynghoriad agos â chydweithwyr sy'n ymwneud â'r rhaglen, fe wnaethon ni weithio i ddatblygu'r Achos Cyfiawnhad Busnes Cenedlaethol, a fu'n gymorth i sicrhau cymeradwyaeth a chyllid gan Lywodraeth Cymru ym mis Chwefror 2022.

Mae ein gwaith sganio'r gorwel a'n hymgysylltiad â chwmnïau arloesol hefyd wedi helpu i ddod o hyd i bartneriaid technoleg posibl sy'n cynnig atebion arloesol. Arweiniodd y camau cyflwyno hyn at broses gaffael gystadleuol, gyda CMR Surgical yn llwyddiannus. Wrth i'r rhaglen ddatblygu, rydym yn parhau i ddarparu cymorth cyfathrebu tymor hir. Mae ein gwaith gyda thimau clinigol yn GIG Cymru hefyd yn parhau, wrth i ni chwilio am feysydd newydd ar gyfer arloesi yn y dyfodol. I gefnogi'r rhaglen, mae CMR hefyd wedi creu swyddi newydd yng Nghymru. Ar ôl i'r rhaglen fod yn fyw am 10 mis, roedd tri thîm roboteg ar waith, 38 aelod o staff wedi'u hyfforddi a 65 o astudiaethau achos roboteg wedi'u cwblhau. Mae'r llawdriniaeth sy'n creu archoll mor fach â phosibl yn rhoi mwy o fanylder a rheolaeth yn ystod llawdriniaeth gyda chymorth roboteg, gall cleifion dreulio llai o amser yn yr ysbyty, a chael adferiad cyflymach a dychwelyd i weithgareddau arferol yn gynt.

Fe wnaeth claf canser y colon a'r rhefr siarad am ei brofiadau:
*"Mae'r llawdriniaeth robotaidd wedi newid fy mywyd i, gan ei bod wedi fy ngalluogi i ddychwelyd adref at fy nheulu bedwar diwrnod ar ôl fy llawdriniaeth, ac ar wahân i fy mag stoma, ychydig iawn o greithiau sydd gen i ac rydw i bellach yn gallu bwrw ymlaen â cham nesaf fy nhaith adfer.*

*"Mae'r tîm cyfan yn yr ysbyty wedi bod yn anhygoel, o'r timau arbenigol, yr ymgynghorwyr a'r radiograffyddion, mae pawb wedi bod yn anhygoel, a byddwn i wir yn hoffi canu clodydd y datblygiadau arloesol a wnaed mewn llawfeddygaeth roboteg a'r hyn mae hynny wedi'i olygu i mi a fy adferiad."*

Rhannodd Mike Yang, Arweinydd Ardal Fasnachol CMR Surgical, ei farn am ein cefnogaeth:
*"Mae partneriaeth CMR â Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru wedi bod yn rhagorol. Mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn cynnig gwasanaethau ac ymgynghoriadau o ansawdd uchel i helpu i adeiladu achosion busnes sy'n sbarduno arloesedd yng Nghymru."*

> "Mae'r llawdriniaeth robotaidd wedi newid fy mywyd i...Mae'r tîm cyfan yn yr ysbyty wedi bod yn anhygoel, o'r timau arbenigol, yr ymgynghorwyr a'r radiograffyddion, mae pawb wedi bod yn anhygoel, a byddwn i wir yn hoffi canu clodydd y datblygiadau arloesol a wnaed mewn llawfeddygaeth roboteg a'r hyn mae hynny wedi'i olygu i mi a fy adferiad."




# Sbarduno cyfleoedd

> Mae ein gwaith bob amser yn berthnasol i'n dau faes blaenoriaeth: Digidol, Deallusrwydd Artiffisial a Roboteg a Meddygaeth Fanwl. Ymysg pethau eraill, rydym yn cefnogi partneriaid sy'n datblygu prosiectau perthnasol drwy reoli prosiectau, adrodd ar y farchnad a chynnal sganiau cyflym, datblygu achosion busnes, cyngor ar gyllido a chymorth partneriaeth.

## Ddefnyddio pŵer deallusrwydd artiffisial i reoli poen yn well

Roedd gennym ran hollbwysig yn y gwerthusiad o'r gwasanaeth ar gyfer adnodd asesu PainChek wedi'i bweru gan ddeallusrwydd artiffisial, sy'n sganio symudiadau'r wyneb i asesu lefelau poen rhywun. Felly, gall gofalwyr wneud penderfyniadau clinigol mwy gwybodus sy'n seiliedig ar dystiolaeth ynghylch lleddfu poen i bobl sydd â sgiliau cyfathrebu llafar cyfyngedig neu bobl heb sgiliau cyfathrebu llafar o gwbl.

Fe wnaethom ysgogi ac arwain y gwerthusiad hwn drwy ein gwaith o fynd ati i chwilio am atebion newydd i gefnogi'r ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Ar ôl ymchwilio ac ymgysylltu â darparwyr PainChek, fe wnaethom gysylltu ag awdurdodau lleol a darparwyr cyllid i fesur eu diddordeb.



Yn dilyn y cytundeb cyllido gyda Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent, fe wnaethom arwain y gwerthusiad, gan ymgysylltu â chartrefi gofal a PainChek i oruchwylio'r gwaith o lansio a chyflwyno rhaglenni trwyddedu a hyfforddi.

O fewn chwe mis i'w lansio, roedd 18 cartref gofal yn cymryd rhan gyda 905 o drwyddedau'n cael eu defnyddio. Mae hyn yn golygu bod 905 o drigolion wedi elwa. Mae canlyniadau rhagarweiniol yn dangos gwelliant yn ansawdd bywyd rhai o'r bobl ar feddyginiaeth sydd wedi cael eu hailwerthuso. Wrth i'r prosiect barhau, bydd ymdrech i sicrhau bod staff yn gwybod bod yr arf yn ategu eu sgiliau, yn hytrach na'u disodli – cafodd y pryder hwn ei fwydo'n ôl i ddechrau.



Bydd partneriaid yn cyflwyno canlyniadau'r gwerthusiad i Lywodraeth Cymru er mwyn gwneud penderfyniad ar gynnig mabwysiadu cenedlaethol. Yng Ngogledd Cymru, cytunwyd ar werthusiad arall a ariennir hefyd, gan ganolbwyntio ar wasanaethau anabledd dysgu.

Rhoddwyd cipolwg ar ein cefnogaeth gan Matt Lloyd, Arweinydd y Rhaglen Technoleg Gynorthwyol ym Mwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent:
*"Mae ein harweinydd Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru wedi bod yn wych ac wedi rhoi mynediad i ni at amrywiaeth o wasanaethau nad oeddem yn ymwybodol ohonynt ar y pryd neu nad oeddem yn eu defnyddio ar hyn o bryd. Mae ein partneriaeth â Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru wedi arwain at sgan marchnad cynhwysfawr, profi cynnyrch newydd yng Ngwent, a chymorth cynllunio digwyddiadau. Mae Aimee wedi rhoi arweiniad clir i ni, wedi egsor ar gyfleoedd newydd, ac - yn bwysicaf oll - wedi darparu cymorth ymarferol sy'n arbed amser ac adnoddau. Edrychwn ymlaen at barhau â'n perthynas a defnyddio'r gwasanaethau a'r cymorth sydd ar gael."*

Hefyd, gwnaeth Tandeep Gill, Uwch Reolwr Datblygu Busnes, PainChek UK y sylw canlynol:
*"Mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru wedi rhoi cyfleoedd amhrisiadwy i ni siarad â phobl ddylanwadol ledled Cymru. O'r cychwyn cyntaf, roedd hi'n hawdd iawn i siarad ag arweinydd ein prosiect ac roeddem yn gwerthfawrogi hynny. Gofynnodd lawer o gwestiynau am PainChek a gwelodd y potensial i'w ddefnyddio ym maes gofal cymdeithasol. O ganlyniad i waith caled y tîm yn Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru, mae PainChek bellach ar yr agenda cenedlaethol ac rydyn ni'n ceisio creu achos busnes unwaith eto i'w gyflwyno ledled Cymru.*

*Mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn dîm amlochrog sy'n fedrus iawn o ran cael gafael ar y bobl iawn, ar yr adeg iawn. Mae'n nhw bob amser yn gwneud yr hyn maen nhw'n ei ddweud, a bu'r gwaith partneriaeth rydym wedi'i sefydlu dros y flwyddyn ddiwethaf yn allweddol i'n llwyddiant. Heb Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru, ni fyddem yn y sefyllfa hon heddiw. Ar y cyfan, maen nhw'n ddylanwadol, yn gefnogol ac yn frwdfrydig a dyma sy'n gyrru'r arloesedd ymlaen i'r lle mae ei angen fwyaf."*

## Cadw gofal clwyfau yn nes at gartref

EIDC

Eleni, fe wnaethom barhau i gefnogi'r gwaith o werthuso ap gofal clwyfau o bell ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe. Cost y gwasanaethau gofal clwyfau i GIG Cymru yw £330 miliwn y flwyddyn, sef 6% o gyfanswm ei gyllideb. Gall asesu clwyfau'n anghywir hefyd olygu ymweliadau dilynol ac apwyntiadau cleifion allanol diangen, gan achosi problemau capasiti ac oedi i gleifion sy'n derbyn gwasanaethau.

> Mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn ddylanwadol, yn gefnogol ac yn angerddol. Dyma sy'n gyrru'r arloesi drwodd i'r man lle mae ei angen fwyaf.


Mae technoleg Healthy.io yn caniatáu asesu a monitro clwyfau cleifion heb iddynt orfod gadael eu cartref. Ysgogwyd y gwaith hwn gan gyllid a gafodd Healthy.io gan Gronfa Atebion Digidol Llywodraeth Cymru. Fe wnaethom gydlynu'r broses ymgeisio a dethol ar gyfer pob cais, gan helpu i gysylltu datblygiadau arloesol llwyddiannus gyda'r rhannau hynny o wasanaeth iechyd Cymru a allai elwa ohonynt. Yna, fe wnaethom ddarparu cymorth logisteg a rheoli prosiectau er mwyn i brosiectau allu dechrau arni. Roedd hyn yn cynnwys arwain cyfarfodydd wythnosol i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r prosiect a datrys unrhyw heriau roedd y tîm yn eu hwynebu a chydlynu unrhyw adroddiadau a chyfathrebu â Llywodraeth Cymru.

Drwy dreialu'r dechnoleg rheoli clwyfau ar draws y timau nyrsio ardal, rydym wedi gwella cyfathrebu a gwaith amlddisgyblaethol o ran rheoli clwyfau, lleihau apwyntiadau diangen i glinigau, a gwella'r ffordd mae cleifion yn ymgysylltu â'u gofal a'u hadferiad eu hunain.

Erbyn mis Mawrth 2023, roedd dros 1,800 o gleifion wedi elwa ar y dechnoleg newydd ar draws y Bwrdd Iechyd, gan sganio cyfanswm o 3,499 o glwyfau mewn dros 21,507 o asesiadau gan nyrsys ardal neu yn y clinig clwyfau. Mae 73 o glinigwyr yn defnyddio'r ap erbyn hyn, ac mae mwy o staff yn cael eu hyfforddi drwy'r amser. Bydd cam nesaf y prosiect yn canolbwyntio ar ehangu'r gwasanaeth i arbenigeddau eraill yn y Bwrdd Iechyd. Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau digartrefedd, podiatreg, ysbytai cymunedol, ac atgyfeiriadau i'r clinig fasgwlaidd mynediad sydyn.

Dywedodd Catherine Davies a Catrin Codd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe:
*"Cydlynodd Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yr ymgysylltiad rhwng Healthy io a'r tîm Nyrsio Ardal yn Ysbyty Prifysgol Bae Abertawe, gan ddarparu cefnogaeth rheoli prosiect yn ystod y gwaith o ddarparu ein cynllun peilot ar gyfer ap rheoli gofal clwyfau.*

*"Mae ein harweinydd prosiect dynodedig wedi bod yn amhrisiadwy i ni. Mae hi wedi darparu cefnogaeth rhaglen hanfodol ynghyd â rhoi cyfeiriad a strwythur clir i ni. Mae hi hefyd wedi gweithio gyda ni i ddatblygu cynllun clir ar gyfer mabwysiadu ac i'n sbarduno i ystyried gofynion cyflwyno ehangach."*



## Sefnogi diagnosteg anadlol yn y gymuned

Fe wnaeth Arloesedd Anadlol Cymru weithio gydag amrywiaeth o bartneriaid traws-sector, gan ein cynnwys ni, i ddarparu Uned Anadlol Symudol i ddarparu gwasanaethau diagnostig ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda. Roedd hyn yn mynd i'r afael ag anghenion brys: y diffyg mewn gwasanaethau cymunedol a'r galw cynyddol a'r ôl-groniad diagnostig gan bobl â phroblemau anadlu. Fe wnaeth yr Uned hefyd helpu i ddod â gofal yn nes at adref a chyfyngu ar yr angen i bobl deithio i ysbytai i gael archwiliadau.

Rhoesom gefnogaeth gychwynnol i reoli'r prosiect. Bu ein tîm yn gweithio hefyd gydag adrannau byrddau iechyd a Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru i sicrhau bod yr Uned Anadlol Symudol yn cyrraedd y safonau sy'n ofynnol ar gyfer adeiladau gofal iechyd. Ym mis Tachwedd 2022, cafodd dros 900 o gleifion eu gweld a chynigiwyd apwyntiadau i dros 1250 o gleifion.

## Monitro darpariaeth gofal iechyd meddwl o bell

Gwnaethom barhau i gefnogi Spirit Health a Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe i weithredu technoleg ddigidol o bell i gefnogi brysbennu gofal iechyd meddwl. Mae'r gwerthusiad yn defnyddio'r llwyfan CliniTouch Vie i fonitro iechyd meddwl pobl sy'n byw mewn cartrefi gofal, gan gefnogi dulliau ymyrryd cynharach.

Erbyn diwedd y gwerthusiad, roedd 74 wedi cytuno i gymryd rhan. Ni wnaed cynnig i fabwysiadu'r dechnoleg yn ehangach yng Nghymru oherwydd ffactorau y tu hwnt i reolaeth gyfunol tîm Mewnol Bae Abertawe a Spirit Health, ond fe wnaethom nodi gwersi pwysig i helpu i lywio gwaith yn y dyfodol, gan gynnwys yr angen i sicrhau bod gan safleoedd gwerthuso adnoddau priodol a bod uwch arweinydd yn hyrwyddo'r dechnoleg berthnasol.

## Cefnogi rhaglen hanfodol i reoli pwysau

Yn ôl GIG Cymru, mae un o bob pedwar oedolyn 16 oed a hŷn yng Nghymru yn byw gyda gordewdra. Cwm Taf Morgannwg sydd â rhai o'r cyfraddau gordewdra uchaf yng Nghymru. Eto, tan 2022, nid oedd gwasanaeth rheoli pwysau llawn yn yr ardal a oedd yn cynnwys yr holl lefelau o gefnogaeth a argymhellir. Fe wnaethom ddarparu cymorth rheoli prosiect i helpu i lansio gwasanaeth llawn ym Mwrdd Iechyd yr ardal. Roedd hyn yn cynnwys datblygu dogfennau prosiect a strwythurau llywodraethu, ochr yn ochr ag edrych ar wasanaethau rheoli pwysau mewn byrddau iechyd eraill.

## Digideiddio cymorth rheoli meddyginiaethau

Her fawr sy'n wynebu gofal cymdeithasol yw cynyddu anghenion meddyginiaeth. Amcangyfrifir nad yw hyd at 50% o feddyginiaethau presgripsiwn yn cael eu cymryd fel eu bwriadwyd. Rydym yn cydweithio â Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg a Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i werthuso system ddigidol o reoli meddyginiaethau. Rydym wedi gorffen sganio'r gorwel a bellach yn rheoli'r prosiect gwerthuso, a fydd yn cael ei wneud gyda fframwaith Gofal Iechyd Seiliedig ar Werth. Bydd ei lwyddiant yn cael ei asesu gyda'r bwriad o'i fabwysiadu dros y tymor hir a'i gyflwyno'n ehangach ledled Cymru. Bydd canlyniadau'n cael eu dangos yn llawn wrth i'r gwerthusiad barhau, ond y gobaith yw y bydd yn gwella cydymffurfiaeth cleifion â meddyginiaethau ac yn helpu defnyddwyr i reoli eu hiechyd a'u lles yn annibynnol. Gallai hefyd gefnogi staff a gwasanaethau gofal cymdeithasol i reoli adnoddau drwy leihau'r ddibyniaeth ar alwadau cartref ac ysgogiadau teleofal.

Dywedodd Thomas Sauter, fferyllydd arweiniol clinigol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg:
*"“Rydyn ni wedi gweld bod mwy a mwy o alw am gymorth, felly drwy gael gwasanaethau fel ein gwasanaethau ni i fonitro o bell a yw pobl yn ymdopi'n iawn, gallwn ganolbwyntio ein hymdrechion lle mae gwir angen cymorth ac rydyn ni'n gweld pobl yn brydlon.”*

## Cwmpasu ac adrodd ar brofion pwynt gofal

Fe wnaethom gwmpasu opsiynau ar gyfer profion pwynt gofal blaenoriaeth ar gyfer Bwrdd Iechyd Addysgu Powys er mwyn helpu i wneud y gorau o'r gwasanaethau hyn mewn gofal sylfaenol ac Unedau Mân Anafiadau. Mae profion pwynt gofal fel arfer yn cael eu cynnal gan staff anghlinigol, yn agos at y claf, a gellir defnyddio'r data mae'n ei ddarparu wrth wneud penderfyniadau clinigol. Mae Powys yn sir fawr a gwledig sydd â nifer gyfyngedig o wasanaethau gofal eilaidd. Gallai gwella profion pwynt gofal olygu na fydd angen i gymaint o gleifion deithio y tu allan i'r sir i ddefnyddio gwasanaethau diagnostig nad ydynt yn cael eu darparu ar hyn o bryd – Hefyd, gallai anfon samplau y tu allan i ranbarth y Bwrdd Iechyd olygu cost ychwanegol ac amseroedd prosesu araf.

Gallai hyn wella hygyrchedd, ac ar yr un pryd, gallai gynyddu adnoddau i staff, gallai drawsnewid sut mae cleifion yn rheoli cyflyrau a gallai wella'r broses o ganfod a chael diagnosis cynharach. Fe wnaeth ein tîm adolygu'r ddarpariaeth a'r cyfleoedd presennol yn helaeth a hefyd cynnull darparwyr gofal sylfaenol i gefnogi'r waelodlin ar gyfer nodi meysydd blaenoriaeth allweddol. Mae ein cymorth profion pwynt gofal hefyd wedi golygu ein bod yn darparu adroddiadau ar ddatblygiadau arloesol newydd i ddiwallu anghenion profi blaenoriaeth uchel, ar lefel genedlaethol a lefel byrddau iechyd. Cynorthwywyd hyn ymhellach drwy ymdrechion helaeth i fapio rhanddeiliaid a diffinio'r blaenoriaethau cyfredol ar draws gwahanol leoliadau iechyd.

Mae ein gwaith cwmpasu a chefnogi profion pwynt gofal yn caniatáu i ni weithredu fel adnodd hanfodol i GIG Cymru, gan ddarparu ffrwd o brosiectau arloesi newydd ar gyfer gwerthuso a gwybodaeth allweddol am y sector i helpu i lywio'r broses o wneud penderfyniadau.

Rydym yn gwerthfawrogi pwysigrwydd y darlun ehangach. Mae ein gwaith yn cyfrannu at y newid ehangach sydd ei angen yn y system er mwyn trawsnewid iechyd ac economi Cymru. Rydym yn gwneud hyn drwy wella sgiliau allweddol, seilwaith ac adnoddau; defnyddio arloesedd yn y rheng flaen ym maes iechyd a gofal cymdeithasol a manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i Gymru ar lefel genedlaethol a rhyngwladol.

## Lansio rhaglen Academi Gwyddorau Meddygol ar y cyd

Rydym wedi gweithio mewn partneriaeth â'r Academi Gwyddorau Meddygol yn Llundain i yrru cydweithio drwy ddigwyddiadau rhwydweithio a chynllun cyllido cydweithredol yng Nghymru. Mae'r rhaglen yn hybu cysylltiadau a gweithgarwch mewn meysydd blaenoriaeth sy'n benodol i ymchwil iechyd, gan gynnwys dadansoddi data a deallusrwydd artiffisial ar gyfer genomeg, patholeg, datblygu cyffuriau a delweddu meddygol, a therapi celloedd a genynnau.

Eleni, fe wnaethom lansio'r bartneriaeth a chynnal ein digwyddiad cyntaf gyda phartneriaid. Bydd ail a thrydydd digwyddiad i ddilyn yn ystod 2023. Gall annog y gwaith traws-sector hwn helpu i ddatblygu ymchwil a fydd, maes o law, yn helpu i drawsnewid bywydau pobl a chefnogi ein systemau iechyd a gofal cymdeithasol. Yn y pen draw, mae'r gwaith hwn yn cyfrannu at weledigaeth yr Academi Gwyddorau Meddygol i hybu iechyd da i bawb gan ddefnyddio'r ymchwil a'r dystiolaeth orau.

## Creu cynnwrf â'n cyfres ddiweddaraf o bodlediadau

Eleni, fe wnaethom lansio ail gyfres o'n podlediad, Syniadau Iach, a dderbyniodd ganmoliaeth fawr. Roedd y podlediad hwn yn rhoi llwyfan i arweinwyr agweddau sy'n gweithio ar flaen y gad ym maes arloesi iechyd a gofal cymdeithasol i rannu syniadau newydd a safbwyntiau gonest.

Fe wnaethom gynhyrchu chwe phennod yn Saesneg a chwe phennod yn Gymraeg yn ymdrin â phynciau diddorol, gyda siaradwyr gwadd, gan gynnwys y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Eluned Morgan. Bu'n trafod ei blaenoriaethau diweddaraf ar gyfer GIG Cymru yn ddwyieithog a sut gall arloesi sicrhau Cymru iachach.

Roedd y podlediad yn rhoi llais i bobl sy'n gyrru newid ar reng flaen ecosystem Cymru – gan eirioli gwaith cyffrous a dylanwadol a thynnu sylw at sut rydym ar flaen y gad o ran arloesi a buddsoddiad. Roedd ein partneriaid a'n cynulleidfaoedd targed yn teimlo bod ein cynnwys yn berthnasol ac yn ddifyr. Gwelwyd hyn drwy'r gefnogaeth wych gan randdeiliaid, a oedd yn rhannu ac yn tynnu sylw at bob pennod, a thrwy'r ffigurau gwrando. Cafodd ein penodau Cymraeg a Saesneg eu chwarae dros 900 o weithiau.

> “Rhoddodd y podlediad lais i bobl sy'n gyrru newid ar reng flaen ecosystem Cymru – gan eirioli gwaith dylanwadol a chyffrous ac amlygu sut rydym yn lle o ddewis ar gyfer arloesi a buddsoddi.”

## Blaenoriaethu materion cyhoeddus

Rydym wedi datblygu ac wedi dechrau rhoi ar waith strategaeth fanwl ar faterion cyhoeddus. Gyda hyn, gallwn nodi, monitro a chreu rhaglen o weithgareddau i reoli ein rhanddeiliaid allweddol yn effeithiol. Rydym wastad wedi ymgysylltu'n gryf â rhanddeiliaid, ond mae hyn yn cynnig strwythur i'n helpu i sicrhau rhagor o effaith ac yn ein galluogi i eirioli dros Gymru a'r gwaith rydym yn ei wneud gyda'r fframwaith strategol sydd ar waith.

Eleni, rydym wedi gosod sylfeini'r strategaeth, gan weithio gydag arbenigwr blaenllaw ym maes materion cyhoeddus i ganfod a chryfhau cysylltiadau â staff allweddol ar draws Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, sefydliadau arloesedd a sefydliadau gofal iechyd. Rydym hefyd wedi dechrau gweithio ar ein strategaeth brand a negeseuon, gan sicrhau ein bod yn siarad yn y ffordd iawn â'n cynulleidfaoedd am ein gwaith ac ecosystem arloesi Cymru.

> Mae'r holl wybodaeth sy'n cael ei chasglu yn cael ei bwydo yn ôl i'n cynlluniau sefydliadol sy'n esblygu i sicrhau ein bod bob amser yn helpu partneriaid i gydweithio ac arloesi.

## Arolwg rhanddeiliaid

Roedd ein harolwg rhanddeiliaid chwemisol yn cynnig adborth ar ein sefydliad ac ecosystem arloesi Cymru gan ddiwydiant, y byd academaidd, iechyd, gofal cymdeithasol ac eraill sydd â chysylltiadau â'r sector gwyddorau bywyd. Rydym yn teilwra'r gwasanaeth rydym yn ei gyflenwi i anghenion newidiol ein partneriaid a'r amgylchedd deinamig rydym yn gweithio ynddo. Mae eu barn a'u safbwyntiau'n hanfodol i'n helpu i addasu'r cymorth rydym yn ei gynnig.
Mae hefyd yn tynnu sylw at ganfyddiadau o'r ecosystem arloesi yng Nghymru. Mae cydweithio traws-sector yn dod yn fwyfwy cyffredin – gan dynnu sylw at bwysigrwydd yr hyn rydym yn ei wneud. Nododd llawer hefyd bod arloesi'n bwysig iawn, a rhai o'r rhwystrau i'w lwyddiant oedd cyllid, adnoddau a diffyg cyfle i ymgysylltu â phobl y tu allan i'w sector. Mae'r holl wybodaeth sy'n cael ei chasglu yn cael ei bwydo yn ôl i'n cynlluniau sefydliadol sy'n esblygu i sicrhau ein bod bob amser yn helpu partneriaid i gydweithio ac arloesi.



> "Maen nhw wedi cael rhai mentrau da sydd wedi bod yn gadarnhaol i ni, er enghraifft, y digwyddiad llynedd, sef y digwyddiad cyntaf i mi fynd iddo mae'n debyg, a chynhaliwyd digwyddiad bwrdd crwn. . . ac allan o hynny mae gennym ddwy bartneriaeth rydym yn gweithio arnyn nhw ar hyn o bryd sy'n ddifrifol ac maen nhw eisiau symud ymlaen gyda ni. . . . Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru, mae fy mhrofiad gyda nhw hyd yma yn gadarnhaol iawn, iawn."

Ymatebydd i'r arolwg rhanddeiliaid

# Beth nesaf?

**Rydym yn hynod falch o'n llwyddiannau ni a'n partneriaid ers ail-lansio yn 2018. Yn ystod y pum mlynedd hyn, rydym wedi cefnogi sefydliadau di-rif ar draws sawl sector i yrru arloesi yn y rheng flaen ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, gan helpu i greu twf, swyddi a ffyniant yng Nghymru.**

Mae bellach yn bryd adeiladu ar y sylfeini cryf hyn. Rydym wedi datblygu Cynllun Tymor y Llywodraeth beiddgar sy'n tynnu sylw at sut gallwn ddefnyddio ein profiad a'n harbenigedd i greu economi llesiant. Rydym yn defnyddio arloesi fel sbardun mewn cylch rhinweddol i sicrhau manteision iechyd a llesiant, gwerth cymdeithasol a chynyddu twf economaidd.

Ein blaenoriaeth fwyaf yw diwallu anghenion newidiol ein rhanddeiliaid. Ni allwn barhau i wneud hyn drwy ddal ati i fuddsoddi yn yr un modelau gwasanaeth â'r gorffennol. Mae angen trawsnewid ar raddfa fawr yn sgil y pwysau cynyddol sy'n wynebu ein systemau iechyd a gofal cymdeithasol wrth adfer ar ôl Covid-19, poblogaeth sy'n heneiddio a dyfodiad dulliau therapiwtig newydd. Er mwyn cyflawni hyn, mae'n hanfodol ein bod yn ymgorffori arloesedd ac yn gweithio'n ddi-fwlch yn ein system.

Gall ein cynllun helpu i sbarduno hyn ar yr un pryd â phontio'r bylchau yn y system a chyflymu'r broses o fabwysiadu arloesedd yn sydyn ac ar raddfa fawr. Rydym wedi ymgysylltu'n helaeth â rhanddeiliaid perthnasol i nodi ein ffocws ar lefel thematig (gofal yn nes at gartref a gofal ataliol) a lefel strategol (iechyd digidol a meddygaeth fanwl). Mae ein holl waith yn perthyn i bedwar maes gweithgarwch allweddol:

## Cynnull
*Brocera cysylltiadau ar draws sectorau*

Holl bwrpas Cynnull yw dod â grwpiau amrywiol o bobl at ei gilydd, hwyluso cyflwyniadau a chryfhau perthnasoedd. Mae hyn yn arbennig o bwysig er mwyn manteisio i'r eithaf ar berthynas ryngddibynnol sydd eisoes yn bodoli rhwng y GIG, darparwyr gofal cymdeithasol, y byd academaidd, a chwmnïau gwyddorau bywyd bach a mawr. Fodd bynnag, mae seilos, cyfyngiadau o ran adnoddau a chymhlethdod yr ecosystem hon yn gallu ei gwneud yn anodd cynnull.

Byddwn yn datblygu ein safle ymhellach fel brocer cydweithio profiadol a dibynadwy ar gyfer y partneriaid hyn; gan helpu i fynd i'r afael â'r heriau hyn gyda dull gweithredu sy'n seiliedig ar wybodaeth a geir ar draws y ffrwd ddatblygu technoleg. Mae'n cynnwys gwrando ar randdeiliaid ym maes iechyd a gofal cymdeithasol i ddeall eu hanghenion a dilysu'r 'atyniad arloesi' gan y sector yn drylwyr. Byddwn hefyd yn cefnogi'r agwedd 'ymdrech arloesi' drwy weithio gyda'r diwydiant i ddeall manteision eu hateb ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yn y byd go iawn.

## Integreiddio
*Gweithio'n ddi-fwlch*

Rydym yn cryfhau ein hymrwymiad i ddull gweithredu 'Cymru'n Un'. Yma, mae partneriaid yn gweithio'n ddi-dor gyda'i gilydd, yn cydnabod cryfder cydweithio, yn osgoi cystadleuaeth fewnol ac yn adeiladu ar gryfderau'r cydrannau presennol. Mae gan Gymru ecosystem arloesi brysur iawn. Mae partneriaid di-rif yn ymdrechu'n galed i wella ein hiechyd a'n lles yn eu maes penodol nhw. Byddwn yn helpu i leihau'r sŵn ac yn ei gwneud yn haws dod o hyd i'r ffordd drwodd.

Byddwn yn gwneud hyn drwy greu drws ffrynt ar ein gwefan ar gyfer ecosystem arloesi iechyd a gofal Cymru ar sail buddsoddiad, a fydd yn darparu gwybodaeth, cymorth a chyfeirio at bartneriaid. Bydd hyd a lled ein dealltwriaeth o'r system gofal iechyd a'n gwybodaeth am y sector hefyd yn golygu ein bod yn gallu cyflymu'r broses fabwysiadu a thyfu pethau i fynd i'r afael ag anghenion sydd heb eu diwallu. Bydd ein sefydliad hefyd yn parhau i gryfhau cysylltiadau â'n cymheiriaid mewn asiantaethau arloesi ledled y DU, gan rannu gwybodaeth, offer ac arferion.

### Cyflymu

*Mynd ag arloesedd i'r rheng flaen, yn gyflymach*

Rydym eisiau gallu sicrhau lledaeniad a graddfa arloesi yn gyflymach. Byddwn yn gwneud hyn drwy hwyluso dull gweithredu cenedlaethol ar gyfer mabwysiadu cyflym drwy gefnogi'r gwaith o ddatblygu a churadu ffrwd genedlaethol o arloesi. Bydd hyn yn mynd â chi o'r cam gweithredu'r holl ffordd nes cyflwyno'r cynllun yn genedlaethol. Byddwn yn gwneud hyn drwy gefnogi'r gwaith o ddatblygu offer ar gyfer ffrydiau, portffolio a rheoli prosiectau. Er mwyn helpu i gadw'n prosesau'n gyson, byddwn yn creu fframwaith ar gyfer pob cam o'r broses arloesi, o'r darganfod hyd nes ei gyflwyno ar raddfa fawr, gan gefnogi newid o fod yn gynllun peilot i'w fabwysiadu'n gyflym. Bydd ein tîm hefyd yn nodi ac yn mapio'r rhwystrau sy'n atal ei fabwysiadu'n eang, gan weithio gyda rhanddeiliaid allweddol i fynd i'r afael â'r rhain a sicrhau newid yn y system.

Mae ein hystod o wasanaethau cefnogi wrth galon hyn:

- Sganio'r gorwel
- Partneriaethau
- Dadansoddi'r farchnad
- Achosion busnes
- Cyfathrebu
- Rheoli prosiectau

> "Mae ecosystem arloesi Cymru yn brysur iawn. Mae yna lawer o bartneriaid yn ymdrechu'n galed i wella ein hiechyd a'n lles o fewn eu cilfach eu hunain. Byddwn yn helpu i dorri trwy'r sŵn a'i gwneud hi'n haws llywio."

### Eirioli

*Chwifio'r faner dros Gymru*

Mae llawer o resymau pam y dylai sefydliadau ystyried fod Cymru ar flaen y gad ar gyfer arloesi a buddsoddi ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Rydym eisiau dathlu a thynnu sylw'r bobl iawn at hyn: codi proffil ein cryfderau a'n galluoedd yn rhyngwladol gyda'r bwriad o ddatblygu partneriaethau ar draws sectorau a sicrhau mwy o gyllid.

Ein dyhead yw darparu adnodd canolog i ddangos arloesedd ym maes iechyd a gofal cymdeithasol a sicrhau bod cyfleoedd i gydweithio yn weladwy yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Byddwn yn parhau i dynnu sylw at lwyddiant arloesi ym maes iechyd a gofal cymdeithasol drwy ymgyrchoedd marchnata a chyfathrebu, drwy greu astudiaethau achos ac erthyglau sy'n cefnogi hyn.
Bydd ein tîm yn adeiladu ar hyn drwy symud tuag at farchnata o un busnes i'r llall ar sail eiriolaeth sy'n seiliedig ar ansawdd y gwasanaeth a ddarperir, rhwydweithio a ffurfio partneriaethau tymor hir.



**Yn cyd-fynd â pholisi Llywodraeth Cymru:**

- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Y Rhaglen Lywodraethu (2021-2026) sy'n cynnwys y Cytundeb Cydweithio
- Cymru Iachach
- Ffyniant i Bawb
- Strategaeth Arloesi ar gyfer Cymru
- Y Weledigaeth ar gyfer Gwyddorau Bywyd

I gael rhagor o wybodaeth am ein Cynllun Tymor y Llywodraeth a sut gallwn ddefnyddio hwn i gefnogi eich sefydliad, anfonwch e-bost at hello@lshubwales.com

# Sut beth yw gweithio i ni?

## Ein Pobl

Ein pobl yw ein hased a'n cryfder mwyaf; mae ein hagenda Pobl uchelgeisiol yn adlewyrchu hyn ac ategir hyn gan ein ffocws a'n hymrwymiad yn y maes portffolio hwn. Ein huchelgais yw parhau i ddatblygu ein diwylliant yn barhaus drwy ymgysylltu'n gadarnhaol â chydweithwyr a hefyd drwy fod eisiau sicrhau bod ein gweithle mor flaengar a gwerth chweil ag y gall fod. Mae angen doniau, medrau ac angerdd dros arloesi a gwella er mwyn gweithio yn y sector gwyddorau bywyd. Felly, mae datblygu tîm o bobl a thrwy feithrin y sgiliau a'r galluoedd hyn sydd eu hangen i gyflawni ein gweledigaeth yn un o feysydd allweddol ein strategaeth, wedi'i llunio gan gynlluniau datblygu personol unigol ar gyfer pob aelod o'r tîm a diwylliant dysgu cefnogol.

Un o'r llwyddiannau pwysicaf yn y maes hwn yn ystod y flwyddyn ddiwethaf oedd rhoi fframwaith cyflogau a gwobrwyo blaengar ar waith, adolygu ein pecyn buddion, ehangu ein harferion ymgysylltu â chydweithwyr a denu talent newydd i'r sefydliad. A dim ond rhai o'n mannau cyswllt ar gyfer gwella pobl yw'r rhain.

## Ymgysylltu â Chyflogeion

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym hefyd wedi llwyddo i gryfhau ein harferion ymgysylltu â gweithwyr a'r cyfleoedd i ofyn am adborth gan gydweithwyr, gan helpu i siapio meysydd gwella allweddol. Dangosodd canlyniadau ein Harolwg Pyls Ymgysylltu â Chydweithwyr bod dros 90% o'n gweithlu'n teimlo'n falch o weithio i ni a'u bod hefyd yn hapus yn eu swyddi. Rydym hefyd wedi gwreiddio sesiynau Diweddariad Busnes misol rheolaidd i rannu prif weithgareddau busnes a phenawdau perfformiad â'r tîm cyfan; yn ogystal â Diwrnodau Tîm chwarterol i adleisio ac adeiladu ar y themâu hyn gan helpu i drosi strategaeth busnes a chynlluniau yn elfennau gweladwy i'n tîm. Mae ein diwylliant agored a'n hawydd i wrando ar ein cydweithwyr hefyd yn cael ei adlewyrchu yn y cyfleoedd rheolaidd sydd gan gydweithwyr i ddod i sesiynau dros baned gyda'n Prif Swyddog Gweithredol a'n Pennaeth Adnoddau Dynol hefyd, er mwyn helpu i sbarduno newid a gwelliannau.

## Llesiant

Mae llesiant cydweithwyr yn cael ei hyrwyddo'n frwd, gyda grŵp Llesiant pwrpasol Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru bellach ar waith, gyda chefnogaeth gan Hyrwyddwyr Llesiant ar draws y busnes, i helpu i hyrwyddo amgylchedd yn y gweithle sy'n cefnogi gweithgareddau llesiant ystyrlon i bob cydweithiwr. Mae Rhaglen Cymorth i Weithwyr yno i gefnogi cydweithwyr hefyd, a gall pob gweithiwr ddefnyddio'r rhaglen hon i gael cymorth a chyngor cyfrinachol pan fo angen.

Mae ein blaenoriaethau pobl, ein diwylliant a'n harferion yn y gweithle yn esblygu'n barhaus i helpu i lywio ein blaenoriaethau busnes ac i gefnogi nodau ac amcanion ein busnes. Rydym am i Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru fod yn lle gwych i weithio ynddo.






# Sut rydym yn rheoli ein cyllid

Cawsom Gyllid gwerth £3.5m gan Lywodraeth Cymru yn 2022-23 (£3.5m yn 2021-22). £3.8m oedd dyraniad gwreiddiol y gyllideb yn y Llythyr Cylch Gwaith a datganwyd tanwariant o £0.3m (yn ymwneud yn bennaf â swyddi gwag) ym mis Ionawr 2023.

| **Treuliau** | **£M** |
|---|---|
| Pobl | 2.12 |
| Cyfleusterau | 0.24 |
| TGCh | 0.30 |
| Cyllid a Chydymffurfiaeth | 0.28 |
| Marchnata a Digwyddiadau | 0.26 |
| Costau Swyddfa | 0.04 |
| Ymgynghori (Arall) | 0.06 |
| Teithio | 0.02 |
| Swyddfa Prydlesu | 0.25 |
| **Cyfanswm Gwariant** | **3.57** |




**2022 - 2023**

Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru
Life Sciences Hub Wales

# Llywodraethu ac Atebolrwydd

# Rhagymadrodd

Mae'r adran hon yn nodi sut mae fframwaith llywodraethu a rheoli risg Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn cefnogi'r gwaith o gyflawni nodau ac amcanion y Cwmni.

Rydym yn amlinellu sut y caiff Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru ei reoli, rôl a chyfansoddiad Bwrdd y Cyfarwyddwyr a'i ddau is-bwyllgor, y trefniadau sicrwydd ac atebolrwydd, a'r risgiau y mae'r Cwmni'n eu hwynebu a sut y caiff y rhain eu rheoli. Rydym hefyd yn disgrifio'r gwaith parhaus i wella'r system a'r prosesau llywodraethu.

Mae'r prosesau llywodraethu hyn hefyd yn sicrhau bod yr adroddiad blynyddol a'r datganiadau ariannol, o'u cymryd gyda'i gilydd, yn rhoi adlewyrchiad teg a chytbwys o drefniadau llywodraethu Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru a sut mae'r rhain yn cefnogi model busnes, strategaeth a pherfformiad y Cwmni (mae'r manylion i'w gweld yn yr Adroddiad Strategol ar dudalennau XX-XX).

Mae'r adran hon yn cynnwys yr adroddiadau/datganiadau canlynol:

- Adroddiad y Cyfarwyddwyr – mae hwn yn nodi aelodaeth y Bwrdd, cyfrifoldebau aelodau'r Bwrdd ac mae'n cynnwys amryw o ddatgeliadau ar berfformiad statudol sy'n ofynnol dan Ddeddf Cwmnïau 2006. Mae hefyd yn rhestru cyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr wrth baratoi'r adroddiad blynyddol a'r datganiadau ariannol, yn ogystal â rhoi trosolwg o'r prif risgiau y mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn eu hwynebu a'r system rheoli risg sydd ar waith (tudalennau XX-XX).
- Y Datganiad Llywodraethu Corfforaethol – mae hwn yn datgelu fframwaith llywodraethu Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru, gweithgareddau Bwrdd y Cyfarwyddwyr ac mae'n cynnwys adroddiadau blynyddol (crynodeb) dau is-bwyllgor y Bwrdd. Mae'r datganiad hwn hefyd yn gwneud datgeliadau fel sy'n ofynnol gan Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru (tudalennau XX-XX).
- Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol – mae hwn yn rhoi trosolwg o ganlyniad yr archwiliad blynyddol a gynhaliwyd gan archwilwyr allanol Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru, Archwilio Cymru (tudalennau XX-XX).

## 1 Adroddiad y Cyfarwyddwr

Mae'r Cyfarwyddwyr yn cyflwyno eu hadroddiad blynyddol ynghyd â'r datganiadau ariannol a archwiliwyd ac adroddiad archwilydd annibynnol Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru Cyfyngedig ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023.

- Mae'r wybodaeth ganlynol sy'n ofynnol dan Ddeddf Cwmnïau 2006 ar gael yn adran ganlynol yr adroddiad blynyddol.
- Mae'r Adroddiad Strategol (tudalennau XX-XX) yn cynnwys manylion am amcanion Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru, datblygiadau yn y dyfodol a digwyddiadau arwyddocaol ers dyddiad y fantolen.
- Nodir datgeliadau rheoli risg Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru ar dudalennau XX-XX.
- Yn nodyn 19 y datganiadau ariannol, ceir gwybodaeth am sut mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn defnyddio offerynnau ariannol.
- Trafodir strwythur cyfalaf Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn y datganiadau ariannol.

### 1.1 Difidendau

Ni chaiff difidendau eu dosbarthu ar gyfer y cyfnod a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023.

### 1.2 Cyfarwyddwyr

Dyma'r cyfarwyddwyr a oedd mewn swyddi yn ystod y flwyddyn a hyd at ddyddiad llofnodi'r datganiadau ariannol:

- Mr C Martin (Cadeirydd) *
- Mr J Evans *
- Mr R P Jones *
- Ms C O'Brien *
- Mr P Max +
- Mr L Richards +
- Ms E Cassin +
- Ms V Bates +

Yr Athro H Laing +

Gan mai Corff Hyd Braich Llywodraeth Cymru yw Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n penodi'r holl Gyfarwyddwyr (Anweithredol). Ar ddechrau blwyddyn ariannol y llynedd, roedd pedwar cyfarwyddwr (cyfeirnod *) wedi bod yn eu swydd ers iddynt gael eu penodi ar 9 Hydref 2017. Ym mis Medi 2020, fe wnaeth y Gweinidog ailbenodi'r Cyfarwyddwyr hyn am ail gyfnod o dair blynedd yn y swydd, gan gynnwys y Cadeirydd.

Llwyddodd y Gweinidog i benodi pum Cyfarwyddwr (cyfeirnod +) i lenwi swyddi gwag yn dilyn proses penodiadau cyhoeddus. Penodwyd y Cyfarwyddwyr hyn am gyfnod o dair blynedd o 1 Ionawr 2021 ymlaen.

### 1.3 Cyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr

Dylid darllen y canlynol ar y cyd â chyfrifoldebau'r archwilydd allanol fel y nodir yn eu hadroddiad ar dudalen xx.

Y Cyfarwyddwyr sy'n gyfrifol am baratoi'r Adroddiad Blynyddol a'r datganiadau ariannol yn unol â'r gyfraith a'r rheoliadau perthnasol.

Mae cyfraith cwmnïau yn mynnu bod y Cyfarwyddwyr yn paratoi datganiadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol. O dan y gyfraith honno, mae'r cyfarwyddwyr wedi dewis paratoi'r datganiadau ariannol yn unol â'r Safonau Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y cawsant eu mabwysiadwyd gan yr Undeb Ewropeaidd. O dan gyfraith cwmnïau, ni ddylai'r Cyfarwyddwyr gymeradwyo'r datganiadau ariannol oni bai eu bod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r Cwmni ac o'i elw neu golled am y cyfnod hwnnw. Wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn, mae Safon Cyfrifyddu Ryngwladol 1 yn mynnu bod cyfarwyddwyr yn gwneud y canlynol:

- dewis a rhoi polisïau cyfrifyddu ar waith yn briodol;
- cyflwyno gwybodaeth, gan gynnwys polisïau cyfrifyddu, mewn modd sy'n darparu gwybodaeth berthnasol, ddibynadwy a gwybodaeth y gellir ei chymharu a'i deall;
- darparu datgeliadau ychwanegol pan nad yw cydymffurfiad â'r gofynion penodol yn IFRS yn ddigon i alluogi defnyddwyr i ddeall effaith trafodion penodol a digwyddiadau ac amodau eraill ar sefyllfa ariannol a pherfformiad ariannol yr endid; ac
- asesu gallu'r Cwmni i barhau fel busnes gweithredol.

Y Cyfarwyddwyr sy'n gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu sy'n ddigonol i ddangos ac egluro trafodion y Cwmni a datgelu sefyllfa ariannol y Cwmni yn rhesymol gywir ar unrhyw adeg, a'u galluogi i sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â Deddf Cwmnïau 2006. Maent hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedau'r Cwmni ac felly am gymryd camau rhesymol i atal a chanfod twyll ac unrhyw afreoleidd-dra arall.

**1.4 Cyfrifoldebau'r cyfarwyddwyr mewn perthynas â chofnodion cyfrifyddu a rheolaeth fewnol**

Y Cyfarwyddwyr sy'n gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu sy'n ddigonol i ddangos ac egluro trafodion Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru, datgelu sefyllfa ariannol y Cwmni yn rhesymol gywir ar unrhyw adeg, a'u galluogi i sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â Deddf Cwmnïau 2006.

Maent hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedau Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru ac felly am gymryd camau rhesymol i atal a chanfod twyll ac unrhyw afreoleidd-dra arall.

Mae'n bosibl fod deddfwriaeth yn y Deyrnas Unedig sy'n ymwneud â pharatoi a dosbarthu datganiadau ariannol yn wahanol i ddeddfwriaeth mewn awdurdodaethau eraill.

Mae pob un o'r Cyfarwyddwyr, y rhestrir eu henwau ar dudalen xx yr adroddiad blynyddol a'r datganiadau ariannol, yn cadarnhau, hyd eithaf eu gwybodaeth:

- mae'r datganiadau ariannol, sydd wedi cael eu paratoi yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol perthnasol, yn rhoi darlun cywir a theg o asedau, rhwymedigaethau, sefyllfa ariannol ac elw Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru;
- mae'r adroddiad blynyddol yn cynnwys adolygiad teg o ddatblygiad a pherfformiad y busnes ac o sefyllfa Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru, ynghyd â disgrifiad o'r prif risgiau a'r ansicrwydd y mae'n eu hwynebu; a
- gyda'i gilydd, mae'r adroddiad blynyddol a'r datganiadau ariannol, yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy ac yn darparu'r wybodaeth sydd ei hangen ar randdeiliaid Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru i asesu sefyllfa, perfformiad, model busnes a strategaeth y Cwmni.

**1.5 Busnes gweithredol a digwyddiadau ar ôl diwedd y flwyddyn adrodd**

Wrth fabwysiadu'r sail busnes hyfyw ar gyfer paratoi'r Datganiadau Ariannol, mae'r Cyfarwyddwyr wedi ystyried y gweithgareddau busnes yn ogystal â phrif risgiau ac ansicrwydd Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru, fel y nodir yn Fframwaith Sicrwydd Bwrdd a Chofrestr Risgiau Corfforaethol y Cwmni.

Cafodd y Cwmni ei lythyr Cylch Gwaith gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2023-25 ar 26 Gorffennaf 2023, a Llythyr Cyllid ar wahân dyddiedig 28 Gorffennaf 2023 a oedd yn cadarnhau'r gyllideb sydd ar gael ar gyfer 2023-24.

Mae hefyd yn rhoi awgrym o ddyraniad y gyllideb ar gyfer 2023-25. Mae hyn yn gadarnhad ffurfiol o gefnogaeth Llywodraeth Cymru i Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru hyd at ddiwedd mis Mawrth 2025. Mae'r Bwrdd yn fodlon dod i gasgliad y dylai'r Cwmni fabwysiadu'r sail busnes gweithredol wrth baratoi'r adroddiadau a'r cyfrifon blynyddol.

**1.6 Digwyddiadau ers diwedd y flwyddyn**

Rhoddir gwybodaeth bellach sy'n ymwneud â digwyddiadau ers diwedd y cyfnod yn yr adroddiad ac yn y nodiadau i'r datganiadau ariannol.

**1.7 Asedau anghyfredol**

Dangosir manylion asedau anghyfredol, sef gosodiadau a ffitiadau yn Nodyn 11 y datganiadau ariannol. Dangosir manylion asedau anniriaethol yn Nodyn 12.

**1.8 Rheoli Risg**

Ein nod cyffredinol yw sicrhau bod rheoli risg yn effeithiol yn rhan annatod o ddiwylliant Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru. Mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru wedi ymrwymo i ddull rhagweithiol o reoli risg. Mae'n cydnabod gwerth cynnal diwylliant effeithiol o reoli risg, gan geisio nodi, dadansoddi, rheoli a chadw rheolaeth ar y risgiau y mae'n eu hwynebu.

Mae rheolwyr Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn agored i nifer o risgiau. Bwrdd y Cyfarwyddwyr sy'n gyfrifol am reoli risgiau sy'n ymwneud â gweithrediadau'r Cwmni, gan gynnwys: gwerthuso a phenderfynu ar natur a maint y risgiau y mae'n fodlon eu cymryd wrth gyflawni amcanion strategol y Cwmni a chynnal mesurau rheolaeth fewnol a rheoli risg cadarn ac effeithiol.

Fel Swyddog Cyfrifyddu, mae'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol. Mae hyn yn seiliedig ar waith archwilwyr mewnol a benodwyd a rheolwyr Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheolaeth fewnol, ynghyd â sylwadau ac argymhellion a wnaed gan yr archwilwyr allanol yn eu llythyr rheoli a'r rhai a wnaed gan archwilwyr mewnol yn eu hadroddiadau.

Mae gan Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru strwythurau, polisïau a gweithdrefnau rheoli a gynlluniwyd i'w alluogi i gyflawni'r amcanion hyn, gan reoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r amgylchedd y mae'n gweithredu ynddo. Adolygir y rhain yn rheolaidd.

Mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn ceisio gwella system risg a sicrwydd y cwmni yn barhaus. Mae'r Polisi Rheoli Risg (a'r weithdrefn ategol) yn ymgorffori Fframwaith Sicrwydd Bwrdd (BAF) Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn llawn, sef model sy'n ei osod fel cyfrwng allweddol ar gyfer system risg a sicrwydd integredig y Cwmni (rheolaeth fewnol) ac adnodd ymarferol i lywio busnes ac agenda'r bwrdd a'r pwyllgor. Fe wnaeth y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg graffu ar un neu ddau o risgiau strategol ym mhob un o'i gyfarfodydd pwyllgor yn 2022/23. Fe wnaeth y Bwrdd dderbyn y Fframwaith Sicrwydd yn ffurfiol ar ddau achlysur.

Fe wnaeth y Bwrdd adolygu risgiau strategol Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn unol â'r broses cynllunio busnes strategol ym mis Hydref 2022. Yng nghyd-destun Cynllun Tymor y Llywodraeth, ychwanegwyd risg strategol ychwanegol. Ar 16 Chwefror 2023, cymeradwywyd Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd (a'r holl ddiwygiadau) gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg.

Ochr yn ochr â hynny, roedd y Bwrdd wedi ailystyried ei barodrwydd i dderbyn risg. Mae'r parodrwydd i dderbyn risg yn cael ei osod yn erbyn nifer o barthau risg a nodwyd. Bwriad y datganiad blynyddol yw rhoi canllaw i berchnogion risg i lywio sut maent yn rheoli eu risg, gan osod sgoriau risg targed ar gyfer pob math o risg. Ar 16 Chwefror 2023, cymeradwyodd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg y datganiad parodrwydd i dderbyn risg blynyddol diwygiedig ar gyfer 2023/24.

Mae gwaith yn mynd rhagddo i wreiddio'r parodrwydd i dderbyn risg ymhellach yn fwy effeithiol ar draws gweithrediadau busnes y Cwmni. Bydd hyfforddiant risg yn parhau i gael ei ddarparu o bryd i'w gilydd i sicrhau dull gweithredu cyson, ymgorffori cryfach wrth wneud penderfyniadau a rheoli prosiectau fel rhan o aeddfedrwydd diwylliant rheoli risg gweithredol.

### 1.9 Prif risgiau ac ansicrwydd

Nodir y prif risgiau strategol ar Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd, a mapiwyd y sicrwydd ynghylch effeithiolrwydd y rheolaethau yn unol â hynny. Nodir Risgiau Corfforaethol ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol sy'n cael ei monitro'n barhaus gan yr Uwch Dîm Arwain ac mae'r rhain yn cael eu derbyn ym mhob un o gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg, ac ym Mwrdd y Cyfarwyddwyr ddwywaith y flwyddyn.

**Nodir y prif risgiau strategol ar Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd. Sef:**

| | |
|---|---|
| **Adnoddau Annigonol (Ariannol)** | Y risg na fydd adnoddau ariannol yn ddigonol i gyflawni amcanion strategol Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru. Bydd hyn yn cael ei achosi gan lai o gyllid oherwydd cyfyngiadau ar y sector cyhoeddus o ganlyniad i'r dirywiad economaidd. Effaith hyn fydd methu â chyflawni cynlluniau busnes y cytunwyd arnynt a bodloni Dangosyddion Perfformiad Allweddol. |
| **Adnoddau Annigonol (Anariannol)** | Y risg na fydd adnoddau anariannol yn ddigonol i gyflawni amcanion strategol Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru. Bydd hyn yn cael ei achosi gan y methiant i recriwtio a chadw pobl sydd â'r sgiliau angenrheidiol i lenwi swyddi gwag, a mynediad at adnoddau a chyfleusterau ffisegol priodol. Yr effaith fydd methu â chyflawni cynlluniau busnes y cytunwyd arnynt a bodloni Dangosyddion Perfformiad Allweddol. |
| **Bodloni Disgwyliadau** | Y perygl na fydd canlyniadau gweithgareddau busnes y Cwmni (e.e. rhaglenni a phrosiectau) yn bodloni disgwyliadau rhanddeiliaid. Bydd hyn yn cael ei achosi gan gam-alinio â nodau ac amcanion rhanddeiliaid ar draws y system iechyd a gofal, o fewn cyfyngiadau'r adnoddau sydd ar gael. Effaith hyn fydd methu a rhoi newid systemig ar waith. |
| **Gwireddu Manteision** | Y perygl nad oes modd gwireddu manteision yr atebion a fabwysiadwyd o fewn cyfnod priodol. Bydd hyn yn cael ei achosi gan ddiffyg tystiolaeth o ganlyniadau hydredol y prosiectau, y rhaglenni a'r atebion a gefnogir (ac a arweinir) gan y Cwmni. Effaith hyn fydd galluogi Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru i ddangos ei werth i randdeiliaid, Gwerth am Arian (VfM) i Lywodraeth Cymru a dangos effaith newid i'r sector iechyd a gofal. |

| | |
|---|---|
| **Adnoddau Annigonol (Ariannol)** | Y risg na fydd adnoddau ariannol yn ddigonol i gyflawni amcanion strategol Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru. Bydd hyn yn cael ei achosi gan lai o gyllid oherwydd cyfyngiadau ar y sector cyhoeddus o ganlyniad i'r dirywiad economaidd. Effaith hyn fydd methu â chyflawni cynlluniau busnes y cytunwyd arnynt a bodloni Dangosyddion Perfformiad Allweddol. |
| **Methiant Llywodraethu a Chydymffurfio** | Y risg na fydd systemau a phrosesau llywodraethu yn galluogi gweithrediadau busnes effeithiol ac effeithlon. Caiff hyn ei achosi gan hen bolisïau a gweithdrefnau, bylchau yn y system rheolaeth fewnol a phrosesau busnes, a methiant gweithwyr i gydymffurfio. Effaith hyn fyddai methiant i alluogi amcanion strategol i gael eu darparu, stiwardiaeth ariannol wael neu fethiant i gydymffurfio â gofynion statudol, rheoleiddiol a deddfwriaethol. |
| **Aeddfedrwydd Systemau** | Y risg na all y Cwmni hwyluso newid effeithiol ar draws iechyd a gofal cymdeithasol, fel y nodir yn ei gynlluniau busnes strategol. Caiff hyn ei achosi gan aeddfedrwydd y system a diffyg cydlyniant a chydlyniad ym maes y gwyddorau bywyd / arloesi yng Nghymru. Effaith hyn fydd methu â chyflawni nodau strategol y sefydliad a diffyg gwybodaeth am y sector i lywio'r broses o fabwysiadu arloesedd. |
| **Diffyg adnoddau allanol / methiant partneriaeth** | Y risg na all partneriaid a rhanddeiliaid y Cwmni ar draws y system iechyd a gofal fabwysiadu arloesedd. Bydd hyn yn cael ei achosi gan bartneriaid a rhanddeiliaid heb adnoddau neu gapasiti allanol digonol. Effaith hyn fydd methiant partneriaethau a mentrau a chyflawni amcanion strategol Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru. |

| | |
|---|---|
| **Methiant i ddatblygu rôl ddylanwadol** | Y risg na fydd y Cwmni'n datblygu lefel ddigonol o ddylanwad systemig i siapio a chefnogi'r agenda arloesi ar draws iechyd a gofal yng Nghymru. Caiff hyn ei achosi gan ddiffyg hanes llwyddiannus o gyflawni prosiectau arloesi sy'n cael effaith sylweddol ac ymgysylltu a chyfathrebu cyfyngedig. Effaith hyn fydd methiant i gyflawni amcanion strategol y sefydliad. |

Mae'r Cwmni'n parhau i gynnal cofrestr risg gorfforaethol a gweithredol yn unol â phensaernïaeth risg Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru. Archwilir a diweddarir y cofrestrau hyn yn rheolaidd, gan gynnwys yn ffurfiol gan yr Uwch Reolwyr ac Uwch Dimau Arwain (o leiaf) unwaith y mis, gyda Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd ac adroddiadau bwrdd/pwyllgor yn darparu sicrwydd.

### 1.10 Amcanion a Pholisïau Rheoli Risg Ariannol

Y prif risgiau ariannol i Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yw rheoli llif arian a chyllidebu. Ar gyfer y ddau fater, mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau ei fod yn cynnal cydbwysedd ariannol iach ac yn cadw rheolaeth gadarn ar y gyllideb yn unol â gofynion y Ddogfen Fframwaith gyda Llywodraeth Cymru.

O ran rheoli llif arian, nid oes risg sylweddol o ran credyd ac mae'r Cwmni'n cynnal cydbwysedd ariannol iach. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, gyda sicrwydd yn ei le gan Lywodraeth Cymru, roedd gan Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru falans ariannol cadarnhaol o £788k ac felly nid yw risgiau o ran credyd, hylifedd a llif arian yn cael eu hystyried yn risg sylweddol i'r Cwmni.

### 1.11 Perfformiad Ariannol am y Flwyddyn

Mae'r canlyniadau ar gyfer y flwyddyn i'w gweld o dudalen XX ymlaen.

Ar hyn o bryd, mae datganiadau ariannol Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn dangos bod gan y Cwmni gronfeydd wrth gefn gwerth £12k.

Llywodraeth Cymru sy'n monitro perfformiad yn erbyn y cylch gwaith ac mae'r Cwmni'n darparu adroddiadau rheolaidd i Lywodraeth Cymru i helpu gyda'r broses fonitro hon. Mae'n ofynnol i Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru reoli ei berfformiad ariannol o fewn y gyllideb y cytunwyd arni gyda Llywodraeth Cymru. Mae rhagor o fanylion am hyn yn y Llythyr Cylch Gwaith a'r Ddogfen Fframwaith y cytunir arnynt yn flynyddol.

Mae'r tabl isod yn dangos y sefyllfa ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23:

| | **£000oedd** |
|---|---|
| **Cyfanswm y gyllideb gros y cytunwyd arni** | 3,670.0 |
| **Caniateir cario 2% drosodd** | 73.4 |
| | |
| **Arian parod a gwerthoedd cyfwerth ag arian parod ar 31 Mawrth 2023** | 788 |
| **Asedau cyfredol: masnach a symiau derbyniadwy eraill ar 31 Mawrth 2023** | 2,939 |
| **Rhwymedigaethau cyfredol: symiau masnach a symiau taladwy eraill ar 31 Mawrth 2023** | (3,304) |
| **Cyflymu arian parod** | (358.8) |
| **Balans arian parod Grant Cymorth heb ei Wario ar 31 Mawrth 2023** | **63.8** |

### 1.12 Swm ychwanegol i'w dalu'n ôl i Lywodraeth Cymru

Cyfrifir fod yr arian parod y caniateir ei gario drosodd ar gyfer 2022/23 (£73.4k) yn 2% o'r gyllideb a roddwyd.

Ar ôl cyfrifo'r arian parod o Gymorth Grant yng Nghymru a ddaliwyd ar ddiwedd 2022/23, gan ystyried balansau arian parod, asedau a rhwymedigaethau, roedd gan Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru 63.8k o arian parod cadarnhaol ac felly mae'n cydymffurfio â therfyn Llywodraeth Cymru ar gyfer cario arian parod drosodd, sef £73.4k.

Drwy gydol y flwyddyn, mae'r rheolwyr a Llywodraeth Cymru wedi parhau i fonitro'r lefel ofynnol o gyllid ac mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud addasiadau yn ystod y flwyddyn i lefel y cyllid lle bo angen. Yn unol â hynny, defnyddiodd Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru gronfeydd wrth gefn wrth ddarparu gwasanaethau i reoleiddio'r cronfeydd wrth gefn a'r balansau arian parod a ddaliwyd erbyn diwedd 31 Mawrth 2023, gan arwain at ostyngiad o £102k yn y sefyllfa arian parod net ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo'r Cynllun Busnes ar gyfer 2023/24 a'r Llythyr Cylch Gwaith sy'n amlinellu'r cynlluniau gweithredol ac ariannol ar gyfer y flwyddyn. Sicrhawyd incwm digonol i dalu am wariant y gyllideb ar gyfer y flwyddyn.

### 1.13 Perfformiad y Cwmni

Roedd 2022/23 yn gyfnod llwyddiannus arall i Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru, sydd wedi parhau i atgyfnerthu ei safle fel y prif hwylusydd ar gyfer datblygu a mabwysiadu arloesedd ym maes iechyd a gofal cymdeithasol ledled Cymru. Roedd hyn o fewn cyd-destun heriol, sef adferiad y sector ar ôl pandemig y coronafeirws.

Mae'r Cwmni wedi olrhain ei gynnydd yn erbyn y dangosyddion perfformiad allweddol y cytunwyd arnynt ac wedi rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru am hyn bob chwarter blwyddyn.

Mae rhagor o fanylion am berfformiad Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru ar gael yn yr Adroddiad Strategol (tudalennau XX-XX).

### 1.14 Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru wedi ymrwymo i hyrwyddo cyfle cyfartal i bob gweithiwr a phob ymgeisydd am swydd. Mae wedi ymrwymo i greu amgylchedd gwaith lle gall pob unigolyn wneud y defnydd gorau o'i sgiliau, heb wahaniaethu nac aflonyddu, a lle mae pob penderfyniad yn seiliedig ar deilyngdod.

Nid yw'r Hwb yn gwahaniaethu yn erbyn gweithwyr ar sail y canlynol: oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, statws priodasol neu bartneriaeth sifil, beichiogrwydd neu famolaeth, hil, lliw, cenedligrwydd, tarddiad ethnig neu genedlaethol, crefydd neu gred, rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol. Mae gan Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru Bolisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth cynhwysfawr ac mae holl aelodau ein tîm yn cael hyfforddiant Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant unwaith y flwyddyn.

Er mwyn datblygu amgylchedd deinamig a chreadigol a fydd o fudd i'r holl randdeiliaid ac i bobl Cymru, yn y pen draw, mae'n hanfodol sicrhau ein bod yn denu ac yn cadw'r ystod ehangaf a mwyaf amrywiol o dalent ymysg gweithwyr y Cwmni. Mae rheolwyr llinell sy'n recriwtio yn cael hyfforddiant Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ychwanegol, a hybysebir pob cyfle am swydd drwy nifer o sianeli i sicrhau eu bod yn cyrraedd cymaint o bobl â phosibl.

Mae egwyddorion peidio â gwahaniaethu a chyfle cyfartal hefyd yn berthnasol i'r ffordd y mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru'n trin ymwelwyr, ymgeiswyr am swyddi, cleientiaid, cwsmeriaid, cyflenwyr a chyn-weithwyr. Mae hyn yn berthnasol yn y gweithle, y tu allan i'r gweithle (wrth ddelio â chwsmeriaid, cyflenwyr neu gysylltiadau eraill sy'n gysylltiedig â gwaith, ac ar deithiau neu ddigwyddiadau sy'n gysylltiedig â gwaith, gan gynnwys digwyddiadau cymdeithasol).

Mae dyletswydd ar bob gweithiwr i weithredu yn unol â'n Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth a thrin cydweithwyr ag urddas bob amser, a pheidio â gwahaniaethu yn erbyn gweithwyr eraill na'u haflonyddu, ni waeth beth yw eu statws.

Yn 2023/24, bydd Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn ceisio datblygu ei sefyllfa o ran cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ymhellach, a fydd yn cynnwys cefnogi Llywodraeth Cymru i weithredu ei Chynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol y cytunwyd arno. Mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru wedi datblygu ei gynllun ei hun, sy'n cyd-fynd â chynllun Llywodraeth Cymru.


### 1.15 Polisi Talu i Gyflenwyr

Mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru wedi ymrwymo i fynd ati'n brydlon i setlo anfonebau a hawliadau eraill am daliadau. Pan fydd nwyddau a gwasanaethau wedi cael eu cyflenwi'n foddhaol, amcan Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yw talu o fewn 30 diwrnod i dderbyn yr anfoneb.

### 1.16 Crynodeb Amgylcheddol

Yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru wedi ymrwymo i ddatblygu cynaliadwy a'r saith nod llesiant cydgysylltiedig.

**Y Saith Nod Llesiant**




Mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn cydnabod cyfrifoldeb am ddiogelu'r amgylchedd ar bob lefel, ac yn ymrwymo i wneud hynny. Mae'n fraint i ni gael gweithio mewn swyddfa sy'n defnyddio ynni'n effeithlon yng Nghaerdydd. Mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn ceisio sicrhau ein bod yn dilyn yr arferion gorau yn holl weithrediadau'r busnes yn ei holl leoliadau.

Yn 2022, adroddodd Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru ei allyriadau carbon ar gyfer 2021/22 i Lywodraeth Cymru. Cyfrifwyd yr allyriadau carbon ar sail y canllawiau a ddarparwyd yng Nghanllaw Adrodd Sero Net Sector Cyhoeddus Cymru. Mae'r gwaith o olrhain holl allyriadau Carbon y Sector Cyhoeddus yng Nghymru yn cefnogi gwaith tuag at y targed sero net ar y cyd erbyn 2030.

Roedd yr adroddiad hwn yn ymdrin â phrif ffynonellau allyriadau pob sefydliad: adeiladau (gan gynnwys gweithio gartref), fflyd, teithiau busnes, cymudo, ffrydiau gwastraff, nwyon sy'n cael eu hallyrru a nwyon sy'n cael eu dal yn sgil defnydd tir ac allyriadau sy'n gysylltiedig â'r gadwyn gyflenwi. Roedd hefyd yn cynnwys adrodd am yr ynni adnewyddadwy a ddefnyddiwyd ac a gynhyrchwyd.

Roedd adroddiad allyriadau unigol y Cwmni yn dangos bod Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru wedi cael ei restru tuag at ben isaf y grŵp cymheiriaid a ddewiswyd ar gyfer cymhariaeth ym mhob maes yr adroddwyd amdano. Dylid cydnabod bod angen gwella'r gwaith o gasglu data ac ansawdd y gwaith hwnnw er mwyn gwella'r gwaith o fonitro allyriadau sy'n gysylltiedig â gweithgarwch Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru.

Nodwyd bod hyn yn fater cyffredin ar draws holl Gyrff Cyhoeddus Cymru. Bydd Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn edrych ar ffyrdd o gryfhau ei adroddiadau carbon yn 2023/24 fel rhan o'r gwaith parhaus o ddatblygu polisi cynaliadwyedd y sefydliad.

## 2 Datganiad Llywodraethu Corfforaethol Blynyddol

Llywodraethu Corfforaethol yw'r system a ddefnyddir i gyfarwyddo a rheoli sefydliadau.

Mae'r Datganiad Llywodraethu isod yn dod â'r holl ddatgeliadau am faterion sy'n ymwneud â risg a rheolaeth llywodraethu Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru at ei gilydd mewn un lle. Fel Swyddog Cyfrifyddu, mae gen i gyfrifoldeb personol am y Datganiad Llywodraethu Corfforaethol sy'n amlinellu sut rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldeb o ran rheoli adnoddau'r Cwmni drwy gydol y flwyddyn.

### 2.1 Bwrdd y Cyfarwyddwyr

Mae Bwrdd y Cyfarwyddwyr yn gyfrifol am lywodraethu Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru a chydymffurfio â Chod Llywodraethu Corfforaethol y DU. Rôl y Bwrdd yw bodloni ei hun bod strwythur llywodraethu priodol ar waith a sicrhau bod y Cwmni, drwy'r Prif Swyddog Gweithredol, yn gweithredu o fewn y fframwaith polisi a bennir gan Lywodraeth Cymru. Mae hefyd yn gyfrifol am y cyfeiriad strategol, diwylliant y sefydliad a chyflawni nodau ac amcanion y Cwmni yn llwyddiannus.

Mae'r Bwrdd wedi sefydlu dau Bwyllgor sefydlog i'r Bwrdd, dan gadeiryddiaeth Cyfarwyddwyr Anweithredol, sydd â rolau allweddol mewn perthynas â'r system llywodraethu a sicrwydd, gwneud penderfyniadau, craffu, trafodaethau datblygu, asesu risgiau cyfredol a monitro perfformiad.

Mae Ffigur 1 yn nodi'r berthynas rhwng y Bwrdd a'i bwyllgorau, ynghyd â'r Uwch Dîm Arwain (Gweithredol).

Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023, roedd y Bwrdd yn cynnwys naw Cyfarwyddwr (un swydd wag) a benodwyd gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae'r Cadeirydd yn cael tâl cydnabyddiaeth, ac felly hefyd pob Cyfarwyddwr Anweithredol. Cyfarfu'r Bwrdd chwe gwaith yn ystod y flwyddyn ariannol.

**Ffigur 1: Trosolwg o'r Fframwaith Llywodraethu**

**Bwrdd Cyfarwyddwyr**

Bydd y Bwrdd yn sicrhau eu bod yn derbyn y sicrwydd sydd ei angen gan y Pwyllgorau fel y manylir isod, sy'n rhoi tystiolaeth o berfformiad a chydymffurfiad sefydliadol

**Tîm Gweithredol**

**Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg**

**Pwyllgor Adnoddau Dynol a Thâl Cydnabyddiaeth**

**Meysydd Craffu a Sicrwydd**

- Llywodraethu Corfforaethol
- Gonestrwydd
- Cydymffurfiad Rheoleiddiol
- Rheoli Risg
- Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd
- Rheolaeth Gyllidebol ac Ariannol
- Cyfrifon Blynyddol ac adroddiadau
- Datganiad Llywodraethu Blynyddol
- Archwilio Mewnol
- Cysylltiadau i Archwilio Cymru
- Gwrth-dwyll

**Meysydd Craffu a Sicrwydd**

- Tâl, buddion a thelerau ac amodau gwasanaeth i weithwyr
- Adolygiad Blynyddol o Gostau Byw
- Cymeradwyo bandiau cyflog a chyflogau
- Cymeradwyo terfynu taliadau / cytundebau setliad
- Cymeradwyo polisïau gweithwyr
- Cynigion yn ymwneud a strwythur (gweithwyr) y cwmni

Dyma rai o'r meysydd y canolbwyntiodd y Bwrdd arnynt yn ystod y flwyddyn:

- perfformiad y Cwmni yn erbyn Cynllun Busnes 2022/23, gan gynnwys datblygu Dangosyddion Perfformiad Allweddol a phroses monitro perfformiad;
- gweithgarwch busnes a gyflawnwyd yn yr Ardaloedd Effaith a dwy raglen (Cyflymu ac Ecosystem Iechyd Digidol Cymru);
- ystyried cynigion i ddatblygu Rhaglen Cyflymu newydd (ar ôl i'r rhaglen bresennol ddod i ben ym mis Rhagfyr 2022);
- datblygu Cynllun Tymor y Llywodraeth ar gyfer y Cwmni;
- ystyried a chymeradwyo Cynllun Busnes blynyddol Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru ar gyfer 2023/24;
- yr opsiynau sydd ar gael mewn perthynas â safleoedd busnes Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru.

Daliodd y Bwrdd ati i oruchwylio cyllid y Cwmni a derbyniodd y Cyfrifon Rheoli (Adroddiad Cyllid) ym mhob cyfarfod.

### 2.1.1 Swydd wag Cyfarwyddwr Anweithredol

Roedd sedd wag ar y Bwrdd ar gyfer cyfarwyddwr anweithredol drwy gydol 2022/23 yn dilyn ymddiswyddiad yr Athro Syr Mansel Aylward CB ar 31 Mawrth 2022.

Bydd unigolyn yn cael ei recriwtio i'r sedd wag hon yn 2023/24 fel rhan o broses recriwtio ehangach ar gyfer penodiadau cyhoeddus, gan y bydd ail dymhorau tri aelod o'r Bwrdd yn dod i ben ym mis Hydref 2023.

### 2.1.3 Datblygiad ac effeithiolrwydd y Bwrdd

Yn unol â'r egwyddor llywodraethu da o welliant parhaus, mae'r Bwrdd wedi ymrwymo i bwyso a mesur ei effeithiolrwydd. Cynhaliodd y Bwrdd bedair sesiwn datblygu bwrdd yn 2022/23 i drafod materion strategol yn unol â Chynllun Datblygu'r Bwrdd a gymeradwywyd gan y Bwrdd yn ei gyfarfod ar 30 Mawrth 2022. Roedd y cynllun hwn yn sicrhau bod y Bwrdd yn cyfrannu at gynllunio a datblygu strategol y Cwmni, gan ystyried rheoli risg a'r parodrwydd i dderbyn risg, ac yn ymgysylltu â rhanddeiliaid / y farchnad. Roedd yr aelodau hefyd wedi cael sesiynau hyfforddi ac ymwybyddiaeth a oedd yn cyd-fynd â rôl a chyfrifoldebau'r Bwrdd, gan gynnwys ystyried trefniadau rheoli perfformiad (datblygu Dangosyddion Perfformiad Allweddol a methodoleg gwireddu buddion), rhoi'r strategaeth gyfathrebu ar waith, y gwasanaeth a gynigir, ac adolygu brand Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru. Addaswyd y cynllun hwn drwy gydol y flwyddyn i sicrhau bod y Bwrdd yn ystyried materion cyfredol mewn da bryd.

Dyma rai o'r meysydd y canolbwyntiodd y Bwrdd arnynt yn ystod y flwyddyn:

- perfformiad y Cwmni yn erbyn Cynllun Busnes 2022/23, gan gynnwys datblygu Dangosyddion Perfformiad Allweddol a phroses monitro perfformiad;
- gweithgarwch busnes a gyflawnwyd yn yr Ardaloedd Effaith a dwy raglen (Cyflymu ac Ecosystem Iechyd Digidol Cymru);
- ystyried cynigion i ddatblygu Rhaglen Cyflymu newydd (ar ôl i'r rhaglen bresennol ddod i ben ym mis Rhagfyr 2022);
- datblygu Cynllun Tymor y Llywodraeth ar gyfer y Cwmni;
- ystyried a chymeradwyo Cynllun Busnes blynyddol Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru ar gyfer 2023/24;
- yr opsiynau sydd ar gael mewn perthynas â safleoedd busnes Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru.

Daliodd y Bwrdd ati i oruchwylio cyllid y Cwmni a derbyniodd y Cyfrifon Rheoli (Adroddiad Cyllid) ym mhob cyfarfod.

#### 2.1.1 Swydd wag Cyfarwyddwr Anweithredol

Roedd sedd wag ar y Bwrdd ar gyfer cyfarwyddwr anweithredol drwy gydol 2022/23 yn dilyn ymddiswyddiad yr Athro Syr Mansel Aylward CB ar 31 Mawrth 2022.

Bydd unigolyn yn cael ei recriwtio i'r sedd wag hon yn 2023/24 fel rhan o broses recriwtio ehangach ar gyfer penodiadau cyhoeddus, gan y bydd ail dymhorau tri aelod o'r Bwrdd yn dod i ben ym mis Hydref 2023.

#### 2.1.3 Datblygiad ac effeithiolrwydd y Bwrdd

Yn unol â'r egwyddor llywodraethu da o welliant parhaus, mae'r Bwrdd wedi ymrwymo i bwyso a mesur ei effeithiolrwydd. Cynhaliodd y Bwrdd bedair sesiwn datblygu bwrdd yn 2022/23 i drafod materion strategol yn unol â Chynllun Datblygu'r Bwrdd a gymeradwywyd gan y Bwrdd yn ei gyfarfod ar 30 Mawrth 2022. Roedd y cynllun hwn yn sicrhau bod y Bwrdd yn cyfrannu at gynllunio a datblygu strategol y Cwmni, gan ystyried rheoli risg a'r parodrwydd i dderbyn risg, ac yn ymgysylltu â rhanddeiliaid / y farchnad. Roedd yr aelodau hefyd wedi cael sesiynau hyfforddi ac ymwybyddiaeth a oedd yn cyd-fynd â rôl a chyfrifoldebau'r Bwrdd, gan gynnwys ystyried trefniadau rheoli perfformiad (datblygu Dangosyddion Perfformiad Allweddol a methodoleg gwireddu buddion), rhoi'r strategaeth gyfathrebu ar waith, y gwasanaeth a gynigir, ac adolygu brand Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru. Addaswyd y cynllun hwn drwy gydol y flwyddyn i sicrhau bod y Bwrdd yn ystyried materion cyfredol mewn da bryd.

### 2.1.4 Effeithiolrwydd y Bwrdd a'r Pwyllgor

Cynhaliodd y Bwrdd (a phob pwyllgor) hunanasesiad cynhwysfawr o'i effeithiolrwydd. Roedd hyn yn cynnwys ystyried ei brosesau gweinyddol, y wybodaeth a gafodd, anghenion sgiliau a datblygu ei aelodau a'i gydymffurfiad â'i ddogfen Fframwaith a'i Gylch Gorchwyl. Cynhaliwyd yr ymarfer hwn tua diwedd y flwyddyn ariannol, a thrafodwyd canlyniadau'r ymarfer a galluogwyd i gamau gwella gael eu nodi. Roedd hunanasesiadau'r pwyllgor hefyd yn sail i'r adolygiad o'u cylch gorchwyl a'u cynlluniau gwaith.

### 2.1.5 Buddiannau'r Bwrdd

Cynhaliwyd cofrestr o fuddiannau Cyfarwyddwyr ac Uwch Dîm Arwain yn 2022/23 i sicrhau bod unrhyw wrthdaro posibl rhwng buddiannau yn cael ei nodi. Gofynnir i aelodau'r Bwrdd a'r Pwyllgor ddatgelu gwrthdaro fel eitem safonol ar yr agenda ar gyfer pob cyfarfod ffurfiol. Cyhoeddwyd y Gofrestr hon ar wefan Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru, fel rhan o'i Gynllun Cyhoeddi.

Cafodd yr holl fuddiannau eu cofrestru a'u rheoli yn unol â pholisi a gweithdrefn y Cwmni ar gyfer rheoli gwrthdaro a datgan buddiannau, rhoddion, lletygarwch a nawdd.

### 2.1.6 Dogfen Fframwaith

Mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru wedi bod yn gweithredu o dan ddogfen Fframwaith interim ers i'r Cwmni gael ei ail-bwrpasu yn 2018. Roedd y ddogfen i fod i gael ei hadolygu yn 2020, ond cafodd hyn ei ohirio oherwydd pandemig Covid-19.

Yn llythyr cylch gwaith 2022/23, gwnaed ymrwymiad i adolygu a chwblhau'r Fframwaith. Yn 2022, cyflwynodd yr Uned Cyrff Cyhoeddus fodel newydd ar gyfer pob Corff Cyhoeddus yng Nghymru. Cwblhawyd Fframwaith Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn derfynol gyda Thîm Partneriaeth Llywodraeth Cymru, yn y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ym mis Mawrth 2023. Cyflwynwyd y fersiwn derfynol i'r Bwrdd (a chafodd ei chymeradwyo ganddo) ar 30 Mawrth 2023.

### 2.1.7 Swyddfa Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru

Ers 2014, mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru wedi meddiannu ei safle busnes 12,000 troedfedd sgwâr ar ail lawr 3 Sgwâr y Cynulliad, Bae Caerdydd. Rhagwelwyd y byddai'r cyfleuster yn adnodd canolog ar gyfer y sector Gwyddorau Bywyd yng Nghymru; hwb ffisegol a fyddai'n tynnu ynghyd y byd academaidd, diwydiant, iechyd a gofal cymdeithasol a sefydliadau cyllido i helpu i gefnogi cydweithio ac arloesi yng Nghymru.

Mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn is-lesio'r Adeilad gan Lywodraeth Cymru, sydd yn ei dro â chytundeb prydles tymor hir gyda landlord yr adeilad. Daw cyfnod y brydles bresennol i ben ar 31 Gorffennaf 2023.

Ochr yn ochr â llawer o gyrff cyhoeddus eraill, roedd Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn cydnabod nad oes bellach angen ôl troed ffisegol presennol ei adeiladau busnes i gefnogi gweithrediadau busnes, ei fodel gweithio na gweithgarwch cyflawni strategol y sefydliad. Cafodd hyn ei sbarduno gan bandemig Covid-19 a'r newid i arferion gweithio hyblyg o bell.

Wrth i Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru nesáu at ddiwedd yr is-les bresennol, mae'r cynllun busnes blynyddol ar gyfer 2022/23 yn nodi ymrwymiad i ystyried gofynion cyfleusterau yn y dyfodol ac i ddangos gostyngiad mewn costau cyfleusterau yn ystod Tymor y Llywodraeth. Mae'r gostyngiad hwn mewn costau hefyd yn angenrheidiol er mwyn cynllunio'n ariannol ar gyfer cynnydd mewn costau mewn rhannau eraill o'r busnes yn ystod Tymor y Llywodraeth.

Cafodd y Bwrdd ddau arfarniad opsiynau ym mis Gorffennaf a mis Medi 2022. Roedd yr opsiynau a ystyriwyd yn cynnwys chwilio am lety arall, cydleoli gyda chyrff cyhoeddus eraill a lleihau nifer yr adeiladau presennol. Cymeradwywyd yr opsiwn i leihau nifer yr adeiladau presennol fel yr opsiwn mwyaf hyfyw.

Mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn cymryd y camau ymarferol sydd eu hangen i gynllunio ac ariannu'r gwaith cyfalaf, a fydd yn cael ei wneud yn ystod blwyddyn ariannol 2023/24.

### 2.2 Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg

Roedd y Pwyllgor yn cynnwys pedwar Cyfarwyddwr a gyfarfu bum gwaith yn y flwyddyn ariannol. Mae'r Archwilydd Mewnol (TIAA a benodwyd ym mis Mehefin 2019) a'r Archwilwyr Allanol (Archwilio Cymru) yn mynychu holl gyfarfodydd y Pwyllgor.

Mae'r Pwyllgor yn cyflawni ei gyfrifoldebau dros faterion sy'n ymwneud â rheoli risg, rheolaeth fewnol, archwilio mewnol, archwiliadau statudol ar ddatganiadau ariannol cyfunol a llywodraethu'r Hwb yn ehangach drwy ei gylch gorchwyl. Fe wnaeth y Pwyllgor adolygu a chymeradwyo'r rhain ym mis Chwefror 2023, ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24. Cadarnhaodd y Bwrdd y gymeradwyaeth hon ar 29 Mawrth 2023.

Dyma rai o'r meysydd y canolbwyntiodd y Bwrdd arnynt yn ystod y flwyddyn:

- adolygu trefniadau rheoli risg a risgiau allweddol. Roedd hyn yn cynnwys ystyried y risgiau strategol ar Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd a'r datganiad diwygiedig o'r parodrwydd i dderbyn risg (cymeradwywyd gan y Bwrdd).
- adolygu polisïau a gweithdrefnau llywodraethu a'u rhoi ar waith.
- derbyn adroddiadau'r Archwilwyr Mewnol ac Allanol.
- cael sicrwydd ynghylch trefniadau atal twyll.
- cael sicrwydd ynghylch trefniadau rheoli asedau.
- cael sicrwydd ynghylch llywodraethu gwybodaeth, caffael ac iechyd a diogelwch.

Cynhaliodd y Pwyllgor sesiwn ddatblygu ychwanegol hefyd ar 29 Mehefin 2022 a oedd yn canolbwyntio ar bob agwedd ar lywodraethu gwybodaeth o fewn Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru. Roedd hyn yn cynnwys diogelu data, rhyddid gwybodaeth, seiberddiogelwch a seibergadernid. Roedd yr Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth (SIRO), yr Athro Hamish Laing, yn bresennol yn y sesiwn hon yn ogystal â chynrychiolwyr Gwasanaethau Cymorth TG a Gwasanaethau Swyddogion Diogelu Data yr Hwb.

I gael rhagor o fanylion am system risg a sicrwydd Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru a'i broffil risg, edrychwch ar Adroddiad y Cyfarwyddwr, tudalennau XX-XX.

**2.3 Y Pwyllgor Adnoddau Dynol a Thaliadau Cydnabyddiaeth**

Roedd y Pwyllgor yn cynnwys pedwar Cyfarwyddwr a gyfarfu deirgwaith yn y flwyddyn ariannol. Mae'r Pwyllgor yn sicrhau ffocws ar ymrwymiad Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru i lesiant a phwysigrwydd recriwtio, cadw a datblygu gweithwyr. Dyma rai o'r meysydd y canolbwyntiodd y Pwyllgor arnynt yn ystod y flwyddyn:

- sicrhau bod polisïau cyflogaeth priodol yn cael eu mabwysiadu a'u dilyn.
- ystyried ac adolygu polisïau a buddion allweddol i weithwyr.
- sicrhau dyfarniadau cyflog a buddion priodol.
- adolygu strwythur y sefydliad i sicrhau bod adnoddau'n cael eu dyrannu er mwyn gallu cyflawni'n strategol.
- datblygu a monitro metrigau perfformiad sy'n gysylltiedig â phobl.
- gweithredu (ac adolygiad meincnodi) y strategaeth taliadau (cyflog a buddion) ddiwygiedig.

Yn ei gyfarfod ar 25 Ionawr 2023, adolygodd a chymeradwyodd y Pwyllgor ei Gylch Gorchwyl ar gyfer blwyddyn adrodd 2023/24 (cymeradwywyd gan y Bwrdd ar 29 Mawrth 2023).

## 2.4 Presenoldeb yn y Bwrdd a'r Pwyllgor

Mae'r tabl isod yn dangos presenoldeb y Cyfarwyddwyr yng nghyfarfodydd y Bwrdd a'i Bwyllgorau. Roedd y Prif Swyddog Gweithredol yn bresennol ym mhob uno gyfarfodydd y Bwrdd a'i is-bwyllgorau.

### Bwrdd y Cyfarwyddwyr

| | 25 Mal '22 | 27 Gorff '22 | 28 Medi '22 | 30 Tach '22 | 25 Ion '23 | 29 Maw '23 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Dr Chris Martin (Cadeirydd) | O | O | O | O | O | O |
| Mr Jarred Evans | O | O | O | O | O | O |
| Ms Catherine O'Brien | N | O | N | O | O | O |
| Mr Rupert Jones | O | O | O | O | O | O |
| Mr Peter Max | O | O | O | O | O | O |
| Prof Hamish Laing | O | O | O | O | O | O |
| Ms Victoria Bates | O | O | O | O | O | O |
| Ms Erica Cassin | O | O | O | O | O | O |
| Mr Len Richards | N | O | O | N | N | N |

### Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg

| | 27 Ebr '22 | 29 Meh '22 | 27 Gorff '22 | 14 Medi '22 | 16 Tach '23 | 16 Chwef '23 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Mr Peter Max (Cadeirydd) | O | O | O | O | O | O |
| Ms Catherine O'Brien | O | O | O | O | O | O |
| Mr Rupert Jones | O | O | O | N | N | O |
| Ms Victoria Bates | O | O | O | O | O | O |

### Y Pwyllgor Adnoddau Dynol a Thaliadau Cydnabyddiaeth

| | 27 Ebr '22 | 29 Meh '22 | 27 Gorff '22 | 14 Medi '22 | 16 Tach '23 | 16 Chwef '23 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ms Erica Cassin (Cadeirydd) | O | O | O | O | O | O |
| Dr Chris Martin | O | O | O | O | O | O |
| Mr Rupert Jones | O | N | O | O | O | O |
| Ms Catherine O'Brien | O | O | O | O | O | O |

## 2.5 Yr Uwch Dîm Arwain

Y Prif Weithredwr, Ms Cari-Anne Cuinn, a benodwyd ym mis Hydref 2018, oedd yn arwain yr Uwch Dîm Arwain.

Mae'r Prif Weithredwr a'r Bwrdd yn cwrdd yn rheolaidd i drafod a chytuno ar faterion corfforaethol a gweithredol gan fod y Bwrdd wedi dirprwyo'r cyfrifoldeb llawn dros weithrediad Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru i'r Prif Weithredwr. Mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn adrodd ar ei berfformiad i Lywodraeth Cymru yn unol â'r cylch gwaith a'r fframwaith rheoli.

Yn ystod y flwyddyn, roedd yr Uwch Dîm Arwain yn cynnwys y Prif Weithredwr, Rhodri Griffiths, Cyfarwyddwr Mabwysiadu Arloesedd, a Gemma Bafico, Cyfarwyddwr Gweithrediadau (tan 15 Ebrill 2022).

Dechreuodd Miriam Lambert, Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau, yn ei swydd o 1 Tachwedd 2022 ymlaen. Cafodd y swydd hon, lle'r oedd angen cymhwyster cyfrifyddu ariannol, ei chreu i gryfhau rheolaeth ariannol strategol a gweithredol Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru. Yn yr un modd â'r Cyfarwyddwr Gweithrediadau blaenorol, y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau sy'n cadw'r cyfrifoldeb cyffredinol dros swyddogaethau Llywodraethu, Caffael, Adnoddau Dynol a Chyfleusterau.

Yr Uwch Dîm Arwain, sy'n cyfarfod unwaith yr wythnos, sy'n gyfrifol am weithrediad Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru o ddydd i ddydd yn unol â'r strategaeth a'r adroddiadau y cytunwyd arnynt, ac mae'n gwneud argymhellion i'r Bwrdd.

Mae'r Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol, Risg a Chydymffurfiaeth yn cynorthwyo'r Prif Weithredwr a Bwrdd y Cyfarwyddwyr gyda'r gwaith o lywodraethu'r sefydliad.

## 2.6 Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU

Mae'n rhaid i Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru gydymffurfio â Chod Llywodraethu Corfforaethol y DU. Mae'r wybodaeth yn y datganiad llywodraethu corfforaethol hwn yn darparu asesiad o sut mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn cydymffurfio â phrif egwyddorion y Cod fel y maent yn berthnasol i Gorff Hyd Braich yng Nghymru. Dylid nodi nad yw'r datganiad llywodraethu hwn yn amlinellu holl elfennau adrodd y Cod ond eu bod yn cael eu hadrodd arnynt yn llawnach yn yr Adroddiad Blynyddol ehangach. Ni chafwyd unrhyw achosion o wyro oddi wrth y Cod Llywodraethu Corfforaethol.

### 2.7 Ansawdd y Data

Teimlai'r Bwrdd fod y wybodaeth yr oeddent yn ei chael a'r wybodaeth a gafwyd gan ei i bwyllgorau allweddol yn cefnogi craffu a sicrwydd yn gyffredinol. Mae sicrwydd yn erbyn risgiau strategol hefyd yn cael ei fapio a'i fonitro drwy Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd. Yn wir, yn ei hunanasesiad blynyddol, nododd y Bwrdd (a'i bwyllgorau) fod trefniadau adrodd a gweinyddu'r bwrdd a'r pwyllgorau wedi aros yn gadarn yn gyson yn ystod 2022/23. Myfyriodd y Bwrdd a'r pwyllgorau ar ansawdd y data a'r wybodaeth a gafwyd ar ddiwedd pob cyfarfod, fel rhan o'r gwaith parhaus o gynnal ei effeithiolrwydd.

### 2.8 Llywodraethu Gwybodaeth a Diogelu Data

Mae gan Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru drefniadau sefydledig ar gyfer llywodraethu gwybodaeth, sy'n cynnwys ystyriaethau ynghylch diogelu data a diogelwch gwybodaeth (gan gynnwys y dirwedd seiberddiogelwch bresennol) i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei phrosesu yn unol â'r gyfraith llywodraethu gwybodaeth berthnasol, a rheoliadau a chanllawiau Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn darparu goruchwyliaeth, cyngor a sicrwydd i'r Bwrdd mewn perthynas â materion llywodraethu gwybodaeth. Yn ystod 2022/23, cyflwynwyd adroddiad llywodraethu gwybodaeth chwarterol cynhwysfawr i gryfhau'r ddarpariaeth sicrwydd i'r pwyllgor.
Yr Uwch-swyddog Risg Gwybodaeth (SIRO) ar gyfer 2022/23 oedd yr Athro Hamish Laing, Cyfarwyddwr Anweithredol. Rôl yr Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth yw bod yn eiriolwr dros risg gwybodaeth ar y Bwrdd. Mae'r Uwch-swyddog yn gyfrifol am sefydlu fframwaith atebolrwydd o fewn y sefydliadau i sicrhau dull cyson a chynhwysfawr o asesu risg gwybodaeth.

Adroddir am ddigwyddiadau llywodraethu gwybodaeth a digwyddiadau llywodraethu gwybodaeth 'a fu bron â digwydd' drwy system rheoli digwyddiadau'r sefydliad. Caiff unrhyw ddigwyddiad difrifol ei adrodd yn llawn i'r Uwch-swyddog a chynhelir ymchwiliadau Dadansoddiad o Wraidd y Broblem llawn, a chyflwynir y canlyniadau i'r Cyfarwyddwr Gweithrediadau a'r Prif Swyddog Gweithredol (fel y bo'n briodol) sy'n sicrhau bod yr Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth yn cael gwybod am gasgliadau'r ymchwiliad. Ni wnaethom roi gwybod i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth am unrhyw fethiannau diogelwch data yn ystod 2022/23.

### 2.9 Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth

Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn rhoi hawl i'r cyhoedd weld amrywiaeth o gofnodion a gwybodaeth a gedwir gan gyrff cyhoeddus ac mae'n darparu ymrwymiad i fod yn fwy agored a thryloyw yn y sector cyhoeddus. Mae gan Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru Bolisi Rhyddid Gwybodaeth, a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ym mis Tachwedd 2021.

Mae'r Hwb hefyd yn mynd ati'n rhagweithiol i gyhoeddi dosbarthiadau gwybodaeth allweddol drwy ei Gynllun Cyhoeddi, yn unol â'r model a nodir gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

Nid yw Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru wedi cael unrhyw Geisiadau Rhyddid Gwybodaeth na Cheisiadau am Fynediad at Ddata gan y Testun yn 2022/23.

**2.10 Gweithdrefnau Chwythu'r Chwiban**

Mae'r Hwb yn cyfathrebu â phob gweithiwr ac yn eu hatgoffa o ran chwythu'r chwiban, ac mae Polisi Chwythu'r Chwiban ar waith. Unwaith y flwyddyn, darperir hyfforddiant drwy'r broses gynefino drwy ddarpariaeth hyfforddiant ar-lein y Cwmni a chaiff ei drafod o bryd i'w gilydd mewn cyfarfodydd staff.

**2.12 Casgliad**

Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023, rwy'n fodlon bod fframwaith llywodraethu cymesur a chadarn a system o reolaethau mewnol wedi bod ar waith. Roeddent yn cefnogi'r gwaith o gyflawni nodau ac amcanion Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru; yn hwyluso'r gwaith o arfer swyddogaethau'r Cwmni'n effeithiol ac yn diogelu arian cyhoeddus ac asedau y mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn bersonol gyfrifol amdanynt. Mae'r materion llywodraethu a rheoli hyn yn cyd-fynd â'r cyfrifoldebau yn y Ddogfen Fframwaith a roddwyd i ni gan Lywodraeth Cymru.

**Cari-Anne Quinn**
**Prif Swyddog Gweithredol**
**Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru Cyfyngedig**

**Archwiliwr**

Archwilydd Cyffredinol Cymru yw archwilydd allanol statudol y Cwmni a benodwyd gan Lywodraeth Cymru.

**Datganiad datgelu i'r archwilydd**

Hyd y gŵyr pob person a oedd yn gyfarwyddwr ar ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad hwn, nid oes gwybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilydd y Cwmni yn ymwybodol ohoni. Yn ogystal, mae'r cyfarwyddwyr unigol wedi cymryd pob cam angenrheidiol y dylent fod wedi'u cymryd fel cyfarwyddwyr er mwyn bod pob un ohonynt yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol, ac i sicrhau bod archwilwyr y Cwmni yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Ar ran y bwrdd

**Chris Martin**
**Cadeirydd**

**Datganiad datgelu i'r archwilydd**

Hyd y gŵyr pob person a oedd yn gyfarwyddwr ar ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad hwn, nid oes gwybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilydd y Cwmni yn ymwybodol ohoni. Yn ogystal, mae'r cyfarwyddwyr unigol wedi cymryd pob cam angenrheidiol y dylent fod wedi'u cymryd fel cyfarwyddwyr er mwyn bod pob un ohonynt yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol, ac i sicrhau bod archwilwyr y Cwmni yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Ar ran y bwrdd

**Chris Martin**
**Cadeirydd**

**Barn ar y datganiadau ariannol**

Rwyf wedi archwilio datganiadau ariannol Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2023, sy’n cynnwys y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr, y Datganiad Sefyllfa Ariannol, y Datganiad Newidiadau Ecwiti, y Datganiad Llif Arian a’r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o’r polisïau cyfrifyddu o bwys.

Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd wrth baratoi’r datganiadau ariannol yw’r gyfraith berthnasol a’r Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol a fabwysiadwyd yn y DU.
Yn fy marn i, mae’r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o gyflwr y cwmni ar 31 Mawrth 2023 ac o’i sefyllfa ariannol ar gyfer y flwyddyn yn diweddu bryd hynny;
- wedi cael eu paratoi'n briodol, yn unol â safonau cyfrifyddu rhyngwladol mabwysiedig y DU; ac
- wedi cael eu paratoi yn unol â gofynion Deddf Cwmnïau 2006.

**Barn ar reoleidd-dra**

Yn fy marn i, ym mhob ffordd o bwys defnyddir y gwariant a’r incwm a gofnodir yn y datganiadau ariannol at y dibenion y’u bwriadwyd gan y Senedd ac mae’r trafodion ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â’r awdurdodau sy’n eu llywodraethu.

**Sail y farn**

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â’r gyfraith berthnasol, y Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (ISAs (DU)) a Nodyn Ymarfer 10 ‘Archwilio Datganiadau Ariannol Endidau Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig’. Ceir disgrifiad pellach o’m cyfrifoldebau o dan y safonau hynny yng nghyfrifoldebau’r archwilydd er mwyn archwilio adran datganiadau ariannol fy adroddiad.

Mae fy staff a minnau’n annibynnol o’r cwmni, yn unol â’r gofynion moesegol sy’n berthnasol i’m harchwiliad o ddatganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safonau Moesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â’r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth rwyf wedi’i chasglu o’r archwiliad yn ddigonol ac yn briodol er mwyn rhoi sail ar gyfer fy marn.

**Casgliadau ynglŷn â busnes hyfyw**

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rydw i wedi dod i'r casgliad bod defnydd yr ymddiriedolwyr o sail cyfrifyddu busnes hyfyw wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Ar sail y gwaith rwyf wedi'i wneud, nid wyf wedi gweld dim ansicrwydd o bwys yn ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, ar eu pen eu hunain neu gyda'i gilydd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r corff i barhau i fod yn fusnes hyfyw am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r dyddiad pan roddir awdurdod i gyhoeddi'r datganiadau ariannol.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau i, a chyfrifoldebau'r cyfarwyddwyr mewn perthynas â busnes hyfyw yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn.

**Gwybodaeth arall**

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad blynyddol ac eithrio'r datganiadau ariannol a'm hadroddiad fel archwilwyr arnynt. Y cyfarwyddwyr sy'n gyfrifol am yr wybodaeth arall sydd yn yr adroddiad blynyddol. Nid yw fy marn am y datganiadau ariannol yn cynnwys yr wybodaeth arall ac nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar hynny, heblaw pan fo hynny wedi'i ddatgan yn glir yn fy adroddiad. Fy nghyfrifoldeb yw darllen yr wybodaeth arall a, drwy wneud hynny, ystyried a oes anghysondeb o bwys rhwng yr wybodaeth arall a'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth rydym ni wedi'i chael yn ystod yr archwiliad, neu sy'n ymddangos yn gamddatganiad o bwys fel arall. Os byddaf yn canfod anghysondebau o bwys neu gamddatganiadau o bwys amlwg o'r fath, mae'n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad o bwys yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os, ar sail y gwaith rwyf wedi'i wneud, rwy'n dod i'r casgliad bod camddatganiad o bwys o'r wybodaeth arall hon, mae'n rhaid i mi adrodd ar y ffaith honno.

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd i'r perwyl hwn.

**Barn ar faterion eraill a ragnodir gan Ddeddf Cwmnïau 2006**

Yn fy marn i, ar sail y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae'r wybodaeth yn yr adroddiad blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol wedi cael eu paratoi ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol; ac
- mae'r adroddiad blynyddol wedi'u paratoi'n unol â'r gofynion cyfreithiol perthnasol.

**Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad**

O ystyried y wybodaeth a'r ddealltwriaeth o'r cwmni a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi gweld camddatganiadau o bwys yn yr adroddiad blynyddol.

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd yn ei gylch yng nghyswllt y materion a ganlyn lle mae'n ofynnol i mi roi adroddiad i chi yn eu cylch dan Ddeddf Cwmnïau 2006 os, yn fy marn i:

- Nid wyf wedi cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau y mae gofyn i mi eu cael ar gyfer fy archwiliad;
- ni gadwyd cyfrifon cyfrifyddu digonol, neu os na ddaeth datganiadau sy'n ddigonol ar gyfer fy archwiliad i law oddi wrth ganghennau nad ymwelodd fy nhîm â nhw;
- nid yw'r datganiadau ariannol yn cyd-fynd â'r datganiadau a'r cofnodion cyfrifyddu;
- ni wneir datgeliadau penodol am daliadau cyfarwyddwyr fel sy'n ofynnol yn gyfreithiol; neu
- nid oedd gan y cyfarwyddwyr hawl i fanteisio ar yr eithriad i gwmnïau bach.

**Cyfrifoldebau'r swyddog cyfrifyddu dros y datganiadau ariannol**

Fel yr eglurir yn fanylach yn y datganiad o gyfrifoldebau'r cyfarwyddwyr cyfrifyddu, mae'r cyfarwyddwyr yn gyfrifol am y canlynol:

- cadw cofnodion cyfrifyddu priodol;
- paratoi'r datganiadau ariannol a'r Adroddiad Blynyddol yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol perthnasol ac ar gyfer bod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun cywir a theg;
- rheolaethau mewnol y mae'r cyfarwyddwyr yn penderfynu sy'n angenrheidiol er mwyn gallu paratoi datganiadau ariannol sydd ddim yn cynnwys camddatganiadau o bwys, boed o ganlyniad i dwyll neu gamgymeriad;
- asesu gallu'r cwmni i barhau fel busnes hyfyw, gan ddatgelu, fel y bo'n berthnasol, faterion sy'n ymwneud â busnes hyfyw a defnyddio'r sail cyfrifyddu busnes hyfyw oni bai fod y cyfarwyddwyr yn rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan y cwmni yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol.

**Cyfrifoldebau'r Archwilydd dros archwilio'r datganiadau ariannol**

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â Deddf Cwmnïau 2006.

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiadau o bwys, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad, a rhoi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn i. Mae sicrwydd rhesymol yn golygu lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw hynny'n gwarantu bod archwiliad sy'n cael ei gynnal yn unol ag ISA (DU) bob amser yn canfod camddatganiadau sylweddol. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wallau ac maent yn cael eu hystyried yn gamddatganiadau o bwys os, yn unigol neu gyda'i gilydd, y byddai'n rhesymol disgwyl iddyn nhw ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn enghreifftiau o ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau. Rwy'n llunio gweithdrefnau yn unol â fy nghyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ddod o hyd i gamddatganiadau o bwys mewn perthynas ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

**Roedd fy ngweithdrefnau'n cynnwys y canlynol:**

Holi rheolwyr, archwilwyr mewnol y cwmni a'r rheini sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cyrchu ac adolygu dogfennau ategol sy'n ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru sy'n ymwneud â:

- canfod, gwerthuso a chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau ac a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio;
- canfod ac ymateb i risgiau twyll ac a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, amheuaeth o dwyll neu dwyll honedig; a'r
- rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu ddiffyg cydymffurfiaeth â chyfreithiau neu reoliadau.
- Ystyried, fel tîm archwilio, sut a ble y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion posibl o dwyll.
- Datblygu dealltwriaeth o fframwaith awdurdod Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru Cyfyngedig yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru Cyfyngedig yn gweithredu ynddynt, gan ganolbwyntio ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith o bwys ar weithrediadau Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru Cyfyngedig; a
- Cael dealltwriaeth o berthnasoedd partïon cysylltiedig.

Yn ogystal â'r uchod, roedd fy ngweithdrefnau i ymateb i risgiau a nodwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu datgeliadau'r datganiadau ariannol a phrofi dogfennau ategol i asesu cydymffurfiad â'r cyfreithiau a'r rheoliadau perthnasol a drafodir uchod;
- holi'r rheolwyr am gyfreitha a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu a'r cyfarwyddwyr; ac
- wrth roi sylw i'r risg o dwyll wrth i reolwyr ddiystyru rheolaethau, profi pa mor briodol yw cofnodion dyddlyfr ac addasiadau eraill; asesu a yw'r penderfyniadau a wneir wrth lunio amcangyfrifon cyfrifyddu yn arwydd o ragfarn bosibl; a gwerthuso rhesymeg busnes unrhyw drafodion arwyddocaol sy'n anarferol neu sydd y tu allan i'r busnes arferol.

Yn ogystal, fe wnes i gyfleu'r cyfreithiau a'r rheoliadau perthnasol a nodwyd, a'r risgiau posibl o ran twyll, i holl aelodau'r tîm archwilio, ac roeddwn yn ymwybodol o unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau drwy gydol yr archwiliad.

Mae'r anhawster cynhenid i ganfod afreoleidd-dra, effeithiolrwydd rheolaethau Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru, a natur, amseriad a graddau'r gweithdrefnau archwilio a gyflawnir yn effeithio ar y graddau y mae fy ngweithdrefnau'n gallu canfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Mae disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd dros archwilio'r datganiadau ariannol i'w ganfod ar wefan y Cyngor Adroddiadau Ariannol yn www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm hadroddiad fel archwilydd.

**Cyfrifoldebau eraill yr archwilydd**

Rwy'n cael tystiolaeth sy'n ddigon i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi cael eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Rwyf yn cyfathrebu â'r rheini sydd yn gyfrifol am lywodraethu ynghylch, ymysg materion eraill, cwmpas ac amseriad yr archwiliad a chanfyddiadau pwysig yr archwiliad, gan gynnwys unrhyw ddiffygion o bwys mewn rheolaeth fewnol y byddaf yn dod o hyd iddynt yn ystod fy archwiliad.

**Adroddiad**

Nid oes gennyf sylwadau i'w gwneud ynghylch y datganiadau ariannol hyn.

Adrian Crompton
Archwilydd Cyffredinol Cymru

1 Capital Quarter
Stryd Tyndall
Caerdydd, CF10 4B

Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru
Life Sciences Hub Wales

# Cyfrifon Ariannol

## Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023

## ATGANIAD GWARIANT CYNHWYSFAWR

| | Nodiadau | 2023 £ | 2022 £ |
|---|---|---|---|
| **Refeniw** | **4** | 7,011,880 | 6,605,500 |
| **Elw gros** | | 7,011,880 | 6,605,500 |
| Costau gweinyddol | **5** | (6,999,032) | (6,578,667) |
| **Elw gweithredol** | **6** | 12,848 | 26,833 |
| Costau cyllid | **9** | (12,848) | (26,833) |
| **Elw cyn trethiant** | | - | - |
| Costau treth incwm | **10** | - | - |
| **Elw a chyfanswm incwm cynhwysfawr am y flwyddyn** | **19** | - | - |

Paratowyd y datganiad incwm ar y sail bod yr holl weithrediadau'n parhau.

## YDATGANIAD AM NEWIDIADAU MEWN ECIWTI

| | Enillion a gedwir £ |
|---|---|
| Balans ar 1 Ebrill 2021 | 12,259 |
| Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023: | |
| Balans ar 31 Mawrth 2022 | 12,259 |
| Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023: | |
| Balans ar 31 Mawrth 2023 | 12,259 |

## DATGANIAD AM Y SEFYLLFA ARIANNOL

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Asedau anghyfredol** | | | |
| Asedau anniriaethol | **12** | 32,335 | 5,083 |
| Eiddo, offer a chyfarpar | **11** | 82,405 | 329,623 |
| | | 114,740 | 334,706 |
| **Asedau cyfredol** | | | |
| Symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill | **14** | 2,950,496 | 2,977,143 |
| Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod | | 787,688 | 3,540,577 |
| | | 3,738,184 | 6,517,720 |
| **Cyfanswm yr asedau** | | 3,852,924 | 6,852,426 |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | | |
| Symiau taladwy drwy fasnach a symiau taliadau eraill | **15** | 3,316,138 | 6,137,485 |
| Rhwymedigaethau lesoedd | **16** | 90,547 | 261,910 |
| Refeniw gohiriedig | **17** | 433,980 | 350,226 |
| | | 3,840,665 | 6,749,621 |
| **Rhwymedigaethau cyfredol net** | | (102,481) | (231,901) |
| **Rhwymedigaethau anghyfredol** | | | |
| Rhwymedigaethau lesoedd | **16** | - | 90,546 |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau** | | 3,840,665 | 6,840,167 |
| **Asedau net** | | 12,259 | 12,259 |
| **Ecwiti** | | | |
| Enillion a gedwir | **19** | 12,259 | 12,259 |

Ar gyfer y flwyddyn a ddiweddodd ar 31 Mawrth 2023, roedd gan y Cwmni hawl i gael ei eithrio o ofynion Rhan 16 o Ddeddf Cwmnïau 2006 dan adran 482 o'r Ddeddf hon (cwmnïau nid-er-elw sy'n destun archwiliad sector cyhoeddus).

Cymeradwyodd bwrdd y cyfarwyddwyr y datganiadau ariannol a rhoi awdurdod i'w cyhoeddi ar ......................... ac fe'u llofnodwyd ar ei ran gan:

..............................

Chris Martin

**Cadeirydd**

**Rhif Cofrestru Cwmni: 08719645**

## DATGANIAD LLIF ARIAN PAROD

| | Nodiadau | 2023 £ | 2023 £ | 2022 £ | 2022 £ |
|---|---|---|---|---|---|
| **Llif arian o weithgarwch gweithredol** | | | | | |
| Arian parod (a gyfrifwyd gan)/ai gynhyrchwyd drwy weithrediadau | **27** | | (2,449,186) | | 2,951,561 |
| **(All-lif)/mewn-lif arian net o weithgareddau gweithredu** | | | (2,449,186) | | 2,951,561 |
| **Gweithgareddau buddsoddi** | | | | | |
| Prynu asedau anniriaethol | | (28,946) | | (5,083) | |
| **Arian parod net a ddefnyddiwyd mewn gweithgareddau buddsoddi** | | | (28,946) | | (5,083) |
| **Gweithgareddau cyllido** | | | | | |
| Talu rhwymedigaethau lesoedd | | (274,757) | | (274,758) | |
| **Arian parod net a ddefnyddiwyd mewn gweithgareddau cyllido** | | | (274,757) | | (274,758) |
| **Net (gostyngiad)/cynnydd mewn arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod** | | | (2,752,889) | | 2,671,720 |
| Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod ar ddechrau'r flwyddyn | | | 3,540,577 | | 868,857 |
| Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod ar ddiwedd y flwyddyn | | | 787,688 | | 3,540,577 |

## NODIADAU AR Y DATGANIADAU ARIANNOL

### 1 Polisïau cyfrifyddu

**Gwybodaeth am y cwmni**
Cwmni preifat cyfyngedig drwy warant sydd wedi'i ymgorffori yng Nghymru a Lloegr yw Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru Cyfyngedig. Y swyddfa gofrestredig yw 2il Lawr, 3 Sgwâr y Cynulliad, Cei Britannia, Bae Caerdydd, Caerdydd, Y Deyrnas Unedig, CF10 4PL.

### 1.1 Confensiwn cyfrifyddu
Paratowyd y datganiadau ariannol yn unol â'r Safonau Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y'u mabwysiadwyd i'w defnyddio yn y DU ac â'r rhannau hynny o Ddeddf Cwmnïau 2006 sy'n berthnasol i gwmnïau sy'n adrodd o dan IFRS, ac eithrio fel y nodir fel arall.

Mae'r datganiadau ariannol yn cael eu paratoi mewn sterling, sef arian gweithredol y cwmni. Mae symiau ariannol yn y datganiadau ariannol hyn yn cael eu talgrynnu i'r £ agosaf.

### 1.2 Busnes byw
Ar adeg cymeradwyo'r datganiadau ariannol, mae disgwyliad rhesymol gan y cyfarwyddwyr bod gan y cwmni adnoddau digonol i barhau mewn bodolaeth weithredol hyd y gellir rhagweld. Felly, mae'r cyfarwyddwyr yn parhau i fabwysiadu'r sail cyfrifyddu busnes hyfyw wrth baratoi'r datganiadau ariannol.

### 1.3 Refeniw
Cydnabyddir incwm sy'n dderbyniadwy gan Lywodraeth Cymru yn y flwyddyn y derbynnir yr incwm yn unol â'r Llythyr Cylch Gwaith sy'n amlinellu cyllid ar gyfer y cyfnod fel arfer hyd at 31 Mawrth bob blwyddyn.

Cydnabyddir grantiau sy'n dderbyniadwy gan Lywodraeth Cymru ar eu gwerth teg os oes sicrwydd rhesymol y caiff y grant ei dderbyn ac y bydd y Cwmni'n cydymffurfio â'r amod sydd ynghlwm wrtho.

Caiff incwm o logi desg, ystafell gyfarfod ac ystafell gynadledda ei gydnabod ar ddyddiad yr archeb. Cedwir blaendaliadau a dalwyd ymlaen llaw a chydnabyddir incwm ar y dyddiad y cynhelir y digwyddiad.

Mae incwm arall yn ymwneud ag incwm sy'n deillio o ddarparu peiriant coffi at ddefnydd ymwelwyr a chaiff hwn ei gydnabod pan gaiff ei dderbyn.

Caiff incwm a threuliau llog eu cronni ar sail amser, drwy gyfeirio at y prif swm sy'n ddyledus ac ar y gyfradd llog sy'n berthnasol.

### 1.4 Asedau anniriaethol ac eithrio ewyllys da
Cydnabyddir asedau anniriaethol sydd ag oes gyfyngedig ar sail cost ac maent yn cael eu mesur ar sail cost llai amorteiddiad cronedig a cholledion amhariad cronedig.

Cydnabyddir amorteiddiad er mwyn dileu cost neu bris asedau llai eu gwerthoedd gweddilliol dros eu hoes ddefnyddiol ar y seiliau canlynol o 3 blynedd.

Ni chaiff asedau anniriaethol yn ystod gwaith adeiladu eu hamorteiddio.

### 1.5 Eiddo, offer a chyfarpar
Mae eiddo, offer a chyfarpar yn cael eu mesur ar sail cost i ddechrau ac yna'n cael eu mesur yn ôl cost neu brisiad, ac yn cynnwys dibrisiant ac unrhyw golledion amhariad. Nid yw'r Cwmni'n grwpio asedau ar gyfer cyfalafu.
Cydnabyddir dibrisiant er mwyn dileu cost neu bris asedau llai eu gwerthoedd gweddilliol dros eu hoes ddefnyddiol ar y seiliau canlynol.

| | |
|---|---|
| Tir ac adeiladau ar lesddaliad | Dros y cyfnod sy'n weddill ar y brydles |
| Gosodiadau a ffitiadau | 3 blynedd |
| Cyfarpar swyddfa | 3 blynedd |

## NODIADAU AR Y DATGANIADAU ARIANNOL (PARHAD)

**1 Polisïau cyfrifyddu** **(Parhad)**

Pennir yr elw neu'r golled sy'n deillio o waredu ased fel y gwahaniaeth rhwng enillion y gwerthiant a gwerth cario'r ased, ac fe gydnabyddir hyn yn y datganiad incwm.

**1.6 Amhariad ar asedau diriaethol ac anniriaethol**

Ar bob dyddiad adrodd, mae'r cwmni'n adolygu symiau cario ei asedau diriaethol ac anniriaethol i benderfynu a oes unrhyw arwydd bod yr asedau hynny wedi dioddef colled yn sgil amhariad. Os oes unrhyw arwydd o'r fath yn bodoli, amcangyfrifir swm adferadwy'r ased er mwyn penderfynu ar faint y golled yn sgil amhariad (os o gwbl). Lle nad oes modd amcangyfrif swm adferadwy ased unigol, mae'r cwmni'n amcangyfrif y swm y gellir ei hadennill o'r uned sy'n cynhyrchu arian y mae'r ased yn perthyn iddi.

**1.7 Mesur gwerth teg**

Mae IFRS 13 yn sefydlu un ffynhonnell arweiniad ar gyfer pob mesur gwerth teg. Nid yw IFRS 13 yn newid pan fydd yn ofynnol i endid ddefnyddio gwerth teg, ond yn hytrach mae'n rhoi arweiniad ar sut mae mesur gwerth teg o dan IFRS pan fydd angen neu pan ganiateir gwerth teg. Roedd y cyfrifiadau a ddeilliodd o IFRS 13 yn effeithio ar yr egwyddorion y mae'r cwmni'n eu defnyddio i asesu'r gwerth teg, ond nid yw'r asesiad o werth teg o dan IFRS 13 wedi golygu newid sylweddol i'r gwerthoedd teg sy'n cael eu cydnabod na'u datgelu. Mae IFRS 13 yn effeithio'n bennaf ar ddatgeliadau'r cwmni. Mae'n gofyn am ddatgeliadau penodol am fesuriadau gwerth teg a datgeliadau o werthoedd teg, y mae rhai ohonynt yn disodli'r gofynion datgelu presennol mewn safonau eraill.

**1.8 Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod**

Mae arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod yn cynnwys arian mewn llaw, blaendaliadau a ddelir ar alwad gyda banciau, buddsoddiadau hylifol tymor byr eraill gydag aeddfedrwydd gwreiddiol o dri mis neu lai, a gorddrafftiau banc.

**1.9 Asedau ariannol**

Caiff offerynnau ariannol eu cydnabod yn natganiad y cwmni o'i sefyllfa ariannol pan fydd y cwmni'n dod yn rhan o ddarpariaethau cytundebol yr offeryn. Mae asedau ariannol yn cael eu dosbarthu'n gategorïau penodol, yn dibynnu ar natur a phwrpas yr asedau ariannol.

Ar ôl cael cydnabyddiaeth gychwynnol, mesurir asedau ariannol a ddosberthir fel gwerth teg drwy elw a cholled yn ar sail gwerth teg a chaiff unrhyw gostau trafodion eu cydnabod mewn elw neu golled. Caiff asedau ariannol na chaiff eu dosbarthu fel gwerth teg drwy elw a cholled eu mesur ar sail gwerth teg a chostau trafodion i ddechrau.

***Benthyciadau a symiau derbyniadwy***

Dosberthir symiau masnach derbyniadwy, benthyciadau a symiau derbyniadwy eraill sydd â thaliadau sefydlog neu rai y gellir eu pennu na chaiff eu dyfynnu mewn marchnad weithredol fel 'benthyciadau a symiau derbyniadwy'. Mesurir benthyciadau a symiau derbyniadwy ar gost wedi'i hamorteiddio gan ddefnyddio'r dull llog effeithiol, llai unrhyw amhariad.

Cydnabyddir llog drwy ddefnyddio'r gyfradd llog effeithiol, ac eithrio symiau derbyniadwy tymor byr pan fyddai cydnabod llog yn amherthnasol. Mae'r dull llog effeithiol yn ddull o gyfrifo cost amorteiddio offeryn dyled ac o ddyrannu'r incwm llog dros y cyfnod perthnasol. Y gyfradd llog effeithiol yw'r gyfradd y mae'r union ostyngiadau yn amcangyfrif derbyniadau arian parod yn y dyfodol drwy gydol oes ddisgwyliedig yr offeryn dyled i'r swm cario net ar gydnabyddiaeth gychwynnol.

Mae benthyciadau a symiau derbyniadwy yn cynnwys arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod, a symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill.

## NODIADAU AR Y DATGANIADAU ARIANNOL (PARHAD)

**1 Polisïau cyfrifyddu** **(Parhad)**

***Amhariad ar asedau ariannol***
Caiff asedau ariannol eu cario ymlaen ar gost wedi'i hamorteiddio a chaiff FVOCI eu hasesu ar gyfer dangosyddion amhariad ar bob dyddiad gorffen adrodd.

Amcangyfrifir y colledion credyd disgwyliedig sy'n gysylltiedig â'r asedau hyn ar sail rhagolwg. Ystyrir ystod eang o wybodaeth wrth asesu risg credyd a mesur colledion credyd disgwyliedig, gan gynnwys digwyddiadau yn y gorffennol, amodau cyfredol, a rhagolygon rhesymol a rhagolygon y gellir eu cefnogi sy'n effeithio ar allu casglu llifoedd arian yr offeryn yn y dyfodol.

(Ar gyfer symiau derbyniadwy drwy fasnach, defnyddir y dull symlach a ganiateir gan IFRS 9, sy'n ei gwneud yn ofynnol i gydnabod colledion oes disgwyliedig drwy gydnabod y symiau derbyniadwy yn y lle cyntaf.

***Dad-gydnabod asedau ariannol***
Dim ond pan ddaw'r hawliau cytundebol i lif arian yr ased i ben, neu pan fydd yn trosglwyddo'r ased ariannol a'r holl risgiau sylweddol a gwobrwyon perchnogaeth i endid arall, y caiff yr asedau ariannol eu dad-gydnabod.

**1.10 Rhwymedigaethau ariannol**
Mae'r cwmni'n cydnabod dyled ariannol pan fydd y cwmni'n dod yn barti i ddarpariaethau contract yr offerynnau. Caiff rhwymedigaethau ariannol eu dosbarthu naill ai fel 'rhwymedigaethau ariannol ar werth teg drwy elw neu golled' neu 'rhwymedigaethau ariannol eraill'.

***Rhwymedigaethau ariannol eraill***
Caiff rhwymedigaethau ariannol eraill, gan gynnwys benthyciadau, symiau taladwy drwy fasnach a rhwymedigaethau ariannol tymor byr eraill, eu mesur i ddechrau ar werth teg net o gostau trafodion y gellir eu priodoli'n uniongyrchol i roi'r rhwymedigaeth ariannol. Maent wedyn yn cael eu mesur ar gost wedi'i hamorteiddio gan ddefnyddio'r dull llog effeithiol. At ddibenion pob rhwymedigaeth ariannol, mae treuliau llog yn cynnwys costau trafodion cychwynnol ac unrhyw bremiwm sy'n daladwy wrth ad-dalu, yn ogystal ag unrhyw log neu gwpon sy'n daladwy tra bo'r rhwymedigaeth yn ddyledus.

***Dad-gydnabod rhwymedigaethau ariannol***
Caiff rhwymedigaethau ariannol eu dad-gydnabod pan gaiff rhwymedigaethau'r cwmni'n eu cyflawni, eu canslo neu pan fyddant yn dod i ben, a dim ond pan fydd hynny'n digwydd.

**1.11 Darpariaethau**
Cydnabyddir darpariaethau pan fydd gan y cwmni rwymedigaeth bresennol gyfreithiol neu adeiladol o ganlyniad i ddigwyddiad yn y gorffennol ac mae'n debygol y bydd yn rhaid i'r cwmni setlo'r rhwymedigaeth honno, a gellir gwneud amcangyfrif dibynadwy o swm y rhwymedigaeth.

Y swm a gydnabyddir fel darpariaeth yw'r amcangyfrif gorau o'r gydnabyddiaeth sydd ei hangen i setlo'r rhwymedigaeth bresennol ar y dyddiad terfynu ar gyfer adrodd, gan ystyried y risgiau a'r ansicrwydd sy'n gysylltiedig â'r rhwymedigaeth. Pan fesurir darpariaeth gan ddefnyddio'r llifoedd arian a amcangyfrifir i setlo'r rhwymedigaeth bresennol, ei swm cario yw gwerth presennol y llifoedd arian hynny.

Pan ddisgwylir i drydydd parti adennill rhywfaint neu'r cyfan o'r buddion economaidd sy'n ofynnol i setlo darpariaeth, cydnabyddir swm derbyniadwy fel ased os yw bron yn sicr y bydd ad-daliad yn cael ei dderbyn a bod modd cael mesuriad dibynadwy o'r swm derbyniadwy.

## NODIADAU AR Y DATGANIADAU ARIANNOL (PARHAD)

**1 Polisïau cyfrifyddu** **(Parhad)**

**1.12 Buddion gweithwyr**

Cydnabyddir costau buddion tymor byr i weithwyr fel rhwymedigaeth a chost, oni bai ei bod yn ofynnol cydnabod y costau hynny fel rhan o gost stocrestrau neu asedau anghyfredol.

Cydnabyddir cost unrhyw hawl gwyliau nas defnyddiwyd yn ystod y cyfnod y derbynnir gwasanaethau'r gweithiwr.

Cydnabyddir buddion terfynu ar unwaith fel traul pan fydd yn amlwg fod cwmni wedi ymrwymo i derfynu cyflogaeth gweithiwr neu i ddarparu buddion terfynu.

**1.13 Budd-daliadau ymddeol**

Codir taliadau i gynlluniau buddion ymddeol cyfraniadau diffiniedig fel traul wrth iddynt ddod yn ddyledus.

**1.14 Lesoedd**

Ar y dechrau, mae'r cwmni'n asesu a yw contract yn les, neu'n cynnwys les o fewn cwmpas IFRS 16. Mae contract yn les, neu'n cynnwys les, os yw'n trosglwyddo'r hawl i reoli'r defnydd o ased dynodedig am gyfnod yn gyfnewid am ystyriaeth. Pan gaiff ased diriaethol ei gaffael drwy les, mae'r cwmni'n cydnabod ased hawl i ddefnyddio a rhwymedigaeth les ar ddyddiad cychwyn y les. Caiff asedau hawl i ddefnyddio eu cynnwys mewn eiddo, offer a chyfarpar, ar wahân i'r rheini sy'n bodloni'r diffiniad o eiddo buddsoddi.

Mesurir yr ased hawl i ddefnyddio ar sail cost i ddechrau, sy'n cynnwys swm cychwynnol y rhwymedigaeth lesoedd a addaswyd ar gyfer unrhyw daliadau prydles a wnaed ar y dyddiad cychwyn neu cyn hynny, ynghyd ag unrhyw gostau uniongyrchol cychwynnol ac amcangyfrif o gost rhwymedigaethau i ddatgymalu, symud, adnewyddu neu adfer yr ased sylfaenol a'r safle y mae wedi'i leoli arno, llai unrhyw gymhellion prydles a gafwyd.

Caiff yr ased hawl i ddefnyddio ei ddibrisio wedyn gan ddefnyddio'r dull llinell syth o'r dyddiad cychwyn hyd at ddiwedd oes ddefnyddiol yr ased hawl i ddefnyddio neu ddiwedd cyfnod y les. Pennir yr amcangyfrif o oes ddefnyddiol asedau hawl i ddefnyddio ar yr un sail â rhai eiddo, peiriannau a chyfarpar eraill. Caiff yr ased hawl i ddefnyddio ei leihau o bryd i'w gilydd gan golledion amhariad, os o gwbl, a'i addasu ar gyfer rhai ailfesuriadau o atebolrwydd y les.

I ddechrau, mesurir rhwymedigaeth y les ar sail gwerth presennol taliadau'r brydles sydd heb eu talu ar y dyddiad cychwyn, wedi'u disgowntio gan ddefnyddio'r gyfradd llog sydd ymhlyg yn y les neu, os nad yw'n rhwydd pennu'r gyfradd honno, defnyddir cyfradd fenthyca gynyddrannol y cwmni. Mae taliadau les swydd wedi cael eu cynnwys wrth fesur rhwymedigaeth y les yn cynnwys taliadau sefydlog, taliadau les amrywiol sy'n dibynnu ar fynegai neu gyfradd, symiau y disgwylir iddynt fod yn daladwy o dan warant gwerth gweddilliol, a chost unrhyw opsiynau y mae'r cwmni'n rhesymol sicr o'u harfer, fel y pris ymarfer o dan opsiwn prynu, taliadau les mewn cyfnod adnewyddu dewisol, neu gosbau am derfynu les yn gynnar.

Mesurir atebolrwydd y les ar gost wedi'i hamorteiddio gan ddefnyddio'r dull llog effeithiol. Caiff ei ailfesur pan fydd newid yn y canlynol: taliadau les yn y dyfodol sy'n deillio o newid mewn mynegai neu gyfradd; amcangyfrif y cwmni o'r swm y disgwylir iddo fod yn daladwy o dan warant gwerth gweddilliol; neu asesiad y cwmni ynghylch a fydd yn defnyddio opsiwn prynu, ymestyn neu derfynu. Pan ailfesurir rhwymedigaeth y les fel hyn, gwneir addasiad cyfatebol i'r swm a gaiff ei gario ymlaen ar yr ased hawl i ddefnyddio, neu mae'n cael ei gofnodi mewn elw neu golled os cafodd swm cario ymlaen yr ased hawl i ddefnyddio ei leihau i sero.

Mae'r cwmni wedi dewis peidio â chydnabod asedau hawl i ddefnyddio a rhwymedigaethau lesoedd ar gyfer lesodd tymor byr peiriannau sydd â chyfnod les o 12 mis neu lai, neu ar gyfer lesoedd asedau gwerth isel gan gynnwys offer TG. Caiff y taliadau sy'n gysylltiedig â'r lesoedd hyn eu cydnabod mewn elw neu golled ar sail llinell syth dros gyfnod y les.

## NODIADAU AR Y DATGANIADAU ARIANNOL (PARHAD)

**1 Polisïau cyfrifyddu** **(Parhad)**

**1.15 Grantiau**

Cydnabyddir grantiau'r Llywodraeth pan geir sicrwydd rhesymol y caiff amodau'r grant eu bodloni ac y caiff y grantiau eu derbyn.

Caiff grantiau'r llywodraeth sy'n ymwneud â chostau sydd eto i'w hysgwyddo eu gohirio a'u cydnabod yn y Datganiad Elw neu Golled dros y cyfnod sy'n angenrheidiol i'w cyfateb i'r costau y bwriedir iddynt wneud iawn amdanynt.

Caiff grantiau a dderbynnir ar gyfer prynu offer cyfalaf eu credydu i gyfrif incwm gohiriedig a'u rhyddhau i'r Datganiad Elw neu Golled dros oes ddefnyddiol ddisgwyliedig yr asedau dan sylw.

**1.16 Trethu**

Mae'r tâl ar gyfer y dreth gyfredol yn seiliedig ar y canlyniadau ar gyfer y flwyddyn fel y'u haddaswyd ar gyfer eitemau nad oes modd eu hasesu neu rai na chaniateir. Caiff ei gyfrifo gan ddefnyddio cyfraddau sydd wedi cael eu deddfu neu wedi cael eu deddfu i raddau helaeth erbyn dyddiad y fantolen.

Cyfrifir treth ohiriedig gan ddefnyddio'r dull atebolrwydd ar y fantolen mewn perthynas â gwahaniaethau dros dro sy'n deillio o wahaniaethau rhwng swm cario asedau a rhwymedigaethau yn y datganiadau ariannol ymlaen a'r sail dreth gyfatebol a ddefnyddir wrth gyfrifo elw trethadwy. Mewn egwyddor, caiff rhwymedigaethau treth gohiriedig eu cydnabod ar gyfer pob gwahaniaeth dros dro trethadwy a chydnabyddir asedau treth gohiriedig i'r graddau y mae'n debygol y bydd elw trethadwy ar gael y gellir defnyddio gwahaniaethau dros dro y gellir eu didynnu yn eu herbyn.

Cyfrifir treth ohiriedig yn ôl y cyfraddau y disgwylir iddynt fod yn berthnasol pan gaiff yr ased neu'r rhwymedigaeth ei setlo. Codir neu gredydir treth ohiriedig yn y datganiad incwm, ac eithrio pan fo'n ymwneud ag eitemau a gredydir neu a godir yn uniongyrchol ar ecwiti, ac os felly ymdrinnir â'r dreth ohiriedig mewn ecwiti hefyd.

**2 Amcangyfrifon a dyfarniadau cyfrifyddu critigol**

Wrth roi polisïau cyfrifyddu'r cwmni ar waith, mae'n ofynnol i'r cyfarwyddwyr wneud penderfyniadau, amcangyfrifon a thybiaethau ynghylch swm cario ymlaen asedau a rhwymedigaethau nad ydynt yn amlwg iawn o ffynonellau eraill. Mae'r amcangyfrifon a'r tybiaethau cysylltiedig yn seiliedig ar brofiad hanesyddol a ffactorau eraill yr ystyrir eu bod yn berthnasol. Gall y gwir ganlyniadau fod yn wahanol i'r amcangyfrifon hyn.

Adolygir yr amcangyfrifon a'r rhagdybiaethau sylfaenol yn barhaus. Caiff diwygiadau i amcangyfrifon cyfrifyddu eu cydnabod yn y cyfnod y mae'r amcangyfrif yn cael ei ddiwygio ynddo, os yw'r diwygiad yn effeithio ar y cyfnod hwnnw'n unig, neu yn ystod cyfnod y diwygiad a'r cyfnodau yn y dyfodol os yw'r diwygiad yn effeithio ar y cyfnodau presennol a'r cyfnodau yn y dyfodol.

Isod, amlinellir yr amcangyfrifon a'r tybiaethau sydd â risg sylweddol o achosi addasiad sylweddol i swm cario ymlaen asedau a rhwymedigaethau.

Seiliwyd amcangyfrifon croniadau ar ddiwedd y flwyddyn ar waith a gwblhawyd neu nwyddau a dderbyniwyd ond heb eu hanfonebu.

Amcangyfrifwyd incwm cronedig mewn perthynas â'r prosiect Cyflymu ar sail costau a ysgwyddwyd ond heb eu hawlio hyd at 31 Rhagfyr 2022 pan ddaeth y prosiect i ben. Roedd y cyfanswm hwn yn £103,980 ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023 (2022: £180,317). Cafodd yr hawliadau ar gyfer chwarteri 13 i 17 eu cyflwyno a'u talu gyda'r ddau chwarter olaf 18 a 19 heb eu talu.

Roedd gweithredu IFRS 16 yn 2019/20 yn cynnwys elfen o amcangyfrif a barn. 5.5% oedd cyfradd fenthyca gynyddrannol cyfartalog pwysedig lesddeiliad a gymhwyswyd i rwymedigaethau lesoedd a gydnabuwyd yn y datganiad sefyllfa ariannol ar ddyddiad y cais cychwynnol. Mae cyfradd benthyca cynyddrannol wedi'i chymhwyso i'r les a gyfrifwyd gan ddefnyddio'r cynnyrch eiddo cyfartalog yn ardal yr eiddo. Ystyrir mai cyfnod les yr eiddo yw'r cyfnod a nodir yn y contract rhentu, sef 46 mis. Nid yw contract y les yn cynnwys unrhyw opsiynau ymestyn nac opsiynau terfynu cynnar.

## NODIADAU AR Y DATGANIADAU ARIANNOL (PARHAD)

### 3 Mabwysiadu safonau newydd a diwygiedig a newidiadau mewn polisïau cyfrifyddu

Yn y flwyddyn bresennol, nid oedd unrhyw effeithiau o ganlyniad i'r newidiadau i Safonau neu Ddehongli a gyhoeddwyd gan IASB ac sy'n weithredol am gyfnod blynyddol sy'n dechrau ar 1 Ionawr 2022 neu ar ôl hynny. Mae'r rhain wedi'u hepgor oherwydd nad ydynt yn berthnasol i'r cwmni.

**Safonau sy'n cael eu cyhoeddi ond nad ydynt yn effeithiol eto**

Ar ddyddiad awdurdodi'r datganiadau ariannol hyn, roedd y Safonau a'r Dehongliadau canlynol, nad ydynt wedi cael eu cymhwyso eto yn y datganiadau ariannol hyn, yn cael eu cyhoeddi ond nid ydynt wedi dod i rym eto (ac mewn rhai achosion nid oedd yr UE wedi eu mabwysiadu eto):

| | |
|---|---|
| Diwygiadau i IAS 1 a Datganiad Ymarfer IFRS 2: Datgelu Polisïau Cyfrifyddu | (1 Ionawr 2023) |
| Diwygiadau i IAS 8: Diffiniad o Gyfrifeg Amcangyfrifon | (1 Ionawr 2023) |
| Diwygiadau i IAS 12: Treth Ohiriedig yn gysylltiedig ag Asedau a Rhwymedigaethau sy'n deillio o Un Trafodiad | (1 Ionawr 2023) |

Mae'r Cyfarwyddwyr yn rhagweld na fydd mabwysiadu'r safonau a'r dehongliadau hyn yn y dyfodol yn cael unrhyw effaith sylweddol ar ddatganiadau ariannol y Cwmni.

### 4 Refeniw

| | 2023 | 2022 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| **Refeniw a ddadansoddwyd yn ôl dosbarth busnes** | | |
| Llywodraeth Cymru - Cyllid craidd | 3,071,700 | 3,292,893 |
| Ffioedd trwyddedau | 36,784 | 36,784 |
| Arall | 11,520 | 41,325 |
| WEFO - Prosiect Cyflymu | 3,533,037 | 3,106,208 |
| Llywodraeth Cymru - Prosiect Cyflymu | 358,839 | 128,290 |
| | 7,011,880 | 6,605,500 |

## NODIADAU AR Y DATGANIADAU ARIANNOL (PARHAD)

### 4 Refeniw (Parhad)

**Prosiect Cyflymu**

Rhaglen dair blynedd oedd Cyflymu, sy'n cefnogi ac yn datblygu'r gwaith o drosi technoleg, cynnyrch a gwasanaethau newydd, drwy brosiectau ymchwil a datblygu, er mwyn gwella iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Fe'i cyflwynwyd drwy waith ar y cyd rhwng Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru Cyf fel Prif Fuddiolwr, Prifysgol Abertawe, Prifysgol Caerdydd a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant. Cafodd ei ariannu ar y cyd gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru drwy Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) (dyfarniad ariannol £12,339,771) a Llywodraeth Cymru (gwobr ariannol £650,000) yn ogystal â chyllid cyfatebol gan y partneriaid. Fel Prif Fuddiolwr, gwnaeth Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru hawliad ôl-weithredol yn erbyn dyfarniad ariannol ERDF ar ran yr holl bartneriaid ac mae'n talu'r gyfran briodol i bob partner ar ôl derbyn anfoneb briodol.

Gellir gweld effaith y prosiect Cyflymu yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr (costau gweinyddol), nodyn 4 - refeniw, nodyn 13 - symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill (rhagdaliadau ac incwm cronedig) a nodyn 15 - symiau taladwy drwy fasnach a symiau taladwy eraill (croniadau).

Yn ystod blwyddyn ariannol 2023, cafodd incwm o £3,813,952 (2022 £3,106,208) ei gydnabod yn y datganiadau ariannol gan WEFO, a chafodd £3,333,037 (2022: £2,973,064) o hynny ei dalu i bartneriaid. Cyfanswm yr incwm gwirioneddol o ganlyniad i gyfanswm y cwmni oedd £268,016 (2022: £133,144), ac roedd £130,470 o hynny'n ymwneud â newid ôl-weithredol mewn cyfrifiadau cyfradd o hawliadau blaenorol a gododd yn ystod y flwyddyn ariannol.

### 5 Costau gweinyddol

Mae costau gweinyddol yn cynnwys:

| | 2023<br>£000 | 2022<br>£000 |
|---|---|---|
| Costau staff | 2,144.3 | 2,239.7 |
| Ailddosbarthu grant WEFO i gyrff partner | 3,483.0 | 2,973.1 |
| Costau cyfleusterau/llety | 241.4 | 295.7 |
| Costau TGCH | 283.2 | 250.2 |
| Costau rhedeg swyddfa | 34.5 | 38.4 |
| Marchnata | 216.9 | 267.9 |
| Digwyddiadau | 47.3 | 17.8 |
| Teithio | 22.4 | (0.8) |
| Dibrisiant ac Amorteiddiad | 248.9 | 247.5 |
| Cyllid a chydymffurfio | 270.7 | 247.2 |
| Arall | 6.5 | 2.0 |
| **Cyfanswm Gwariant** | **6999.1** | **6,578.7** |

Mae'r categori costau staff uchod yn cynnwys costau recriwtio a chostau hyfforddi.

### 6 Elw gweithredol

| Nodir yr elw gweithredol ar gyfer y flwyddyn ar ôl codi tâl/(credydu): | 2023<br>£ | 2022<br>£ |
|---|---|---|
| Ffioedd sy'n daladwy i archwilydd y cwmni ar gyfer archwilio datganiadau ariannol y cwmni | 19,910 | 18,132 |
| Dibrisiant eiddo, offer a chyfarpar | 247,218 | 247,513 |
| Amorteiddiad asedau anniriaethol (wedi'i gynnwys yn y costau gweinyddol) | 1,694 | - |

## NODIADAU AR Y DATGANIADAU ARIANNOL (PARHAD)

### 7 Gweithwyr

Nifer cyfartalog y bobl (gan gynnwys cyfarwyddwyr) a gyflogwyd gan y cwmni yn ystod y flwyddyn oedd:

| | 2023 Nifer | 2022 Nifer |
|---|---|---|
| Cyfarwyddwyr | 9 | 10 |
| Gweinyddu | 8 | 12 |
| Marchnata a chyfathrebu | 4 | 8 |
| Ecosystem Iechyd Digidol Cymru | 1 | 1 |
| Prif Swyddog Gweithredol | 1 | 1 |
| Arloesi a Mabwysiadu | 21 | 16 |
| Sbarduno | 1 | 3 |
| Cyfanswm | 45 | 51 |

Roedd eu tâl cyfunol yn cynnwys:

| | 2023 £ | 2022 £ |
|---|---|---|
| Cyflogau | 1,750,720 | 1,857,029 |
| Costau nawdd cymdeithasol | 188,144 | 186,106 |
| Costau pensiwn | 110,951 | 122,889 |
| | 2,049,815 | 2,166,024 |

### 8 Taliadau cydnabyddiaeth i'r cyfarwyddwyr

| | 2023 £ | 2022 £ |
|---|---|---|
| Tâl am wasanaethau cymwys | 62,022 | 70,069 |

Mae tâl cydnabyddiaeth i'r Cyfarwyddwyr yn cynnwys cyflog ac Yswiriant Gwladol ac mae wedi'i gynnwys yn y datgeliad cyflogau uchod.

Nid wnaeth unrhyw gyfarwyddwyr gronni buddion ymddeol yn y flwyddyn gyfredol nac yn y flwyddyn flaenorol.

### 9 Costau cyllid

| | 2023 £ | 2022 £ |
|---|---|---|
| Dad-ddirwyn buddiant les mewn perthynas â rhoi IFRS 16 ar waith | 12,848 | 26,833 |
| | 12,848 | 26,833 |

## NODIADAU AR Y DATGANIADAU ARIANNOL (PARHAD)

### 10 Costau treth incwm

Gellir cysoni'r tâl am y flwyddyn â'r golled yn y datganiad incwm fel a ganlyn:

| | 2023<br>£ | 2022<br>£ |
|---|---|---|
| Colled cyn trethu | - | - |
| Taliad treth disgwyliedig yn seiliedig ar gyfradd dreth gorfforaeth o 19.00% | - | - |
| Effaith costau na ellir eu didynnu wrth bennu elw trethadwy | 1,371,890 | 1,294,188 |
| Incwm nad yw'n drethadwy | (1,324,314) | (1,246,854) |
| Defnyddio colledion treth na chydnabuwyd o'r blaen | (282) | (307) |
| Dibrisiant ar asedau nad ydynt yn gymwys ar gyfer lwfansau treth | (46,972) | (47,027) |
| Amorteiddiad ar asedau nad ydynt yn gymwys ar gyfer lwfansau treth | (322) | - |
| **Taliad treth ar gyfer y flwyddyn** | - | - |

### 11 Eiddo, offer a chyfarpar

| | Tir ac adeiladau ar lesddaliad<br>£ | Gosodiadau a ffitiadau<br>£ | Cyfanswm<br>£ |
|---|---|---|---|
| **Cost** | | | |
| Ar 1 Ebrill 2021 | 947,669 | 404,484 | 1,352,153 |
| Gwarediadau | - | (328,428) | (328,428) |
| Ar 31 Mawrth 2022 | 947,669 | 76,056 | 1,023,725 |
| Ar 31 Mawrth 2023 | 947,669 | 76,056 | 1,023,725 |
| **Dibrisiant ac amhariad a gronnwyd** | | | |
| Ar 1 Ebrill 2021 | 370,828 | 404,189 | 775,017 |
| Taliad am y flwyddyn | 247,218 | 295 | 247,513 |
| Diddymwyd wrth waredu | - | (328,428) | (328,428) |
| Ar 31 Mawrth 2022 | 618,046 | 76,056 | 694,102 |
| Taliad am y flwyddyn | 247,218 | - | 247,218 |
| Ar 31 Mawrth 2023 | 865,264 | 76,056 | 941,320 |
| **Swm cario ymlaen** | | | |
| Ar 31 Mawrth 2023 | 82,405 | - | 82,405 |
| Ar 31 Mawrth 2022 | 329,623 | - | 329,623 |

## NODIADAU AR Y DATGANIADAU ARIANNOL (PARHAD)

### 10 Costau treth incwm

Gellir cysoni'r tâl am y flwyddyn â'r golled yn y datganiad incwm fel a ganlyn:

| | 2023 £ | 2022 £ |
|---|---|---|
| Colled cyn trethu | - | - |
| Taliad treth disgwyliedig yn seiliedig ar gyfradd dreth gorfforaeth o 19.00% | - | - |
| Effaith costau na ellir eu didynnu wrth bennu elw trethadwy | 1,371,890 | 1,294,188 |
| Incwm nad yw'n drethadwy | (1,324,314) | (1,246,854) |
| Defnyddio colledion treth na chydnabuwyd o'r blaen | (282) | (307) |
| Dibrisiant ar asedau nad ydynt yn gymwys ar gyfer lwfansau treth | (46,972) | (47,027) |
| Amorteiddiad ar asedau nad ydynt yn gymwys ar gyfer lwfansau treth | (322) | - |
| **Taliad treth ar gyfer y flwyddyn** | - | - |

### 11 Eiddo, offer a chyfarpar

| | Tir ac adeiladau ar lesddaliad £ | Gosodiadau a ffitiadau £ | Cyfanswm £ |
|---|---|---|---|
| **Cost** | | | |
| Ar 1 Ebrill 2021 | 947,669 | 404,484 | 1,352,153 |
| Gwarediadau | - | (328,428) | (328,428) |
| Ar 31 Mawrth 2022 | 947,669 | 76,056 | 1,023,725 |
| Ar 31 Mawrth 2023 | 947,669 | 76,056 | 1,023,725 |
| **Dibrisiant ac amhariad a gronnwyd** | | | |
| Ar 1 Ebrill 2021 | 370,828 | 404,189 | 775,017 |
| Taliad am y flwyddyn | 247,218 | 295 | 247,513 |
| Diddymwyd wrth waredu | - | (328,428) | (328,428) |
| Ar 31 Mawrth 2022 | 618,046 | 76,056 | 694,102 |
| Taliad am y flwyddyn | 247,218 | - | 247,218 |
| Ar 31 Mawrth 2023 | 865,264 | 76,056 | 941,320 |
| **Swm cario ymlaen** | | | |
| Ar 31 Mawrth 2023 | 82,405 | - | 82,405 |
| Ar 31 Mawrth 2022 | 329,623 | - | 329,623 |

## NODIADAU AR Y DATGANIADAU ARIANNOL (PARHAD)

### 11 Eiddo, offer a chyfarpar (Parhad)

Mae eiddo, offer a chyfarpar yn cynnwys asedau hawl i'w defnyddio, fel a ganlyn:

| **Asedau hawl i'w defnyddio** | **2023**<br>**£** | **2022**<br>**£** |
|---|---|---|
| **Gwerthoedd net ar ddiwedd y flwyddyn** | | |
| Eiddo | 82,406 | 329,623 |
| **Taliad dibrisiant ar gyfer y flwyddyn** | | |
| Eiddo | 247,218 | 247,218 |

### 12 Asedau anniriaethol

| | **System Archebu Desgiau**<br>**£** | **Datblygu'r Wefan**<br>**£** | **Cyfanswm**<br>**£** |
|---|---|---|---|
| **Cost** | | | |
| Ar 1 Ebrill 2021 | 23,050 | 19,950 | 43,000 |
| Ychwanegiadau | - | 5,083 | 5,083 |
| Ar 31 Mawrth 2022 | 23,050 | 25,033 | 48,083 |
| Ychwanegiadau | - | 28,946 | 28,946 |
| Ar 31 Mawrth 2023 | 23,050 | 53,979 | 77,029 |
| **Amorteiddio ac amhariad** | | | |
| Ar 1 Ebrill 2021 | 23,050 | 19,950 | 43,000 |
| Ar 31 Mawrth 2022 | 23,050 | 19,950 | 43,000 |
| Taliad am y flwyddyn | - | 1,694 | 1,694 |
| Ar 31 Mawrth 2023 | 23,050 | 21,644 | 44,694 |
| **Swm cario ymlaen** | | | |
| Ar 31 Mawrth 2023 | - | 32,335 | 32,335 |
| Ar 31 Mawrth 2022 | - | 5,083 | 5,083 |

### 13 Symiau derbyniadwy drwy fasnach - risg credyd

**Gwerth teg symiau derbyniadwy drwy fasnach**
Mae'r cyfarwyddwyr o'r farn bod swm cario symiau masnach a symiau derbyniadwy eraill yn cyfateb yn fras i'w gwerth teg.

Nid oes amhariad ar unrhyw falansau derbyniadwy sylweddol ar ddyddiad terfynu'r adroddiad.

## NODIADAU AR Y DATGANIADAU ARIANNOL (PARHAD)

### 14 Symiau derbyniadwy drwy fasnach a symiau derbyniadwy eraill

| | 2023<br>£ | 2022<br>£ |
|---|---|---|
| Symiau derbyniadwy drwy fasnach | 2,311 | - |
| TAW y gellir ei adennill | 11,339 | 18,789 |
| Rhagdaliadau ac incwm cronnus | 2,936,846 | 2,958,354 |
| | 2,950,496 | 2,977,143 |

Dosberthir symiau derbyniadwy drwy fasnach a ddatgelir uchod fel benthyciadau a symiau derbyniadwy ac felly maent yn cael eu mesur ar sail cost wedi'i hamorteiddio.

Mae rhagdaliadau a'r incwm cronedig uchod yn cynnwys £2.7m (2022: £2.7m) sy'n ymwneud â gwariant partneriaid Cyflymu y mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn ei hawlio ar eu rhan ac yn ei dalu i'r partner ar ôl cael anfoneb briodol.

### 15 Symiau taladwy drwy fasnach a symiau taliadau eraill

| | 2023<br>£ | 2022<br>£ |
|---|---|---|
| Symiau taladwy drwy fasnach | 381,842 | 441,461 |
| Croniadau | 2,929,999 | 5,676,671 |
| Nawdd cymdeithasol a threthi eraill | 617 | - |
| Symiau taladwy eraill | 3,680 | 19,353 |
| | 3,316,138 | 6,137,485 |

Mae taliadau taladwy drwy fasnach a chroniadau uchod wedi'u cynnwys yn £23,914 (2022: £361,909) sy'n ddyledus gan y Cwmni i Lywodraeth Cymru mewn perthynas â rheoli cyfleusterau, trydan a gwaith gwrth-sain a ail-godir tâl ar y Cwmni amdanynt (gweler nodyn 23 am ragor o fanylion).

Wedi'i gynnwys yn y Croniadau sydd dros £2.7m (2022: £2.7m) sy'n ymwneud â gwariant partneriaid Cyflymu y mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn ei hawlio ar eu rhan ac yn ei dalu i'r partner ar ôl cael anfoneb briodol.

### 16 Rhwymedigaethau lesoedd

| **Dadansoddiad aeddfedrwydd** | 2023<br>£ | 2022<br>£ |
|---|---|---|
| O fewn blwyddyn | 90,547 | 261,910 |
| Rhwng dwy a phum mlynedd | - | 90,546 |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau heb eu disgowntio** | 90,547 | 352,456 |

## NODIADAU AR Y DATGANIADAU ARIANNOL (PARHAD)

### 16 Rhwymedigaethau lesoedd (Parhad)

Caiff rhwymedigaethau lesoedd eu dosbarthu ar sail y symiau y disgwylir iddynt gael eu setlo yn ystod y 12 mis nesaf ac ar ôl mwy na 12 mis o'r dyddiad adrodd, fel a ganlyn:

| | 2023<br>£ | 2022<br>£ |
|---|---|---|
| Rhwymedigaethau cyfredol | 90,547 | 261,910 |
| Rhwymedigaethau anghyfredol | - | 90,546 |
| | 90,547 | 352,456 |

Ar 31 Gorffennaf 2013, llofnododd Gweinidogion Cymru gytundeb les 10 mlynedd uwch gyda thrydydd parti mewn perthynas â'r eiddo y mae'r Cwmni yn ei feddiannu. Ar 4 Gorffennaf 2014, ymrwymodd Gweinidogion Cymru gytundeb trwydded gyda'r un trydydd parti yn ymwneud ag is-osod yr eiddo hwn i'r Cwmni. Ar yr un diwrnod, llofnodwyd yr is-les rhwng Gweinidogion Cymru a'r Cwmni. Daeth yr is-les i ben ar 29 Mehefin 2018. Ar 7 Hydref 2019, cwblhawyd y gwaith o gwblhau is-les newydd hyd at 25 Gorffennaf 2023 o dan IFRS 16. Gweler nodyn 2 am effeithiau IFRS 16.

Mae gwerth teg rhwymedigaethau les y cwmni tua'r un faint â'u swm cario ymlaen.

### 17 Refeniw gohiriedig

| | 2023<br>£ | 2022<br>£ |
|---|---|---|
| Yn deillio o grantiau'r llywodraeth | 433,980 | 350,226 |

Disgwylir i'r holl refeniw gohiriedig gael ei setlo o fewn 12 mis i'r dyddiad adrodd.

### 18 Cynlluniau buddiannau ymddeol

| **Cynlluniau â chyfraniadau wedi'u diffinio** | 2023<br>£ | 2022<br>£ |
|---|---|---|
| Tâl i elw neu golled mewn perthynas â chynlluniau cyfraniadau diffiniedig | 110,951 | 122,889 |

Mae gan y cwmni gynllun pensiwn cyfraniadau diffiniedig ar gyfer pob gweithiwr cymwys. Cedwir asedau'r cynllun ar wahân i asedau'r cwmni mewn cronfa a weinyddir yn annibynnol.

### 19 Enillion a gedwir

| | 2023<br>£ | 2022<br>£ |
|---|---|---|
| Ar ddechrau ac ar ddiwedd y flwyddyn | 12,259 | 12,259 |

## NODIADAU AR Y DATGANIADAU ARIANNOL (PARHAD)

**20 Ymrwymiadau cyfalaf**

Nid oedd unrhyw ymrwymiadau cyfalaf ar 31 Mawrth 2023 (2022: £dim).

**21 Rheoli risg cyfalaf**

Nid yw'r cwmni'n rhwym wrth unrhyw ofynion cyfalaf a osodir yn allanol.

**22 Digwyddiadau ar ôl y dyddiad adrodd**

Rhoddwyd awdurdod i gyhoeddi'r Datganiadau Ariannol ar 30 Medi 2023. Mae gan Lywodraeth Cymru'r pŵer i ddiwygio'r Datganiadau Ariannol ar ôl eu cyhoeddi.

## NODIADAU AR Y DATGANIADAU ARIANNOL (PARHAD)

### 23 Trafodion partïon cysylltiedig

**Taliadau i staff rheoli allweddol**
Nodir taliadau staff rheoli allweddol, gan gynnwys cyfarwyddwyr, gyda'i gilydd isod ar gyfer pob un o'r categorïau a nodir yn IAS 24 *Datgeliadau Partïon Cysylltiedig*.

| | 2023<br>£ | 2022<br>£ |
|---|---|---|
| Buddion tymor byr i weithwyr | - | 70,069 |

Mae'r cwmni'n is-gwmni sy'n cael ei reoli'n gyfan gwbl gan Lywodraeth Cymru ac felly ystyrir Llywodraeth Cymru yn barti cysylltiedig. Mae gan y Cyfarwyddwyr, yr Athro Hamish Laing a Chris Martin, ddiddordeb yn Llywodraeth Cymru oherwydd eu rolau yn y sefydliad.

Yn ystod y flwyddyn, derbyniodd y cwmni incwm o £3,421,183 gan Lywodraeth Cymru, a oedd yn cynnwys £3,140,418 o gyllid craidd a £50,000 o incwm prosiect Llywodraeth Cymru ar gyfer Cyflymu a DHEW (2022: £3,292,893 o gyllid craidd a £128,290 o incwm prosiect Llywodraeth Cymru). Yn ystod y flwyddyn, fe wnaeth Llywodraeth Cymru anfonebu £518,945 ar gyfer gwasanaethau a ddarperir, gan gynnwys cost rhent, taliadau gwasanaeth, rheoli cyfleusterau, a'r wefan (2022: £788,373). Ar 31 Mawrth 2023, roedd gan y cwmni £23,914 yn ddyledus i Lywodraeth Cymru (2022: £361,909) mewn perthynas â rheoli cyfleusterau, trydan a gwaith gwrth-sain a ail-godir tâl ar y Cwmni amdanynt (Gweler nodyn 15).

Mae gan Victoria Bates, yr Athro Hamish Laing a Chris Martin, ddiddordeb ym Mhrifysgol Abertawe oherwydd eu rolau yn y sefydliad. Yn ystod y flwyddyn, anfonebodd Prifysgol Abertawe y cwmni £2,192,932 (2022: £221,735) a derbyniodd y cwmni incwm gan y brifysgol o £dim (2022: £dim). Roedd £dim yn ddyledus gan y cwmni i'r brifysgol (2022: £75,603) ac roedd £dim yn ddyledus gan y brifysgol (2022: £dim) ar ddiwedd y flwyddyn. Cyfanswm trafodion incwm a gwariant Cyflymu gyda'r Brifysgol yn y flwyddyn oedd £736,769 (2022: £736,769). Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys gwerth incwm cronnus a chronedig ar gyfer y symiau hyn.

Cath O'Brien yw'r Prif Swyddog Gweithredu Dros Dro yn Ymddiriedolaeth GIG Felindre. Derbyniwyd anfonebau am gyflenwi gwasanaethau gan Ymddiriedolaeth GIG Felindre, gyda chyfanswm o £nil (2022: £dim) Anfonebwyd Ymddiriedolaeth GIG Felindre am £39,879 (2022: £38,085) ar gyfer gwasanaethau a ddarparwyd gan Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn ystod y flwyddyn ac roedd swm o £dim yn ddyledus (2022: £dim) ar ddiwedd y flwyddyn.

Mae'r Cyfarwyddwr Arloesi ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn berthynas i Cath O'Brien ac mae gan Len Richards (ac ar gyfer 2021-22) Syr Mansel Aylward ddiddordeb yn y Bwrdd hefyd. Derbyniwyd anfonebau am gyflenwi gwasanaethau gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, gwerth cyfanswm o £13,406 (2022: £13,406). Nid oedd unrhyw symiau'n ddyledus ar ddiwedd y flwyddyn bresennol na'r flwyddyn flaenorol.

Cyfanswm trafodion incwm a gwariant Cyflymu gyda Phrifysgol Caerdydd yn y flwyddyn oedd £1,506,247 (2022: £1,290,317). Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys gwerth incwm cronnus a chronedig ar gyfer swm o £1,319,190.

Perthynas i Peter Max sy'n berchen ar EST Cyf. Derbyniwyd anfonebau ar gyfer cyflenwi gwasanaethau gan EST, gwerth cyfanswm o £2,418 (2022: £25,663). Ar 31 Mawrth 2023, roedd gan y cwmni £360 yn ddyledus i EST Cyf (2022: £dim).

Mae Peter Max yn Aelod Anweithredol o Fwrdd Gofal Cymdeithasol Cymru. Derbyniwyd anfonebau am gyflenwi gwasanaethau gan Gofal Cymdeithasol Cymru, gyda chyfanswm o £2,500 (2022: £dim). Nid oedd unrhyw symiau'n ddyledus ar ddiwedd y flwyddyn bresennol.

## NODIADAU AR Y DATGANIADAU ARIANNOL (PARHAD)

### 24 Parti rheoli

Gweinidogion Cymru sydd â'r rheolaeth eithaf dros y Cwmni, sef yr unig aelod.

### 25 Busnes Hyfyw

Wrth fabwysiadu'r sail busnes hyfyw ar gyfer paratoi'r Datganiadau Ariannol, mae'r Cyfarwyddwyr wedi ystyried y gweithgareddau busnes yn ogystal â phrif risgiau'r Cwmni, fel y nodir yn y gofrestr risg.

Cafodd y Cwmni ei lythyr Cylch Gwaith gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2023-25 ar 26 Gorffennaf 2023, a Llythyr Cyllid ar wahân dyddiedig 28 Gorffennaf 2023 yn cadarnhau'r gyllideb sydd ar gael ar gyfer 2023-24 ac awgrym o'r dyraniad cyllideb ar gyfer 2024-25.

Mae Llywodraeth Cymru wedi addo cefnogaeth barhaus i'r Hwb Gwyddorau Bywyd ac mae'n ymwneud yn agos â datblygu strategaeth a chyfeiriad hirdymor y Cwmni.

### 26 Cyfran Cyfalaf

Mae'r Cwmni yn gyfyngedig drwy warant gyda Gweinidogion Cymru yn cytuno i gyfrannu'r swm o £1 pe bai'r Cwmni'n cael ei ddirwyn i ben.

### 27 Arian parod (a gyfrifwyd gan)/ai gynhyrchwyd drwy weithrediadau

| | 2023 | 2022 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| **Addasiadau ar gyfer:** | | |
| Costau cyllid | 12,848 | 26,833 |
| Amorteiddiad ac amhariad ar asedau anniriaethol | 1,694 | - |
| Dibrisiant ac amharid eiddo, offer a chyfarpar | 247,218 | 247,513 |
| **Symudiadau mewn cyfalaf gweithio:** | | |
| Gostyngiad/(Cynnydd) yn y symiau derbyniadwy drwy fasnach a symiau derbyniadwy eraill | 26,647 | (227,837) |
| (Gostyngiad)/cynnydd yn y symiau taladwy drwy fasnach a symiau taladwy eraill | (2,821,347) | 3,056,070 |
| Cynnydd/(gostyngiad) mewn refeniw gohiriedig sydd heb ei dalu | 83,754 | (151,018) |
| | (2,449,186) | 2,951,561 |
| **Arian parod (a gyfrifwyd gan)/ai gynhyrchwyd drwy weithrediadau** | | |

Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru
Hwb Chris McGuigan
3 Sgwâr y Cynulliad
Caerdydd
CF10 4PL

hello@lshubwales.com
029 2046 7030